
Y Gronfa Loteri Fawr

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008















| | |
|---|---|
| **Teitl** | Y Gronfa Loteri Fawr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 |
| **Manylion cyhoeddi** | Fersiwn Gymraeg |
| **Cod Stôc** | BIG-AnRep07/08 |
| **Print** | Belmont Press |
| **Cynllun** | Graphicsi Ltd |
| **Ffotograffau** | Mark Campbell, Steve Forrest, Simon McComb, Keith Morris, Daniel Parry, Robert Rathbone and Alex Skibinski. |


**Copïau pellach ar gael o:**

| | |
|---|---|
| E-bost | ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk |
| Ffôn | 0845 410 20 30 |
| Ffôn testun | 0845 039 02 04 |
| Ein gwefan | www.cronfaloterifawr.org.uk |


**Mynediad**

Cysylltwch â ni er mwyn trafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol a allai fod gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

**Rydym yn poeni am yr amgylchedd**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.

**Ein gweledigaeth**

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Ein gwerthoedd**

Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr a chyllidwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadau dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

©Cronfa Loteri Fawr, Gorffennaf 2008

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

# Y Gronfa Loteri Fawr

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008-08-12

Cyflwynir yr adroddiad blynyddol mewn cydymffurfiad ag adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan y Deddfau Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratowyd y cyfrifon yn unol ag Adran 43D(4) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a'u cyflwyno gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol.

Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŵ'r Cyffredin ar 21 Gorffennaf 2007.

Cyflwynwyd gerbron senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban ar 21 Gorffennaf 2008.

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

HC 910 London: The Stationery Office £25.75.

SG/2008/115

NIA 219/07-08

© Hawlfraint y Goron 2008
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw logos y Lluoedd Brenhinol ac adrannau neu asiantaethau eraill) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio o fewn cyd-destun camarweiniol.
Rhaid cydnabod hawlfraint y Goron yn y deunydd a nodi teitl y ddogfen.
Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd sy'n hawlfraint i drydydd parti bydd yn rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â hawlfraint y ddogfen hon at
Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Tichmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost at licensing@opsi.gov.uk
ISBN: 9780102957327

# Y Gronfa Loteri Fawr
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/08

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | | 2 |
| **Adran un** | Ein fframwaith llywodraethu a sut yr ydym yn gweithio | 4 |
| **Adran dau** | Ein strategaeth – ariannu deallus | 12 |
| **Adran tri** | Ein rhaglenni grant | 16 |
| | Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 18 |
| | Rhaglenni etifeddiaeth y Gronfa Loteri Fawr | 44 |
| **Adran pedwar** | Ein perfformiad gweithredol | 52 |
| **Adran pump** | Ein perfformiad ariannol, gan gynnwys | 66 |
| | Yr adroddiad cydnabyddiaeth | 74 |
| **Adran chwech** | Datganiadau ariannol, gan gynnwys | 80 |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 80 |
| | Datganiad o reolaeth fewnol | 82 |
| | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŵ'r Senedd a Senedd yr Alban | 86 |
| | Cyfrifon blynyddol | 88 |
| **Adran saith** | Ein cefndir statudol | 108 |

# Cyflwyniad
## gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Sefydlwyd y Gronfa Loteri Fawr yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2006, trwy uno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ffurfiol, a throsglwyddo gweithgareddau ac asedau gweddilliol o Gomisiwn y Mileniwm. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad a llwyddiannau'r Gronfa Loteri Fawr yn 2007/08, ei blwyddyn gweithredu lawn gyntaf, gan gynnwys sut yr ydym wedi defnyddio'r arian a godwyd gan y Loteri Genedlaethol at ddibenion iechyd, addysg, amgylcheddol ac elusennol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008. Mae hefyd yn amlinellu ein cynnydd wrth gyflwyno ein cyfran gyntaf o arian nad yw'r arian y Loteri.

Ein prif nod yw cyflwyno gwell canlyniadau arg yfer cymunedau a phobl anghenus. Rydym yn ariannu rhai rhaglenni wedi'u targedu a rhai rhaglenni agored er mwyn cyflawni hyn. Yn ystod y flwyddyn hon, fe wnaethom, ddyfarnu cyfanswm o £1,192 miliwn ym mhedair gwlad y DU. Roedd y dyfarniadau'n amrywio o'r mawr iawn – grant cyfalaf gwerth £50 miliwn o dan Miliynau'r Bobl ar gyfer prosiect Connect2 Sunstrans, i'r bach iawn – miloedd o grantiau rhwng £300 a £10,000 trwy Arian i Bawb. Rydym wedi gweithio'n galed i ddosbarthu cymaint o grantiau â phosibl i achosion da heb gymryd gormod o risg na fydd gennym yr arian i'w bodloni. Er 2004 rydym wedi gostwng gan ymron i hanner y gweddillion arian yr ydym yn eu dal er mwyn bodloni ymrwymiadau ymlaen.

Mae arian nad yw'n arian y Loteri yn gyfle newydd pwysig ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr gan ei fod yn cynnig y potensial i ni gyflwyno canlyniadau mwy positif. Fe wnaethom lansio ein rhaglen gyntaf nad yw'n arian y Loteri yn 2007/08, gan gyflwyno'r rhaglen Asedau Cymunedol gwerth £30 miliwn ar ran Swyddfa'r Trydydd Sector. Fe wnaethom ddechrau trafodaethau gyda'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd er mwyn cyflwyno arian ar gyfer cyfleusterau ieuenctid newydd, ac er hynny rydym wedi lansio'r rhaglen ***myplace***.

Fe wnaethom hefyd ddechrau paratoi ar gyfer ddeddfwriaeth Trysorlys Ei Mawrhydi, sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy'r Senedd, a gynlluniwyd i'n galluogi ni i ariannu trwy arian sydd ar hyn o bryd mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu cwsg.

Mae cydweithio, cynnwys y cyhoedd a hyrwyddo buddion dyfarniadau'r Loteri Genedlaethol yn parhau i fod yn yrwyr allweddol i ni. Lansiwyd Miliynau'r Bobl, sy'n rhoi cyfle i bobl bleidleisio dros eu holl brosiectau ar y teledu, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol ym mis Mawrth 2008. Mae'r galw am ein harian wedi parhau'n uchel. Ein gwefan a llinell wybodaeth yw'r man galw cyntaf i nifer o ymgeiswyr, sy'n eu cyfeirio at y llwybr ariannu mwyaf priodol. Ochr yn ochr â hyn, mae ein swyddfeydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gweithio'n agos gydag asiantaethau cymorth i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o ba arian sydd ar gael a sut i gael mynediad ato. Rydym bellach yn defnyddio cyfnod cynnig amlinellol ar gyfer llawer o raglenni er mwyn darparu adborth cyflym ar ba un a oes diben symud ymlaen gyda chais yn llawn a sut y gellid ei ddatblygu. Rydym wedi dechrau defnyddio prosesau ymgeisio ar-lein a byddwn yn ceisio gwneud profiad y cwsmer hyd yn oed yn well yn y blynyddoedd i ddod.

Ym mis Mawrth 2007, cyhoeddodd y Llywodraeth y penderfyniad i drosglwyddo arian ychwanegol o'r Loteri i'r Gemau Olympaidd. Ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr bydd hyn yn ostyngiad pellach o £425 miliwn rhwng 2009 a 2012 i'r £213 miliwn a gyhoeddwyd yn flaenorol yn 2005 pan gyhoeddwyd llwyddiant y cais am y Gemau Olympaidd. Rydym wedi ceisio isafu effaith y trosglwyddiad hwn ar ein hymgeiswyr a'r cyrff a ariannir gennym. Rydym yn hyderus, cyhyd â bod rhagolygon o incwm y Loteri yn gywir, y byddwn yn gallu anrhydeddu ein haddewid y bydd VCS hyd at 2012 yn derbyn o leiaf 60 y cant, yn nhermau arian parod, o'r cyfanswm y byddem wedi'i ddosbarthu pe nai bai trosglwyddiad y Gemau Olympaidd wedi digwydd.

Rydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer ein cylch ariannu nesaf a fydd yn dechrau o 2009 ymlaen. Rydym wedi defnyddio ein gwerthusiad ac ymchwil, a phrofiad ein staff, cwsmeriaid a phartneriaid, i gyfoethogi ein gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio orau wrth uchafu canlyniadau ac effeithiau – ac mai'r ymdriniaeth ariannu ddeallus yw'r sylfaen yr ydym yn datblygu ein fframwaith strategol ar gyfer 2009 ymlaen.

Yn ystod 2007/08 rydym wedi dechrau gweld buddion ariannol yr uno a'r rhaglenni adleoli. Ein costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian y Loteri oedd £60 miliwn, gostyngiad o £5 miliwn er 2006/07. Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad gwerth am arian 'Making grants efficiently in the culture, media and sport sector' ym mis Mai 2008. Dangosodd hyn fod ein costau yn cymharu'n ffafriol gyda chyllidwyr y sector cyhoeddus a gyda chyllidwyr eraill yn y sector gwirfoddol. Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn gwario cyn lleiaf o'n hincwm â phosibl ar ein costau ein hunain – roedd ein costau gweithredu, ac eithrio adolygiad Strwythurol a chostau a ailgodir ar sefydliadau eraill, oedd 9.1 y cant o'r incwm a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol 2007/08, i lawr o 10.2 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Ar 1 Chwefror 2008 fe wnaeth Stephen Dunmore ymddeol fel Prif Weithredwr a daeth Peter Wanless yn olynydd iddo. Dymunwn ddiolch i Stephen Dunmore am ei arweinyddiaeth wych ers uno'r dosbarthwyr blaenorol yn weinyddol yn 2004. Dywed ein staff, trwy arolwg staff, wrthym fod y Gronfa Loteri Fawr yn gyffredinol yn lle da i weithio ac mae gennym gynlluniau gweithredu er mwyn gwella ymhellach. Roeddem yn arbennig o falch, ar ôl y newid arwyddocaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, i sicrhau statws “One to Watch” yn arolwg gweithwyr Best Companies y Sunday Times.

Mae ein Bwrdd y DU a Phwyllgorau'r Gwledydd wedi gweithio'n dda i gydbwyso ein strwythur a strategaeth ledled y DU gyda phenderfyniadau wedi'u datganoli'n sylweddol i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Dymunwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiannau'r Gronfa Loteri Fawr eleni. Y ffactor allweddol sy'n wraidd i'r llwyddiannau hyn yw arweinyddiaeth aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a gwaith caled, ymrwymiad ac ymroddiad y staff a'r bobl niferus yr ydym wedi gweithio gyda hwy a dysgu cymaint oddi wrthynt.

Rydym wedi dysgu a datblygu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn hon ond credwn y gallwn adeiladu ar y llwyddiannau i wneud gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy i fywydau cymunedau a phobl anghenus yn ystod y blynyddoedd i ddod. Ein cenhadaeth yw bod yn gyllidwr arloesol a theilwng ac yn frocer datrysiadau, yn arbenigwr wrth ddeall anghenion a chymhelliannau pobl y mae eraill yn eu gadael ar ôl. Nid yn unig y byddwn yn anelu at lunio canlyniadau o'r radd flaenaf ond gweithgaredd ei hunain ond i ddylanwadu ar bolisi ac arfer y rheini, dros amser, a fydd a llawer yn fwy o arian a dylanwad pan dda hi i gynnal newid er gwell, i'r rheini sydd ei angen fwyaf.

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr

**Sir Clive Booth**
Cadeirydd

# Adran un

## Ein fframwaith llywodraethu a sut yr ydym yn gweithio

Yn yr adran hon rydym yn amlinellu ein fframwaith llywodraethu allanol a mewnol sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer sut yr ydym yn gweithio.

### Ein hanes a fframwaith statudol

Y Gronfa Loteri Fawr yw'r mwyaf o blith dosbarthwyr y Loteri ac sy'n gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian achosion da a godir gan y Loteri Genedlaethol i brosiectau sy'n mynd i'r afael ag iechyd, addysg, yr amgylchedd a dibenion elusennol. Mae'r incwm hwn gan y Loteri yn cael ei fuddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) hyd nes bod ei angen i dalu'r grantiau yr ydym wedi'u haddo. Rydym hefyd yn derbyn 50 y cant o'r llog a enillir ar balans yn y CDdLG.

Daeth y Gronfa Loteri Fawr yn gorff gweinyddol ar 1 Mehefin 2004. Daeth Deddf y Loteri Genedlaethol 2006, a roddodd statws cyfreithiol i'r Gronfa Loteri Fawr, i rym ar 1 Rhagfyr 2006. Llywodraethir ein gwaith gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 yn cynnwys pwerau i'r Gronfa Loteri Fawr ddosbarthu arian nad yw'r arian y Loteri ac i wneud benthyciadau. Mae hefyd yn rhoi'r cyfrifoldeb i ni dros y grantiau a wneir gan Gomisiwn y Mileniwm.

Ym mis Tachwedd 2006 penododd yr Ysgrifennydd Gwlad dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Fwrdd o 12 aelod ar ôl recriwtiaid cyhoeddus agored. Mae ein Bwrdd yn cynnwys pedwar aelod sy'n cynrychioli buddion pedair gwlad y DU. Mae'r aelodau hyn hefyd yn cadeirio'r pedwar pwyllgor gwlad sy'n eistedd yn union islaw'r Bwrdd. Amlinellir manylion ein Bwrdd a llywodraethu mewnol yn ddiweddarach yn yr adran hon.

### Y rheoliadau sy'n ein llywodraethu

Ein Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n atebol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'i Phrif Swyddog Cyfrifo. Gallai fod gofyn arnom hefyd i roi tystiolaeth i bwyllgorau Seneddol a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Darperir ein fframwaith llywodraethu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'n cynnwys: Cyfeiriadau Polisi, sy'n amlinellu materion y dylem eu hystyried wrth benderfynu sut i wario arian y Loteri; Cyfeiriadau Ariannol a'r Datganiad o Ofynion Ariannol, sy'n amlinellu sut y dylem reoli arian y Loteri; a Chyfarwyddiadau Cyfrifon, sy'n amlinellu sut yr ydym yn rhoi cyfrif am sut yr ydym yn defnyddio arian y Loteri. Mae'r Datganiad Rheoli gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnig fframwaith o'n perthynas weithio gyda'r adran. Rydym hefyd yn ystyried arweiniad a gyhoeddir gan y Trysorlys a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r holl gyfarwyddiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith gan ein polisïau a gweithdrefnau mewnol.

Mae gennym bŵer ariannu eang sy'n galluogi i ni ddosbarthu grantiau (neu fenthyciadau) i nifer o wahanol fathau o sefydliadau yn y sectorau elusennol, gwirfoddol a chymuned, cyhoeddus a phreifat (cyhyd â bod yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd).

Mae rhan fwyaf ein hariannu yn grantiau a roddir yn uniongyrchol i ymgeiswyr llwyddiannus, yn enwedig y rheini yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Serch hynny, ar gyfer rhai rhaglenni, er enghraifft Chwarae Plant yn Lloegr, mae'n gwneud synnwyr fod yr arian yn cael ei ddyrannu mewn ffordd arall. Yn yr enghraifft honno, dyfernir arian i Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldeb dros ddosbarthu strategaethau Chwarae Plant yn eu hardaloedd, gyda gofyniad bod trefniadau partneriaeth cywir yn cael eu sefydlu gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i gyflwyno'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio. Fe all fod yn effeithiol hefyd i ni wneud ein harian ar gael trwy gyfryngwyr arbenigol Partneriaid Dyfarnu sy'n gweithredu ar ein rhan. Mae'r rhaglen Changing Spaces yn Lloegr yn un enghraifft.



# Adran un

## Ein perthynas gyda budd-ddeiliaid allweddol eraill

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom ymgymryd ag arolwg i gasglu barnau'r bobl a'r sefydliadau hynny sy'n cael eu heffeithio gan ein polisïau, ein harferion a'r penderfyniadau. Fe wnaethom dderbyn ymron i 2,000 o ymatebion, yn cynrychioli 300 y cant o'r rhieni a holwyd.

Rydym yn parhau i feithrin perthnasau cryf gyda'n budd-ddeiliaid o'r sector gwirfoddol a chymunedol. Rydym yn cwrdd ac yn ymgynghori'n rheolaidd gyda chyrff ymbarél ar draws y DU. Rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf gyda'r sector menter gymdeithasol, sydd wedi helpu i ail-lunio ein polisi ac ehangu ein meini prawf ariannu er mwyn iddynt gael mynediad at ein harian.

Rydym yn parhau i weithio gydag Aelodau Seneddol ac aelodau'r llywodraethau a'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r dyfarniadau sydd wedi'u gwneud yn eu hetholaethau ac er mwyn hyrwyddo ariannu sydd ar gael i grwpiau etholaeth.

Yn Lloegr, rydym wedi datblygu perthynas gref gyda Llywodraeth leol a chanolog. Eleni mae ein gwaith gyda Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd wedi bod yn arbennig o bwysig, gan ein bod wedi cyflwyno arian ar eu rhan. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau eraill y llywodraeth wrth i ni ddatblygu ein harfer a pholisi ariannu, gan edrych i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei flaenoriaethu yn arbennig ac yn ychwanegu gwerth.

Rydym wedi meithrin perthnasau da ar draws adrannau Llywodraeth yr Alban, gan adlewyrchu a chefnogi'r ymdriniaeth a gymerir tuag at ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr yn yr Alban. Yn benodol rydym wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol gydag adran y Trydydd Sector, sy'n cydlynu materion y Loteri ar draws Llywodraeth yr Alban.

Yng Nghymru rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid y Trydydd Sector, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wrth ddatblygu a chyflwyno ar yrwyr strategaeth a pholisi cenedlaethol. Trwy roi tystiolaeth, rhannu ein dysgu a buddsoddi mewn ystod eang o raglenni rydym wedi cyfrannu'n sylweddol at wella bywydau pobl yng Nghymru a'r cymunedau lle maent yn byw.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi datblygu cysylltiadau da gyda'r strwythurau newydd yn cael eu cynllunio a'u gweithredu o'r Adolygiad Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden ac adrannau eraill y llywodraeth i rannu ein harfer ariannu a thrwy ein dysgu yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi yn y dyfodol.

## Ein trefniadau llywodraethu mewnol – ein Bwrdd a'i bwyllgorau

Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr sy'n gyfrifol am ein cyfeiriad strategol a pherfformiad, gan gynnwys ein cyfrifoldeb i'r Llywodraeth a budd-ddeiliaid eraill. Er mwyn bodloni ei gyfrifoldebau mae gan y Bwrdd tri phwyllgor corfforaethol:

- y Pwyllgor Adnoddau
- y Pwyllgor Archwilio a Risg
- y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob dau fis ac mae aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn mynychu'r cyfarfodydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwrdd yn chwarterol. Mae'n cymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, yn cefnogi'r gofrestr risgiau ac yn craffu canlyniad yr adroddiadau mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor Adnoddau yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn. Mae'n craffu'r gyllideb flynyddol ac yn goruchwylio gwariant.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad a chyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu pwyllgorau ar gyfer penderfyniadau ar raglenni grant ledled y DU.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 12 aelod: y Cadeirydd, pedwar o Gadeiryddion pwyllgorau'r gwledydd a saith aelod Bwrdd cyffredinol. Amlinellir rhestr lawn o aelodau'r Bwrdd a'u cyfrifoldebau isod.

Mae Aelodau'r Bwrdd a'u cyfrifoldebau dros gadeirio pwyllgorau corfforaethol y Bwrdd fel a ganlyn:



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor cydnabyddiaeth



**John Gartside OBE**
Aelod cyffredinol



**Anna Southall**
Is-gadeirydd



**Alison Magee**
Cadeirydd, Pwyllgor gwlad yr Alban



**Sanjay Dighe**
Cadeirydd, Pwyllgor gwlad Lloegr



**Esther O'Callaghan OBE**
Aelod cyffredinol



**Judith Donovan** CBE
Aelod cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau



**Huw Vaughan Thomas**
Cadeirydd, Pwyllgor gwlad Cymru



**Roland Doven** MBE
Aelod cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg



**Albert Tucker**
Aelod cyffredinol



**Breidge Gadd CBE**
Cadeirydd, Pwyllgor gwlad Gogledd Iwerddon



**Diana Whitworth**
Aelod cyffredinol

# Adran un

Er 1 Rhagfyr 2006 mae materion yn ymwneud ag ariannu grantiau wedi'u datganoli i bedwar pwyllgor y gwledydd, un yr un ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Y pwyllgorau hyn sy'n gyfrifol am gyngor ar bolisi strategol y Gronfa Loteri Fawr a gwneud penderfyniadau ariannu grant o fewn eu gwledydd unigol. Mae aelodau'r pwyllgorau gwlad yn cael eu penodi gan y Bwrdd gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwlad dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Lloegr a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae gan **Bwyllgor gwlad Lloegr** 10 aelod.
Sanjay Dighe, Cadeirydd
Dr Mohammed Amran FRSA
Dr Alan Billings
Sue Charteris
John Gartside OBE
Margaret Hyde OBE
Lydia Thomas FRSA
Albert Tucker
Nalini Varma
Geoffrey Wilkinson

Mae gan **Bwyllgor gwlad yr Alban** 10 aelod.
Alison Magee, Cadeirydd
Tim Allen
Elizabeth Cameron
Helen Forsyth
David Green
Alistair Grimes
Kristofer McGhee (o 10 Rhagfyr 2007)
Maureen McGinn
Lucy McTernan
Shirley Young (o 10 Rhagfyr 2007)

Mae gan **Bwyllgor gwlad Cymru** chwe aelod.
Huw Vaughan Thomas, Cadeirydd
Graham Benfield OBE
Tom Davies (hyd at 30 Tachwedd 2007)
Gareth Newton (o 26 Chwefror 2008)
Janet Reed OBE
Mike Theodoulou
Barbara Wilding CBE, QPM, CCMI

Mae gan **Bwyllgor gwlad Gogledd Iwerddon** pum aelod.
Breidge Gadd, Cadeirydd
Paul Cavanagh
Siobhan Craig
Claire Keatinge
Peter Osborne

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei benodi gan y Bwrdd; mae hefyd wedi'i benodi gan Swyddog Cyfrifo'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Loteri Fawr. Ar 1 Chwefror 2008 fe ymddeolodd Stephen Dunmore fel Prif Weithredol a phenodwyd Peter Wanless yn Brif weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifo. Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n cefnogi'r Bwrdd yn ein rheolaeth strategol.

Yr Uwch Dîm Rheoli sy'n ystyried polisi a materion strategol a gweithredol allweddol sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd a'i brif bwyllgorau. Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn cynnal trosolwg o weithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r saith cyfarwyddwr. Cyfrifoldebau pob cyfarwyddwr yn ystod 2007/08 oedd:

**Prif Weithredwr**
Stephen Dunmore
(hyd at 31 Ionawr 2008)

**Prif Weithredwr**
Peter Wanless
(o 1 Chwefror 2008)

**Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol**
Mark Cooke

**Cyfarwyddwr, Cymru**
Ceri Doyle

**Cyfarwyddwr, yr Alban Gweithrediadau**
Dharmendra Kanani

**Cyfarwyddwr, Operations**
Adrienne Kelbie

**Cyfarwyddwr, Polisi a Phartneriaethaua**
Gerald Oppenheim

**Cyfarwyddwr, Cyfathrebu Marchnata**
Linda Quinn

**Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon**
Walter Rader



# Adran un

## Cofrestr diddordebau

Rhaid i'n holl aelodau Bwrdd a Phwyllgor, aseswyr, cynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghori ddatgan unrhyw ddiddordebau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio gyda chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Bwrdd cyrff cyhoeddus.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniadau a allai yn rhesymol gael ei weld yn rhoi achos gwrthdaro diddordeb, yn benodol dros grantiau i sefydliadau ond hefyd unrhyw berthnasau masnachol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r lle cyntaf bod hynny'n cael ei ddatgelu a bod yr aelodau yn tynnu'n ôl wrth drafod yr eitem berthnasol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion trafodion ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol gyda sefydliadau lle wnaeth aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor gwledydd ddatgan diddordeb cyfredol adeg dyfarnu'r grant.

Gall y cyhoedd edrych ar y gofrestr o ddiddordebau datganedig trwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Polisi a Phartneriaethau. Cyhoeddir datganiadau o ddiddordeb aelodau'r Bwrdd ar ein gwefan.

Rhaid i'r holl staff gwblhau datganiad blynyddol yn amlinellu unrhyw ddiddordebau perthnasol. Rhaid iddynt adrodd unrhyw wrthdaro diddordeb sy'n codi yn eu gwaith beunyddiol.



| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Trafodion cyfredol | Dyfarnwyd yn 2007/08 | Talwyd yn 2007/08 | Balans yn weddill ar 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sanjy Dighe | Aelod oes o Maharashtra Mandel | 1 dyfarniad o £3,822 | 1 dyfarniad o £3,822 | £3,822 | £- |
| John Gartside | Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Cwmni, The Tim Parry Jonathan Ball Trust (the Peace Centre) | 1 dyfarniad gwerth £499,186 | 1 dyfarniad o £499,186 | £4,100 | £495,086 |
| | Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Warrington Wolves Community Foundation | 1 dyfarniad gwerth £9,200 | 1 dyfarniad o £9,200 | £9,200 | £- |
| Alison Mcgee | Llywodraethwr Cyngor Highland hyd at 3 Mai 2007 | 1 dyfarniad o £7,544 | 1 dyfarniad o £7,544 | £- | £7,544 |
| | Cyfarwyddwr Partneriaeth Sutherland hyd at 3 Mai 2007 | 1 dyfarniad gwerth £375,900 | £- | £67,588 | £308,312 |
| Huw Vaughn Thomas | Ymddiriedolaeth dros Gymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar hyd at fis Tachwedd 2006; gwraig yn Ymddiriedolwr dros Gymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar | 11 dyfarniad gwerth £1,895,318 | 3 dyfarniad gwerth £604,606 | £421,806 | £1,057,848 |
| Tim Allen | Cadeirydd a Chyfarwyddwr Menter yr Ifanc yr Alban | 1 dyfarniad o £10,000 | 1 dyfarniad o £10,000 | £10,000 | £- |
| Barbara Wilding | Aelod o Fwrdd Prifysgol Caerdydd | 1 dyfarniad o £2,750 | 1 dyfarniad o £2,750 | £2,750 | £- |
| Diana Whitworth | Cyd Brif Weithredwr o Grandparents Plus (hyd at Hydref 2007) | 1 dyfarniad o £167,918 | 1 dyfarniad o £167,918 | £- | £167,918 |
| Lucy McTernan | Cyfarwyddwr, Scottish Council for Voluntary Organisations | 1 dyfarniad o £8,508,040 | £- | £284,725 | £8,223,315 |
| Siobhan Craig | Aelod o bwyllgor rheoli, Include Youth | 1 dyfarniad o £46,550 | 1 dyfarniad o £46,550 | £- | £46,550 |

# Adran dau

## Ein strategaeth – ariannu deallus

Yn yr adran hon rydym yn amlinellu ein hymdriniaeth tuag at ariannu deallus sy'n nodi ein cenhadaeth a gwerthoedd, ein hamcanion ar gyfer 2007/08 a chynnydd wrth gyflwyno'r strategaeth hon.

### Yr hyn yr ydym yn ei wneud – ein cyd-destun dosbarthu grantiau

Cenhadaeth y Gronfa Loteri Fawr yw cyflwyno gwelliannau gwirioneddol i fywydau cymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae ein cylch gorchwyl statudol yn cynnwys dibenion iechyd, addysg, yr amgylchedd ac elusennol. Mae tri o themâu eang wedi'u hamlinellu yn ein Cyfarwyddiadau Polisi ac yn ymdrin â'r gwaith ym mhob sir. Y themâu hyn yw:

- Cefnogi dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd.
- Hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol.
- Hyrwyddo lles.

Fe wnaeth ein hymgynghoriad yn 2004/05 helpu i lunio'r canlyniadau sir penodol sy'n eistedd islaw'r tair thema hyn. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfarwyddiadau polisi ar wahân ar gyfer pob un o'r pedair gwlad. Atgynhyrchir y cyfarwyddiadau polisi yn adran saith yr adroddiad hwn.

Mae gennym saith o werthoedd sy'n tanategu ein holl waith:

1. **Tegwch** – prhoi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon ein gwaith
2. **Hygyrchedd** – ei gwneud yn haws cael mynediad at ein harian a darparu help i ymgeiswyr a derbynyddion grant
3. **Ffocws strategol** – gweithio mewn partneriaeth ac uno â strategaethau cyfredol, yn datblygu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a'r gwahaniaeth maent yn ei wneud i gymunedau
4. **Cynnwys pobl** – cynnwys cymunedau lleol yn ein gwaith a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod ac yn pryderu am ein gwaith
5. **Arloesiad** – adeiladu rhaglenni ar sail tystiolaeth, yn rhannu'r hyn yr ydym yn ei ddysgu ac ystyried ffyrdd newydd o ddosbarthu grantiau
6. **Galluogi** – gweithio gyda chymunedau, partneriaid a chyllidwyr eraill i helpu i gyflawni newid parhaus
7. **Ychwanegol at y Llywodraeth** – sicrhau bod ein hariannu yn wahanol i ariannu'r Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth.

Adlewyrchir y gwerthoedd hyn ar draws ein polisïau a rhaglenni. Maent yn llunio popeth yr ydym yn ei wneud ac fe ychwanegir atynt gan ein hymdriniaeth ariannu ddeallus.

Rydym hefyd wedi sefydlu set o werthoedd mewnol: atebolrwydd, gwerthfawrogi pobl, gwaith tîm a rhagoriaeth gwasanaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn amlinellu'r sut fath o gyflogwr y bwriadwn fod a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein staff.

### Ein cynllun strategol a chorfforaethol

Mae ein Cynllun Strategol 2006-09 yn amlinellu ein fframwaith strategol. Er mwyn cefnogi hynny, mae gan y Gronfa Loteri Fawr Gynllun Corfforaethol sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn honno.

Fe wnaeth y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2007/08 adnabod pum amcan, y canlyniadau y dymunwn eu cyflwyno a'r gweithgareddau blaenoriaeth a sefydlwyd er mwyn cyflawni'n amcanion hyn. Roeddynt yn cynrychioli'r blaenoriaethau yr oeddem yn canolbwyntio arnynt yn 2007/08 ac ar yr un pryd yn ein symud ymhellach tuag at ddiwedd ein cynllun cynllunio strategol cyntaf.

- **Cynnig gwell gwasanaeth i ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grant** trwy brofiad gwell ar gyfer y rheini sy'n ymholi ynghylch, ymgeisio am neu'n derbyn arian; perthynas gryfach gyda'n partneriaid cyflwyno a deiliaid contractau
- **uchafu effaith yr ariannu** trwy fframwaith gwell o raglenni ariannu, penderfyniadau gwybodus iawn ynghylch lle mae'n harian yn mynd, gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus o'n hariannu a datblygiad pellach o'r ymdriniaeth cyllidwr deallus
- **gwella cysylltiadau budd-ddeiliaid** trwy well dealltwriaeth o'n blaenoriaethau ariannu ac ymdriniaeth ganlyniadau ymhlith ein budd-ddeiliaid allweddol, effeithiolrwydd cynyddol o asiantaethau cymorth a chyfathrebu ein hegwyddorion cyllidwr deallus yn well

- **datblygu ein galluoedd a chael y gorau o bobl** trwy ddatblygu gweithlu cymwys, galluog ac ymroddedig, gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn cydweithio ar draws y sefydliad a chyflawni safonau Buddsoddwr mewn Pobl
- **gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** trwy gynllunio mwy effeithiol, modelu adnoddau a rheoli risgiau; gwell penderfyniadau a chefnogaeth i'n Bwrdd newydd wrth ddatblygu ac arwain y sefydliad i gyflwyno ein cenhadaeth a bod yn gyllidwr mwy effeithiol.

Mae ein perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn yn cael eu monitro a'u hadrodd wrth Fwrdd y DU yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Mae mwy o wybodaeth ar sut yr ydym ni'n perfformio yn erbyn yr amcanion hyn yn Adran pedwar yr adroddiad hwn.

Mae copïau o'n Cynllun Corfforaethol 2007/08 ar gael ar ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

## Ein hymdriniaeth ariannu ddeallus

Rydym yn ymrwymedig i fod yn gyllidwr deallus. Mae hyn yn golygu bod yn glir ynghylch y newidiadau y dymunwn eu gwneud, ac adnabod sut y gallwn sicrhau'r gwerth uchaf o'r ariannu y byddwn yn ei gyflwyno. Mae ein pwerau i ddosbarthu arian o'r tu allan i'r Loteri wedi peri i ni feddwl yn ehangach ynghylch y math o gyllidwr y dymunwn fod. Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Ariannu Deallus, wedi'i gadeirio ar y cyd gyda'r Gymdeithas Sefydliadau Elusennol, sy'n dwyn ynghyd ymddiriedolaethau a sefydliadau gyda chyllidwyr y llywodraeth a'r Loteri i rannu dysg ac ystyried cyfleoedd i gydweithio.

## Ein polisi ariannu canlyniadau

Rydym yn gyllidwr canlyniadau. Rydym eisiau sicrhau bod ein hariannu yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae defnyddio ymdriniaeth ganlyniadau yn arfer da ar ein cyfer ni fer cyllidwr a hefyd ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais i ni am arian. Ar lefel prosiect, mae gosod canlyniadau yn helpu sefydliadau i weld yr hyn y dymunant ei gyflawni a'r gwahaniaeth y dymunant ei wneud ar gyfer eu buddiolwyr. Mae canlyniadau hefyd yn helpu sefydliadau i feddwl yn wahanol am yr hyn maent yn ei wneud – yn canolbwyntio ar nodau ac amcanion ac, yr un mor bwysig, meddwl am sut y byddant yn dangos eu llwyddiannau.

## Ein hymrwymiad i werthuso ac ymchwil

Mae gennym raglen helaeth o werthuso ac ymchwil. Mae ein strategaeth werthuso, ymchwilio a dysgu yn amlinellu cynllun ar lefel prosiect trwy hunanwerthuso, ar lefel rhaglen, yn thematig ar draws rhaglenni gwledydd, ac ar lefel gorfforaethol i asesu cyflawni ein canlyniadau sefydliadol. Rydym yn comisiynu gwerthuswyr allanol i ymgymryd â'n gwerthusiadau, sydd fel arfer yn defnyddio data a gwybodaeth monitro ar draws nifer o brosiectau ac yn canolbwyntio'n fanylach ar nifer o astudiaethau achos.

Mae ein gwerthusiadau yn gwasanaethu gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Weithiau mae ein hariannu yn arloesol, yn rhoi cynnig ar ymdriniaeth newydd neu ffordd wahanol o gyrraedd buddiolwyr. Yma disgwyliwn i'n gwerthuso feirniadu effeithiolrwydd yr ymyrraeth a gwneud argymhellion ar gyfer llunwyr polisi. Mewn achosion eraill, mae ein gwerthusiadau wedi'u hanelu'n fwy at ddeall yr hyn sy'n gweithio ar y tir, ac mae'r rhain yn cynnig enghreifftiau o arfer da i ddeiliaid grant ac ymarferwyr eraill. Weithiau mae'r brif ddysg o'n gwerthusiad ar ein cyfer ni a chyllidwyr eraill, gan ei fod yn cynnig dadansoddiad o sut oedd ein cynllun a phrosesau yn effeithio ar y canlyniadau a gyflawnwyd.

Mae lledaenu a dysgu o'n gwerthusiad ac ymchwil yn ganolog i'n strategaeth ac ym mis Tachwedd 2007 fe wnaethom gynnal ein cynhadledd werthuso genedlaethol gyntaf. Roedd hyn yn arddangos ein gwaith gwerthuso ac ymchwilio i tua 140 o gynrychiolwyr o'r llywodraeth, y trydydd sector, sefydliadau ymchwil a phrifysgolion. Fe wnaeth cyhoeddiad y gynhadledd 'Answering BIG questions' ddwyn ynghyd y ddysg o 12 mlynedd o werthuso ac ymchwil.

Yn ystod 2007/08, fe wnaethom gyhoeddi mwy na 20 adroddiad o ganfyddiadau dros dro neu derfynol o werthusiadau hirdymor o raglenni etifeddiaeth. Fe wnaethom esgor ar werthusiadau newydd o'n rhaglenni Building Quality Childcare (Gogledd Iwerddon), Grantiau Ymchwil, Lles, Pawb a'i Le (Cymru), Miliynau'r Bobl a Growing Community Assets (Yr Alban).

# Adran dau

Fe wnaethom gomisiynu ymchwil ar bobl hŷn, er mwyn asesu i ba raddau yr oedd ein rhaglenni yn bodloni anghenion y grŵp oed hwn. Fe wnaethom gydweithio hefyd gyda nifer o Ymddiriedolaeth a Sefydliadau i ariannu prosiect ymchwil ar Mapping Britain's Needs a Young Foundation a ymgymerodd â'r gwaith. Mae ein holl adroddiadau ymchwil a gwerthuso ar gael ar ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

## Yr ymgymeriad 60-70 y cant

Fe wnaeth ein Bwrdd ymgynghoriad cyhoeddus bod o leiaf 60-70 o'n harian yn cael ei gyflwyno trwy sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol. Mae'r ymgymeriad yn gymwys ar draw pob un o'r pedair gwlad a'n rhaglenni'r DU.

Ar ôl ymgynghori gyda'r sector, fe wnaethom gytuno y byddem yn defnyddio diffiniad Trysorlys ei Mawrhydi o'r 'trydydd sector' yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn 2007/08 mabwysiadodd Cymru hefyd y diffiniad hwn yn unol â phenderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

"Sefydliadau sy'n annibynnol o'r wladwriaeth, gyda chymhelliant sy'n deillio o werthoedd a dibenion cymdeithasol yn hytrach nac er mwyn sicrhau elw, ac ail-fuddsoddi unrhyw elw yn benodol er budd y gwerthoedd hyn yn yn hytrach nac ar gyfer dosbarthiad preifat."

Gwnaed yr ymgymeriad hwn er mwyn gorchuddio oes ein rhaglenni cyfredol a gallai ein perfformiad yn ei erbyn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Rydym wedi gweithio'n agos gyda budd-ddeiliaid allweddol yn y sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn cytuno ar sut ydym ni'n cyfrif, mesur ac adrodd ar yr ymgymeriad hwn.

Er 1 Mehefin 2004, dechrau'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi dyfarnu dyfarniadau o fwy na £1,275 miliwn i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol, sydd gyfwerth â 74 y cant o gyfanswm y dyfarniadau grantiau a wneir trwy raglenni'r Gronfa Loteri Fawr.

## Ychwanegolrwydd

Ychwanegolrwydd yw un o'n gwerthoedd craidd. Ynghyd â dosbarthwyr eraill y Loteri yn y DU a Lloegr, rydym wedi mabwysiadu'r diffiniad a ganlyn:

"Mae arian y Loteri yn wahanol i arian y Llywodraeth ac mae'n ychwanegu gwerth. Er nad yw'n eilydd i wariant y Trysorlys, lle fo'n briodol mae'n ateb at raglenni, polisïau ac arian y Llywodraeth ac eraill."

Mae gofyn i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd ar eu polisi ac arfer.

Mae ystyriaethau ychwanegolrwydd yn rhan allweddol o'n proses datblygu rhaglen. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau ac arbenigwyr arweiniol yn y sectorau

perthnasol i sicrhau bod ein rhaglenni ariannu yn ychwanegu gwerth at arian gan y

llywodraeth ac eraill, a hefyd yn gyflenwol. O dan rai amgylchiadau, bydd swyddogion grantiau sy'n asesu cais yn gorfod pennu a yw prosiect yn 'ychwanegol'. Mae arweiniad clir wedi'i ddatblygu i sicrhau na fydd arian y Loteri yn cymorthdalu neu'n disodli arian statudol ar gyfer gwasanaeth, ac na fydd yn dyblygu cyfrifoldebau statudol. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gymhwyso yn gyson ac yn deg.

Mae'r holl ddyfarniadau a wnaed yn 2007/08 wedi bod yn gyson â'r diffiniad hwn.

## Compacts

Fel corff cyhoeddus anadrannol, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i gadw at yr egwyddorion yn y Compacts rhwng y Llywodraeth a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Cynllun Sector Gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn amlygu ei hun mewn sawl ffordd:

- Rydym yn gweithredu polisi adfer costau llawn, yr ydym yn ei hyrwyddo wrth gyllidwyr eraill; a thrwy ariannu prosiectau am hyd at bum mlynedd rydym yn rhagori ar arweiniad arfer da Compact.
- Rydym yn ymgynghori'n eang ac yn rheolaidd gyda budd-ddeiliaid y trydydd sector ar ein strategaeth, ystod o egwyddorion rhaglen ac ariannu; ac yn cysylltu mewn dialog parhaus gyda hwy wrth i ni ddatblygu a chynnal pob rhaglen benodol.

- Rydym yn ystyried anghenion penodol y sector gwirfoddol a chymunedol fel rhan hanfodol o'r ffordd yr ydym yn datblygu ein rhaglenni, polisïau a gweithdrefnau, trwy ein Proses Sicrwydd Cydraddoldeb
- Rydym wedi datblygu ein cydymffurfiad gyda'r Compacts a'r Cynlluniau ar draws y DU fel rhan o'n hymrwymiad i gadw at eu hegwyddorion.

Eleni, fe wnaethom gwrdd â'r Comisiwn dros y Compact yn Lloegr er mwyn helpu i wella ein dealltwriaeth o egwyddorion y Compact ac i gynnig ein harbenigedd wrth ariannu ac adfer costau llawn.

Yng Nghymru, fe wnaethom gyfrannu at Gynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar weithredu'r Cynllun Sector Gwirfoddol, gan gynghori ar arfer da wrth ddatblygu a chefnogi'r sector. Gofynnwyd i ni hefyd gyfrannu at ymholiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad i ariannu sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Yn yr Alban rydym yn gweithio gyda'r Edinburgh Compact ac rydym wedi monitro datblygiadau o amgylch y Scottish Compact cenedlaethol. Rydym yn parhau i gysylltu gyda Llywodraeth yr Alban, COSLA a SCVO, ynghyd ag ar lefel leol, i sicrhau ffit strategol gyda'r ymdriniaeth gweithio mewn partneriaeth sy'n ofynnol gan y fframwaith Cynllunio Cymunedol.

Yng Ngogledd Iwerddon rydym yn parhau i weithio gyda NICVA er mwyn cynllunio a chyflwyno'n effeithiol yn unol â'r strategaeth Partners for Change, sef Compact for Northern Ireland.

## Edrych Ymlaen

Penodwyd Peter Wanless ar 1 Chwefror 2008 yn Brif Weithredwr. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd ef, ynghyd â'r Bwrdd, yn datblygu'r fframwaith strategol y bydd rhaglenni yn cael eu cynnal o'i fewn o 2009 ymlaen. Bydd ymgynghori yn weithgaredd allweddol.

Disgwyliwn iddo ganolbwyntio ar sgwrs gyda'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU, gan sicrhau ein bod yn clywed lleisiau'r rheini sydd anoddaf eu cyrraedd ac eraill a all ein helpu i sicrhau o fewn cyd-destun o alw llethol posibl bod ein harian yn cael yr effaith orau.

Trwy drosglwyddo arian i gefnogi Gemau Olympaidd 2012, bydd gennym lai o arian ar gyfer rhaglenni newydd yn ystod y cyfnod hwn nac a gynlluniwyd yn flaenorol.

Rhoddodd Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 y pwerau i ni ddosbarthu arian nad yw'r arian y Loteri. Bellach rydym yn rheoli rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni'r Loteri yn Lloegr, Community Assets a ***myplace***, ac yn archwilio cyfleoedd yng ngwledydd eraill y DU.

Mae'r Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Cwsg ar ei ffordd trwy'r Senedd, ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i dewis fel dosbarthwr ar gyfer yr arian hwn. Dyma fydd ein rhaglen gyntaf ar draws y DU nad yw'n arian y Loteri. Mae union amserlen y ddeddfwriaeth yn parhau'n aneglur ond mae'n debyg y bydd arian yn llifo o'r rhaglen hon cyn diwedd 2009.

Yng Nghymru, rydym yn datblygu cynigion i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddefnyddio arian Ewropeaidd i gynnal ac ymestyn ar fuddsoddiad y Gronfa Loteri Fawr yng ngwaith sgiliau oes gydag oedolion.

Un gofyniad ariannu deallus yw bod systemau mewnol yn cefnogi'r hyn yr ydych chi'n ceisio'i gyflawni. Yn 2007/08 fe wnaethom ddechrau ein rhaglen o waith i wella ein prosesau rheoli grant, i sicrhau y gall y rhain gefnogi'r ystod o ffyrdd y byddwn yn dyfarnu arian dyfarnu yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2010. Ei nod yw gwella profiad y cwsmer; yn uniongyrchol trwy welliannau yn y prosesau ymgeisio; a hefyd yn anuniongyrchol oherwydd y bydd staff yn gallu treulio mwy o amser yn cefnogi cwsmeriaid wrth gyflawni canlyniadau prosiect a rhannu arfer da.

# Adran tri

## Ein rhaglenni grant

Yn yr adran hon byddwn yn adolygu cynnydd ein rhaglenni grant. Yn ystod 2007/8 mae ein gweithgaredd rheoli grant wedi cynnwys y rhaglenni a lansiwyd er 2005 fel y Gronfa Loteri Fawr ynghyd â rhaglenni grant a lansiwyd gan ein tri sefydliad etifeddiaeth, y Gronfa Gymunedol, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chomisiwn y Mileniwm.

### Cyfaint y gweithgaredd

Mae'r tablau isod yn crynhoi cyfeintiau'r ceisiadau llawn, y dyfarniadau a wnaed a'r grantiau dan reolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ar y rhaglenni hynny y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu rholi. Nid yw hyn yn cynnwys ceisiadau i'r partneriaid gwobrwyo a'r partneriaid cyflwyno ar gytundeb, a dyfarniadau a wneir ganddynt.

**Ceisiadau llawn a dderbyniwyd yn 2007/08**
Nid yw rhai o'r ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno hyd yma i bwyllgor gwneud penderfyniadau

| | Nifer | Gwerth a geisiwyd £miliwn |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri | 15,021 | 4,035 |
| Fawr Arian i Bawb Lloegr[1] | 14,997 | 108 |
| **Cyfanswm** | **30,018** | **4,143** |

Ar nifer o'n rhaglenni newydd rydym bellach yn defnyddio cyfnod cynnig amlinellol i ddarparu adborth cyflym a pa un a oes gwerth symud ymlaen yn llawn gyda'r cais a sut y gellir eu datblygu. Yn 2007/08 fe wnaethom dderbyn 5,864 o geisiadau cynnig amlinellol yn ceisio £1,429 miliwn.

**Dyfarniadau a wnaed yn 2007/08**
Mae rhai o'r dyfarniadau hyn yn perthyn i geisiadau a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol

| | Nifer | Gwerth a geisiwyd £miliwn |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri | 5,388 | 1,030 |
| Fawr Arian i Bawb Lloegr[1] | 7,930 | 54 |
| **Cyfanswm** | **13,318** | **1,084** |

**Grantiau dan reolaeth ar 31 Mawrth 2008**

| | Nifer | Gwerth taliadau sy'n ddyledus i dderbynyddion grant £miliwn |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri | 8,410 | 1,095 |
| Fawr Arian i Bawb Lloegr[1] | 10,815 | 3 |
| Rhaglenni'r Gronfa | 4,857 | 94 |
| Gymunedol Rhaglenni'r | 2,717 | 171 |
| Gronfa Cyfleoedd Newydd Rhaglenni Comisiwn y Mileniwm | 12 | 2 |
| **Cyfanswm** | **26,811** | **1,365** |

[1]The Awards for All England programme is a joint scheme with Arts Council England, Sport England and Heritage Lottery Fund. These figures are the total for the scheme.

## Monitro grantiau

Rydym wedi datblygu set o weithdrefnau ar gyfer rheoli contractau grant. Mae'r rhain yn sicrhau ein bod yn talu deiliaid grantiau ar amser a'n bod yn derbyn y diweddaraf yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect tuag at gyflwyni'r canlyniadau fel yr amlinellir yn y cytundeb grant.

Mae gennym nifer o offer monitro yr ydym yn eu defnyddio i sicrhau bod y prosiectau yn atebol. Rydym yn monitro pob grant gan ddefnyddio ffurflenni safonol y mae'n rhaid i ddeiliaid grantiau eu llanw'n rheolaidd i adrodd ar eu cynnydd. Cynhelir galwadau ffôn neu ymweliadau monitro naill ai bob chwe mis neu bob blwyddyn.

Gellir cynnal ymweliadau cydymffurfio mwy trwyadl er mwyn gwirio bod prosiectau yn cydymffurfio gyda'u telerau ac amodau cytundebol. Yn ychwanegol, mae gennym weithdrefnau cyfalaf a monitro cynhwysfawr a ddefnyddir ar gyfer yr holl grantiau cyfalaf. Rydym yn annog deiliaid grant i hunanwerthuso, gan ddefnyddio data monitro y maent wedi'u casglu ar ein cyfer a gwybodaeth arall i ateb eu cwestiynau eu hunain yn ymwneud ag ansawdd a chyfeiriad eu gwaith. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu gan ddeiliaid grantiau i adrodd ar y gwahaniaeth a wneir gan ein hariannu.

Yn adran dau rydym yn amlinellu ein cyd-destun dosbarthu grantiau. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth rydym wedi datblygu amrywiaeth eang o raglenni o dan ein themâu a'n canlyniadau. Amlinellir manylion y rhaglenni hyn yn yr adran hon.



# Adran tri

## Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr
## Rhaglenni ledled y DU

Mae rhaglenni ledled y DU yn rhannu'r un canlyniadau â'r rhaglenni yn Lloegr. Amlinellir y rhain yn y diagram ar dudalen 20. Fe wnaethom dderbyn cyfarwyddiadau polisi ar wahân i Greu Cof Byw sy'n caniatáu i ni wneud grantiau trawsnewidiol.

### Llefydd i Natur

Mae Llefydd i Natur yn rhaglen grant fawr ledled y DU sydd wedi'i datblygu gyda'r BBC er mwyn ategu at ei ymgyrch Llefydd i Natur. Mae cyfanswm o £10 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau sy'n ysbrydoli cymunedau i gymryd rhan wrth weddnewid eu hamgylchedd lleol a chreu a gofalu am fannau gwyrdd yn lleol sy'n dda i fywyd gwyllt ac yn dda i bobl.

Caeodd cyfnod tir y rhaglen i geisiadau ym mis Ionawr 2008. Dyfernir y grantiau ym mis Mehefin 2008.

### Rhaglenni Rhyngwladol (gan gynnwys Tsunami)

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn helpu cymunedau difreintiedig tramor trwy ei rhaglen Ryngwladol, sy'n cynnwys tair ffrwd: Cymunedau Rhyngwladol (gan gynnwys Tsunami), Strategol Rhyngwladol, a Grantiau Bach Rhyngwladol. Mae bob un yn agored i sefydliadau'r DU sy'n gweithio yn y DU gyda phartneriaid tramor.

Mae'r rhaglen wedi'i halinio gydag elfennau allweddol o UN Global Poverty Reducation Strategy. Rydym yn cefnogi gwaith sy'n mynd i'r afael ag achosion tlodi ac amddifadedd, ac yn cyflwyno gwahaniaeth hirdymor i fywydau'r bobl fwyaf difreintiedig.

Mae cyfanswm o £36 miliwn wedi'i ddyfarnu i brosiectau yn ystod 2007/08.

### Creu Cof Byw

Mae'r rhaglen Creu Cof Byw bellach wedi cau. Fe wnaeth y rhaglen ariannu nifer o brosiectau graddfa fawr o bwysigrwydd cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y DU.

Fe wnaethom ddyfarnu tri grant o rhwng £10-25 miliwn. Penderfynwyd ar y rhain gan bwyllgor a oedd yn cynnwys aelodau'r cyhoedd.

Pleidleisiwyd ar grant Creu Cof Byw Miliynau'r Bobl gwerth £50 miliwn gan y cyhoedd a'r prosiect Connect2 Sustrans oedd yn fuddugol.

Gwnaed pedwar dyfarniad o dros £5 miliwn trwy'r rhaglen hon.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Sustrans** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Connect2** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£49,980,908** |

Nod y prosiect yw cysylltu pobl â phobl a phobl a lleoedd trwy fynd i'r afael ag achosion 'datgysylltiad' p fewn cymunedau, megis ffyrdd a rheilffyrdd prysur, sy'n gwneud teithio o un lle i un arall yn anos. Mae 79 o brosiectau unigol wedi'u hadnabod ar draws y DU, gyda phob un â rhestr gorfforol tuag at symudiad a datrysiad penodol. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a disgwylir i'r cynllun ddechrau yn 2008/09. Disgwylir y bydd y prosiect yn gyflawn erbyn 2013.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Cyngor Falkirk** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **The HELIX 'creating living connections'** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£25,000,000** |

Wedi'i leoli rhwng Falkirk a Grangemouth, bydd y prosiect yn creu cyswllt camlas newydd, lifft cychod 'Kelpie', both camlas a pharc 'Helix' newydd. Dyfarnwyd y grant yn 2007/08 a disgwylir i'r cynllun ddechrau yn 2008/09. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn 2015.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Cyngor Dosbarth Kerrier** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Cornwall's Heartlands Project** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£22,297,272** |

Bydd y prosiect yn gweddnewid safle tir llwyd 7.5 hectar yn Pool, gan gynnwys 4.5 hectar o dir diffaith a Shafft Robinson, casgliad o adeiladau mwyngloddio rhestredig i greu rhwydwaith o leoedd gwyrdd a chyfleusterau aml ddefnydd. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a disgwylir i'r cynllun ddechrau yn 2008/09. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cwblhau yn 2010.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Partneriaeth Greater East Belfast** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Connswater Community Greenway** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£23,531,285** |

Creu parc llinol trwy Ddwyrain Belfast yn dilyn cwrs yr Afon Connswater a'i llednentydd, Afon Loop a'r Knock. Dyfarnwyd y grant yn 2007/08 a disgwylir i'r cynllun ddechrau yn 2008/09. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn 2014.

## Ymchwil

Lansiwyd y rhaglen Ymchwil ym mis Hydref 2007. Mae hyd at £20 miliwn ar gael i ariannu'r sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn ymgymryd ag ymchwil cymdeithasol a meddygol. Nod y rhaglen yw dylanwadu ar bolisi ac arfer lleol a chenedlaethol trwy gynhyrchu a lledaenu gwybodaeth ar sail tystiolaeth, a thrwy hyn sicrhau gwell gwasanaethau ac ymyraethau i fuddiolwyr. Mae'r rhaglen Ymchwil yn cael ei chyflwyno ar ein rhan gan Momenta a'u partneriaid yn yr Uned Astudiaethau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (SATSU) ym Mhrifysgol Efrog.

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno trwy dri chylch. Caeodd cylch un i geisiadau ym mis Chwefror 2008, ac erbyn hynny roedd 155 o geisiadau wedi'u derbyn.

## Miliynau'r Bobl

Miliynau'r Bobl yw ein rhaglen cynnwys y cyhoedd sydd â phroffil uchaf. Fe'i rhedir ar y cyd gydag ITV, ac mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd bleidleisio ar brosiectau lleol a fydd yn gwneud eu hamgylchedd lleol yn lanach, yn ddiogelach ac yn wyrddach; gwella'r amgylchedd naturiol lleol; a gwella cynllun, ymddangosiad a hygyrchedd amwynderau lleol.

Gwnaed nawdeg o ddyfarniadau o hyd at £80,000 yn 2007 o fewn cyllideb o £5 miliwn. Cyfanswm nifer y dyfarniadau a wnaed yn ystod tair blynedd y rhaglen oedd 229 gyda chyfanswm y gyllideb o £15 miliwn.

O ganlyniad i boblogrwydd y rhaglen cytunwyd cynnal pedwaredd flwyddyn o Miliynau'r Bobl yn 2008, pan fyddai 90 dyfarniad pellach o hyd at £50,000 ar gael.

# Adran tri
## Rhaglenni Lloegr

**Cylch gorchwyl**

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| | | |
|---|---|---|
| CDysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cynhwysiant a dio gelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

**Canlyniadau Lloegr a'r DU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd gan gynnwys gallu cael gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd | Cymunedau cryfach, gyda dinasyddion mwy gweithredol, yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'u problemau | Gwell amgylcheddau gwledig a threfol, y mae cymunedau yn gallu cael gwell mynediad atynt a'u mwynhau | Pobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol |

**Rhaglenni Lloegr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Community Libraries<br>Family Learning | BASIS<br>Advice<br>Community Buildings | Parks for People<br>Changing Spaces | Lles |

Arian i Bawb

Chwarae Plant

Cronfa Pobl Ifanc

Reaching Communities

## Advice Plus

Lansiwyd y rhaglen Advice Plus ym mis Mehefin 2006. Nod y rhaglen hon yw helpu pobl sydd angen mynediad at gyngor o ansawdd da ar eu hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau, er mwyn iddynt osgoi neu oresgyn anfantais.

Roedd hyd at £50 miliwn ar gael rhwng 2006 a 2009. Yng Nghylch Un fe wnaethom ddyfarnu £30 miliwn i 71 o asiantaethau cynghori ar draws Lloegr. Lansiwyd Cylch Day Advice Plus ar 12 Tachwedd 2007, gyda chyllideb o £20 miliwn ar draws naw rhanbarth Lloegr. Mae'n cau ar gyfer ceisiadau ar 1 Ebrill 2008.

Rydym wedi gwneud un grant sy'n fwy na £5 miliwn trwy'r rhaglen hon.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **The Advice Services Alliance** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Working Together for Advice** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£5,714,742** |

Nod y prosiect yw datblygu portffolio o wasanaethau cymorth ar gyfer y sector cynghori annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys wyth o ffrydiau cysylltiedig â gwaith, a fydd dros dair blynedd yn gwella ansawdd a chyflwyno cyngor, mynediad at gyngor ac ymwybyddiaeth a gwerthusiad o ganlyniadau cynghori ar gyfer y sector cynghori annibynnol.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08ac hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £341,498 wedi'i dalu. Disgwylir cwblhau'r prosiect hwn erbyn mis Rhagfyr 2010.



# Adran tri

## Arian i Bawb Lloegr

Rydym yn rheoli'r cynllun grant y Loteri hwn ar y cyd sydd wedi'i anelu at gymunedau lleol. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr, y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England yn cefnogi'r cynllun hwn. Rydym yn dyfarnu grantiau rhwng £300 a £10,000 mewn ffordd syml a syml.

Nodau'r rhaglen yw:

- **Ymestyn ar fynediad a chyfranogiad** trwy annog mwy o bobl i ddod yn weithredol gysylltiedig mewn grwpiau a phrosiectau lleol, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n anelu at fod yn agored ac yn hygyrch i bawb sy'n dymuno cyfranogi.
- **Cynyddu sgiliau a chreadigedd** chreadigedd trwy gefnogi gweithgareddau i helpu i ddatblygu pobl a sefydliadau, annog talent a chodi safonau.
- **Gwella ansawdd bywyd** trwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd pobl, iechyd, lles, amgylchedd neu gyfleusterau lleol.

Mae'r rhaglen ysgafn boblogaidd hon yn parhau i gyflwyno gwelliannau i gymunedau lleol. Eleni rydym wedi gwneud 7,930 o ddyfarniadau.

## BASIS (Building and Sustaining Infrastructure Services)

Trwy ein rhaglen BASIS rydym yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau isadeiledd. Nod y rhaglen yw helpu gwasanaethau isadeiledd i ddod yn arbenigol, yn gyson, yn gynaliadwy ac ar gael i'r holl sefydliadau'r trydydd sector ar draws Lloegr.

Ym mis Ionawr 2008 fe wnaethom y penderfyniadau terfynol a gylch un y rhaglen, gan ymrwymo £101 miliwn i 203 o brosiectau, Yn yr hydref 2007 fe wnaethom gwblhau ymgynghoriad a oedd yn cydymffurfio'n llawn a Compact gyda sefydliadau isadeiledd y sector gwirfoddol a chymunedol a budd-ddeiliad eraill ynghylch ein blaenoriaethau ariannu ar gyfer cylch dau'r rhaglen. Byddwn yn lansio'r ail gylch ar 8 Mai 2008.

Rydym wedi gwneud un grant sy'n fwy na £5 miliwn.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Cyngor Ffoaduriaid Prydeinig** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Prosiect Adeiladu Isadeiledd RCO – Gwireddu'r Potenisal** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£5,078,472** |

Bydd y prosiect hwn yn sefydliad cefnogaeth isadeiledd ledled Lloegr ar gyfer cyflwyno cefnogaeth a meithrin gallu Sefydliadau Cymunedol Ffoaduriaid (RCO). Bydd pedwar cant o RCO yn elwa o'r cyngor ar eu datblygiad, cynaladwyedd, llywodraethu a rheolaeth. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £443,916 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn gyflawn erbyn mis Mawrth 2012.

## Changing Spaces

Mae ein rhaglen Changing Spaces yn cefnogi prosiectau amgylcheddol ar draws Lloegr sy'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth – gofodau cymunedol, menter gymunedol leol a mynediad at yr amgylchedd naturiol. Mae pump o bartneriaid dyfarnu (sefydliadau sy'n rhedeg cynlluniau grant ar ein rhan) yn rheoli'r ariannu ac mae pump o bartneriaid eraill yn rheoli portffolio o brosiectau.

Cychwynnwyd lansio cynlluniau grant, a reolir gan ein partneriaid dyfarnu, ym mis Mawrth 2008.

Ym mis Awst 2007 fe wnaethom gyhoeddi'r grantiau i'r pum sefydliad sy'n rheoli'r portffolios mawr strategol y prosiectau.

Rydym wedi gwneud wyth dyfarniad o dros £5 miliwn trwy'r rhaglen hon

**Sefydliad:** Building Research Establishment Ltd
**Enw'r cynllun grant:** The Community Sustainable Energy Programme
**Y grant a ddyfarnwyd:** £10,161,838

Dyfarnu grantiau i sefydliadau cymunedol nid-er-elw ar gyfer gosod technoleg micro-genhedlaeth, megis tyrbinau gwynt a phaneli panel, ynghyd â mesurau arbed ynni. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £120,445 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2012.

**Sefydliad:** Groundwork
**Enw'r cynllun grant:** Community Spaces
**Y grant a ddyfarnwyd:** £50,000,000

Dyfarnu grantiau i grwpiau cymunedol nid-er-elw i greu amgylcheddau lleol gwell a chynyddu mynediad at ofodau lleol. Gwella gofodau gwyrdd lleol a chynyddu nifer y bobl sy'n weithredol gysylltiedig â datblygu a rhedeg prosiectau amgylcheddol. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth roedd £850,000 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.

**Sefydliad:** Natural England
**Enw'r cynllun grant:** Access to Nature
**Y grant a ddyfarnwyd:** £25,000,000

Yn dyfarnu grantiau i sefydliadau'r sector gwirfoddol, cymunedol a chyhoeddus i weithio gyda phobl sydd ag ychydig o wybodaeth neu gyswllt gyda natur. Mae'r prosiectau yn annog pobl i ddysgu ynghylch yr amgylchedd naturiol a hefyd prosiectau i greu/gwella gofodau bywyd gwyllt i fodloni anghenion cymunedau lleol. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £390,789 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.

**Sefydliad:** Royal Society of Wildlife Trusts
**Enw'r cynllun grant:** Local Food
**Y grant a ddyfarnwyd:** £50,000,000

Dyfarnu dyfarniadau i grwpiau cymunedol nid-er-elw ar gyfer prosiectau sy'n rhoi cyfle i bobl i dyfu a phrynu bwyd yn lleol trwy, er enghraifft, cynlluniau rhandiroedd a bocsys. Prosiectau i symbylu gweithgaredd economaidd trwy ddatblygu mentrau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â bwyd lleol a hyrwyddo'r cyswllt rhwng bwyd a ffordd o fyw iach. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £212,2'7 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014.

**Sefydliad:** The Crime Concern Trust Ltd
**Enw'r cynllun grant:** Community Space Challenge
**Y grant a ddyfarnwyd:** £8,372,839

Mae'n darparu ystod o brosiectau amgylcheddol ar gyfer pobl ifanc sydd wrth risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu. Bydd y prosiectau yn cynnwys pobl ifanc yn gwella eu cymdogaethau, yn rhoi synnwyr balchder iddynt yn eu cymuned. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £644,243 wedi'i ddyfarnu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Sefydliad:** Imperial Collage
**Enw'r cynllun grant:** Open Air Laboratories Network
**Y grant a ddyfarnwyd:** £11,760,783

Bydd y prosiectau yn gweithio gyda phobl yn eu cymunedau, ochr yn ochr gyda gwyddonwyr arweiniol i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad i archwilio, astudio, mwynhau a diogelu eu hamgylchedd naturiol. Bydd y data a gasglwyd hefyd yn darparu adnoddau addysgol newydd y gall cymunedau gael mynediad atynt. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £813,987 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2012.

# Adran tri

**Sefydliad:** **Plunkett Foundation**
**Enw'r cynllun grant:** **Making Local Food Work**
**Y grant a ddyfarnwyd:** **£10,033,875**

Bydd y prosiectau yn gweithio gyda phobl leol i dyfu eu bwyd eu hunain a rhedeg eu siopau a'u cydweithfeydd. Mae'n anelu at ailgysylltu defnyddwyr â'r tir trwy gynyddu mynediad at fwyd lleol ffres ac iach. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £811, 430 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2012.

**Sefydliad:** **Places for People Homes Ltd**
**Enw'r cynllun grant:** **Green spaces for people**
**Y grant a ddyfarnwyd:** **£15,669,999**

Hwyluso ystod o brosiectau i greu a gwella gofodau gwyrdd ar gyfer pobl sy'n byw ar dai cymdeithasol, yn enwedig ar ystodau lle fo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem. Bydd yn cysylltu gyda phobl leol i gynllunio ardaloedd i greu ardaloedd chwarae plant, gerddi cymunedol a lleoedd cwrdd. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £447,263 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2012.





## Chwarae Plant

Nod ein rhaglen Chwarae Plant yw creu, gwella a datblygu gofodau a chyfleoedd chwarae lleol am ddim i blant a phobl ifanc ar draws Lloegr. Mae'r fenter yn cynnwys tair ffrwd: rhaglen Chwarae Plant, rhaglen Playful Ideas a grant cymorth a datblygu.

Trwy'r rhaglen Chwarae Plant mae arian wedi'i glustnodi i bob ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Bydd awdurdodau lleol, yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r VCS, i gyflwyno'r canlyniadau. Hyd yma, rydym wedi gwneud 339 o ddyfarniadau grant yn gwneud cyfanswm o £119.5 miliwn.

Trwy Playful Ideas, rydym wedi gwneud 47 o grantiau yn gwneud £8.8 miliwn i brosiectau chwarae sy'n canolbwyntio ar arloesiad.

Mae grant gwerth £15 miliwn i'r Biwro Cenedlaethol y Plant wedi'i ddyfarnu i ariannu isadeiledd cymorth a datblygu ar draws Lloegr.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Biwro Cenedlaethol y Plant** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Play England** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£14,494,368** |

Nodau'r prosiect Play England yw cynllunio ac adeiladu isadeiledd cymorth a datblygu chwarae cynaliadwy yn rhanbarthol ar gyfer Lloegr. Bydd y strwythur yn cefnogi asiantaethau lleol yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol a menter. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2005/06 a hyd at 31 Mawrth 2008, roedd £5,972,696 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2011.

# Adran tri

## Community Buildings

Mae hyd at £50 miliwn ar gael gennym i gefnogi adeiladau cyhoeddus ar draws Lloegr. Nod y rhaglen yw ariannu adeiladau sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, gan roi cyfle i gymunedau wella eu hansawdd bywyd. Rydym yn cefnogi canolfannau cymunedol, neuaddau pentref ac adeiladau eraill a fydd yn lleoliad ar gyfer ystod o weithgareddau a gwasanaethau sydd eu hangen yn fawr.

Caeodd y rhaglen ar gyfer ymgeiswyr cyfnod un ar ddiwedd mis Ebrill 2007. Hyd yma rydym wedi gwneud 24 o ddyfarniadau Community Buildings gwerth cyfanswm o £7 miliwm.

## Community Libraries

Mae hyd at £80 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen Community Libraries, a lansiwyd ym mis Hydref 2006, yn cynnig grantiau o hyd at £2 miliwn i alluogi llyfrgelloedd i gryfhau eu perthnasau gyda'u cymunedau. Roedd pumdeg wyth o lyfrgelloedd yn llwyddiannus yn y rhaglen, sydd bellach ar gau i ymgeiswyr.

Bydd ein buddsoddiad yn helpu i ddenu grwpiau ac unigolion nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd. Rydym eisiau ariannu llyfrgelloedd sy'n darparu mwy na'r gwasanaethau llyfrgell traddodiadol ac adeiladu ar y cysylltiadau sydd ganddynt gyda'u cymunedau. Mae'r Bartneriaeth Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau yn gweithio gyda ni i redeg y rhaglen hon.

## Family Learning

TLansiwyd y rhaglen Family Learning ym mis Medi 2006 a gwnaed y dyfarniadau cyntaf ym mis Mai 2007. Nod y rhaglen yw cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu teuluol sydd ar gael a gwneud y rhain yn fwy hygyrch i deuluoedd sy'n wynebu rhwystrau tuag at gysylltiad â dysgu, neu'r rhai nad ydynt yn hyderus wrth helpu eu plant i ddysgu.

Hyd yma, rydym wedi dyfarnu 56 o grantiau gwerth £11.1 miliwn.

## Parks for People

Parks for People yw'r rhaglen ar y cyd cyntaf gan y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ac mae'n cynrychioli ein hymrwymiad ar y cyd i amgylcheddau lleol a gwell ansawdd bywyd. Nod Parks for People yw darparu gwell parciau sy'n hygyrch i bawb ac yn bodloni anghenion eu cymunedau.

Mae'r rhaglen hon yn cael ei rheoli gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri gan adeiladu ar eu profiad o ariannu parciau cyhoeddus. Cymerir penderfyniadau ar ddyfarnu ar y cyd. Hyd at 31 Mawrth 2008, cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr i'r rhaglen yw £60 miliwn.

## Reaching Communities England

Mae ein rhaglen Reaching Communities England yn ymwneud â gwell cymunedau a bywydau'r rheini mewn angen. Mae'r rhaglen boblogaidd hon a hynod gystadleuol newydd orffen ei hail flwyddyn o ddosbarthu grantiau, yn dyfarnu gwerth tua £100 miliwn o grantiau i 475 o brosiectau.

Mae pob prosiect yr ydym yn ei ariannu yn bodloni o leiaf un o'n canlyniadau strategol. Mae mwy na 95 y cant o'r grantiau wedi'u gwneud i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yn ymdrin ag ystod eang o faterion ac yn ariannu cymunedau trwy grwpiau gwirfoddol cenedlaethol ynghyd â rhai bach lleol. Mae'r dyfarniadau yn amrywio o £10,000 i £500,000 gydag ymron i hanner y dyfarniadau am lai na £300,000.

Eleni, fe wnaethom weithio'n agos gyda budd-ddeiliaid i gyflwyno mesurau i reoli'r galw uchel am arian gan y rhaglen.

## Lles

Mae'r rhaglen Lles wedi dyfarnu £160 miliwn i bartneriaid a fydd yn rheoli portffolio o brosiectau sy'n cyfrannu at ganlyniadau rhaglen: cynyddu cyfranogiad o fewn gweithgaredd corfforol gan gynnwys teithio gweithredol; addysgu cymunedau ar fwyta'n iach; a datblygu ymyriadau cynnar newydd neu well i broblemau iechyd meddyliol cyffredin.

Mae'r portffolios hyn yn cynnwys nifer o brosiectau unigol, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio strategaeth gydlynol er mwyn helpu i gyflwyno canlyniadau'r rhaglen. Mae'r portffolios yn gweithredu ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

Mae'r holl bortffolios Cenedlaethol a Rhanbarthol bellach wedi symud ymlaen er mae dechrau a phrosiectau wedi dechrau.

Rydym wedi gwneud 12 dyfarniad sy'n fwy na £5 miliwn trwy'r rhaglen hon.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **MEND Central Ltd** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **England on the MEND: Fitter, Happier and Healthier** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£7,997,162** |

Rhaglen trin ac atal ar sail teulu cymunedol ar gyfer plant dros bwysau a gordew rhwng 7 a 13 oed. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 mae £2,265 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2010.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **The Soil Accociation** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Food for Life** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£16,920,332** |

Mae'r portffolio Food for Life yn rhaglen genedlaethol sy'n sefydlu 20 o gymunedau blaenllaw ym mhob un o naw rhanbarth y llywodraeth. Trwy ddefnyddio ysgolion lleol fel canolfannau nod y portffolio yw i blant a theuluoedd wella eu sgiliau, eu gwybodaeth, a chael mynediad at fwydydd iach a chynaliadwy. Bydd pob un o'r 20 ysgol flaenllaw yn cefnogi 20 o ysgolion pellach yn eu rhanbarth trwy ymdriniaeth fodel arweiniol, gan hynny yn galluogi i'r rhaglen gyrraedd 3,600 o gymunedau.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £3,396,358 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **West Midlands Regional Assembly** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Living Well in the West Midlands** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£6,793,739** |

Mae portffolio o 31 o brosiectau yn cyfrannu at ostyngiad mewn lefelau gordewdra rhanbarthol, gwell iechyd meddwl a gwell cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol. Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth roedd £844,194 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2010.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **School Food Trust** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Let's Get Cooking** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£20,000,000** |

Nod y portffolio yw cyflawni effaith bositif ar ymddygiad bwyd plant o oed ysgol, eu teuluoedd a'u gymuned ehangach. Y prif brosiect o fewn y portffolio o glybiau 'Let's Get Cooking'. Bydd 3,000 o glybiau coginio newydd yn cael eu sefydlu o fewn lleoliadau ysgol a chymunedol i wella sgiliau coginio, gwybodaeth bwyd a statws maethol plant, rhieni a chymunedau. Bydd 2,000 pellach o glybiau coginio ysgol gyfredol hefyd yn ymuno â'r portffolio fel aeloda cysylltiol a byddant yn derbyn arian i ehangu ar eu gwaith i deuluoedd a chymunedau. Dyfarnwyd y grant yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 mae £1,245,979 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau erbyn 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Greater London Authority** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Well London** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£9,460,000** |

Bydd y portffolio hwn yn gweithio'n agos gyda 20 o gymunedau bach, difreintiedig er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gysylltiedig â deiet gwael, diffyg gweithgaredd corfforol a lles meddyliol gwael.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 mae £585,860 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

# Adran tri

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Stockport Metropolitan Borough Council** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **North West Networks for Healthy Living Partnership** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£7,043,000** |

Mae'r portffolio pum mlynedd hwn yn ymestyn ar draws Gogledd-orllewin Lloegr i gyd o Carlisle i Ddwyrain Swydd Gaer. Bydd 27 o brosiectau yn cyflwyno 48 o elfennau cyflwyno prosiect. Ymhlith y prosiectau esiampl y mae prosiectau 'arts on prescripion' ar gyfer y rheini gydag anawsterau iechyd meddwl gwan i gymedrol; gweithdai coginio a bwyta 'soup and salad'; a rhaglenni 'fit for life' i annog teuluoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol.

Bydd y portffolio yn targedu cyfanswm o 49,500 o fuddiolwyr o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymylol y rhanbarth. Dyfarnwyd y grant yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £324,822 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Efrog a Humber** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Altogether better – working to create healthier people and communities** |
| **Y grantiau a ddyfarnwyd:** | **£6,864,367** |

Mae'r portffolio Altogether Better yn ymestyn dros ranbarth Swydd Efrog a Humber. Ei nod yw helpu pobl i fwyta'n well, bod yn fwy gweithredol yn gorfforol ac i wella eu hiechyd meddwl. Mae'r portffolio yn cynnwys 16 o brosiectau lleol yn canolbwyntio ar bobl a'r cymunedau fwyaf difreintiedig yn y rhanbarth.

Dyfarnwyd y grant yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 mae £163,502 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2012.





# Adran tri

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **National Council on Ageing** |
| **Enw'r Cynllun grant:** | **Fit as a Fiddle** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£15,177,417** |

Nod y portffolio cenedlaethol 'Fit AS a Fiddle' yw ysgogi diddordeb pobl hŷn mewn gweithgaredd corfforol a bwyta'n iach, ynghyd â mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a chorfforol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £297,390 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Mind – National Assoociation for Mental Health** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Moving People** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£16,150,000** |

Mae Moving Peolple yn bortffolio cenedlaethol; ei nod yw cael gwared ar stigma a gwahaniaeth trwy wella dealltwriaeth gyhoeddus, gan godi dyheadau pobl a'u hannog i sefyll dros eu hawliau. Bydd prosiectau lleol yn darparu cyfleoedd i bobl gydag ystod o anawsterau iechyd meddwl i wellau eu lles meddyliol a chorfforol trwy ystod o raglenni ymarfer.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008, roedd £1,053 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2011.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Sustrans Limited** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Active Travel Conosrtium** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£19,994,808** |

Nod y portffolio cenedlaethol hwn yw galluogi unigolion sydd wedi'u hadnabod yn anweithredol neu'n annigonol weithredol ar hyn o bryd i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau beunyddiol, gan wella eu lles corfforol a meddyliol. Bydd y portffolio yn canolbwyntio ar ardaloedd: y daith i'r ysgol, y daith i'r gwaith, annog pobl i ddechrau a siwrneion lleol.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth roedd £1,351,897 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **The Federation of Groundwork Trusts** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Target: Well-being** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£8,872,800** |

Portffolio yn cynnwys 91 o brosiectau i wella lles pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig trwy gyflwyno gweithgareddau sy'n gwella lles meddyliol, cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ac annog bwyta'n iach.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £687,068 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2012.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **South East Coast Stategic Health Authority** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Chances 4 Change – Readdressing the hidden helaeth inequalities in the South East** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£5,609,580** |

Portffolio o 62 o brosiectau i fynd i'r afael â'r grwpiau ac unigolion mwyaf eithriedig yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddaearyddol sy'n ceisio etifeddiaeth o welliant iechyd parhaus.

Dyfarnwyd y grant hwn yn 2007/08 a hyd at 31 Mawrth 2008 roedd £410,392 wedi'i dalu. Disgwylir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2011.

## Cronfa Pobl Ifanc Lloegr

Roedd gennym £157.5 miliwn ar gael i gefnogi prosiectau sy'n cynnwys pobl ifanc o'r dechrau i'r diwedd, yn benodol trwy ddarparu cyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ac sy'n anelu at gyflawni canlyniadau'r Papur Gwyrdd 'Every Child Matters'.

Mae'r Gronfa Pobl Ifanc yn Lloegr yn cynnwys saith ffrwd.

Y rhaglenni cenedlaethol sy'n ategu at bolisi Llywodraeth (mae'r rhain yn ymestyn ar raglenni etifeddiaeth ac fe'u disgrifir yn ddiweddaraf yn yr adran hon)

**1.** Dysgu y tu allan i oriau ysgol: cydlynwyr chwaraeon ysgol – £28.4 miliwn

**2.** Gweithgareddau positif ar gyfer pobl ifanc – £25 miliwn; bellach wedi'i gwblhau

**3.** Ysgolion estynedig – £14 miliwn

**4.** Do it for Real – £12.5 miliwn; bellach wedi'i gwblhau

**Rhaglenni wedi'u harwain gan alw**

**5.** Grantiau Cenedlaethol

Mae £27.6 miliwn wedi'i ddyfarnu trwy 27 o grantiau. Mae'r rhain wedi'u dyfarnu i elusennau cofrestredig ar gyfer prosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol yn gweithio mewn tri neu'n fwy o ranbarthau, sy'n dangos ffyrdd newydd a diddorol o fodlon canlyniadau'r Papur Gwyrdd.

**6.** Grantiau i sefydliadau

Hyd yma, rydym wedi dyfarnu 397 o grantiau yn gwneud cyfanswm o ychydig dan £40 miliwn. Gwnaed y grantiau hyn i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a oedd yn cynnwys pobl ifanc yn llawn ac a oedd yn bodloni un neu'n fwy o ganlyniadau'r Papur Gwyrdd.

**7.** Grantiau i unigolion – the Big Boost

Trwy'r rhaglen rydym yn rhoi grantiau rhwng £250 a £5,000 i grwpiau unigol a bach. Mae'r grantiau bach hyn yn ariannu pobl ifanc i gyflwyno gweithgareddau cymunedol sy'n helpu i fodloni canlyniadau o'r Papur Gwyrdd.

Rydym wedi gwneud un grant o fwy na £5 miliwn trwy'r rhaglen hon.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **UnLtd** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **The Big Boost** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£10,000,000** |

Rydym wedi rhoi £10 miliwn i UnLtd (The Foundation for Soical Entrepreneurs) a'u partneriaid i gyflwyni'r rhaglen hon ar ein rhan. Erbyn 31 Mawrth 2008 roeddem wedi talu £9.8 miliwn. Disgwylir i'r rhaglen ddod i ben ym mis Mehefin 2008.

Rydym wedi ymrwymo hyd at £92 miliwn i YPF" – ein hail raglen ariannu fwyaf yn benodol ar gyfer pobl ifanc.

Ym mis Rhagfyr 2007, fe wnaethom lansio ein rhaglen grantiau cenedlaethol sy'n anelu at gefnogi prosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol. Disgwylir i'r rhaglen grantiau lleol lansio ym mis Mai 2009. Trwy'r ddwy, rydym eisiau cefnogi prosiectau i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Byddwn yn cefnogi prosiectau lle fo pobl ifanc yn gysylltiedig o'r dechrau i'r diwedd.

Fel rhan o'r gyllideb rydym wedi dyrannu £19 miliwn i gefnogi cyflwyno'r gweithgareddau yn derfynol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol/Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol. Rydym hefyd wedi dyfarnu cytundeb o £5 miliwn i Participation Works, a chonsortiwm o elusennau cenedlaethol, i gefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol yn rhad ac am ddim ar gael pobl ifanc i gyfranogi a chwarae rhan mewn prosiectau.

Rydym yn adeiladu ar brofiad blaenorol helaeth o'n rhaglen Cronfa Pobl ifanc gyntaf.

# Adran tri

## Yr Alban – Ein Maniffesto Investing in Communities 2006-2009

Yn yr Alban mae ein portffolio Investing in Communities wedi hen sefydlu. Roedd Investing in Communities yn nodi symudiad oddi wrth raglenni lluosog, penodol i faterion, ac yn lle hynny mae wedi adeiladu at ardaloedd buddsoddi cyflenwol, wedi'u cefnogi gan gronfa datblygu prosiect, Investing in Ideas.

Y pedwar maes buddsoddi yw: Dynamic, Inclusive Communities; Growing Community Assets; Life Transitions; a Supporting 21st Centuray Life. Yn ystod 2007/08 rydym wedi gwneud dyfarniadau sy'n gwneud gwerth £42.5 miliwn o dan Investing in Communities. Mae £1.5 miliwn pellach o ddyfarniadau Investing in Ideas wedi'u gwneud.

Mae elfennau allweddol Investing in Communities wedi'u derbyn yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pwynt mynediad sengl ar gyfer ymgeiswyr, trwy broses gynnig amlinellol syml
- cefnogaeth cyn ymgeisio a datblygu trwy Investing in Ideas
- buddsoddi yn canolbwyntio ar ganlyniadau trwy un o bedwar ardaloedd buddsoddi, a
- chefnogaeth ar gyfer hunanwerthuso a dysgu ar gyfer yr holl brosiectau a ariannir.

Mae hyn wedi caniatáu i'r Gronfa Loteri Fawr yn yr Alban i gael perthynas agosach gydag ymgeiswyr a deiliaid grantiau.

Mae Investing in Communities yn bennaf wedi'i gyflwyno trwy ddosbarthu grantiau ymatebol hyd yma. Ymgymerwyd ag adolygiad Blwyddyn 1 cynhwysfawr o Investing in Communities ym mis Mehefin 2007. Mae hyn wedi hysbysu cynlluniau ymyriad ar gyfer pob ardal fuddsoddi, yn mynd i'r afael â bylchau thematig a daearyddol. Bydd hyn Yn cael ei gyflwyno yn 2008 a 2009.

Mae ymchwil a datblygiad y Venture Fund – ein rhaglen arloesi gymdeithasol – wedi'i gwblhau a bydd y rhaglen hon yn cael ei lansio yn 2008/09.

| Cylch gorchwyl | | |
|---|---|---|
| Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd | | |
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniad a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

| Canlyniadau'r Alban | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell cyfle gan bob mewn bywyd | Cymunedau yn ddiogelwch, yn gryfach ac yn gallu cydweithio'n well i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau | Gwell gwasanaethau ac amgylcheddau a rhai mwy cynaliadwy i bobl | Pobl a chymunedau yn iachach |

| Ardaloedd Buddsoddi'r Alban | | | |
|---|---|---|---|
| Life Transitions | Dynamic Inclusive Communities | Growing Community Assets | 21st Century Living |

Mae Fforwm Cyllidwyr yr Alban wedi bod yn rhedeg bellach am ddwy flynedd, ac mae wedi bod yn fforwm effeithiol ar gyfer rhannu arfer da a thrafod materion cyffredin trwy ymdriniaeth partneriaeth a datblygiadau cysylltiedig. Mae wedi helpu i ddatblygu syniadau newydd, ac mae wedi peilota ymdriniaeth newydd trwy ostwng baich peth o'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â dosbarthu grantiau, megis monitro a gwerthuso.

## Arian i Bawb (yr Alban)

Mae'r Arian i Bawb yn bartneriaeth rhwng y Scottish Arts Council, y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a sportscotland. Rydym yn dyfarnu grantiau o rhwng £500 a £10,000 ar gyfer prosiectau sy'n cael pobl yn gysylltiedig yn eu cymuned.

Mae'r rhaglen boblogaidd a hawdd hon yn parhau i gyflwyno gwelliannau i gymunedau lleol. Nodau'r rhaglen yw:

- dwyn pobl ynghyd
- cynyddu cynhwysiant
- gwella ansawdd bywyd
- helpu grwpiau i ddod yn drefnus iawn.

Hyd yma, yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi gwneud 1,852 o ddyfarniadau yn gwneud cyfanswm o £9.1 miliwn.

## Investing in Communities

Lansiwyd Investing in Communities, ein prif bortffolio ariannu yn yr Alban, ym mis Mehefin 2006 a bydd yn gwneud buddsoddiadau hyd at fis Medi 2009. Mae'r canlyniadau a'r meysydd buddsoddi yn gynhenid gysylltiedig. Mae hyn yn golygu y gall pob un o'r pedwar canlyniad gael eu cynrychioli o fewn y pedwar maes buddsoddi. Rydym yn disgwyl i'r ariannu gyfrannu at gyflawni mwy nac un canlyniad ar y pryd ac mewn rhai achosion cyflwyno ar draws meysydd buddsoddi.

## Dynamic, Inclusive Communities

Mae maes buddsoddi y Dynamic, Inclusive Communities (DInC) yn agored i sector gwirfoddol a chymunedau'r Alban yn unig. Ei nod yw helpu'r sector hwn i feithrin a chryfhau ei hun. Yn gyffredinol, bydd buddsoddiad gan DInC yn magu ac yn cynnal cymunedau cynhwysol, dynamig ar draws yr Alban trwy greu amodau ac isadeiledd y gall sector gwirfoddol a chymunedau iach ac egnïol ddigwydd. Hyd yma, rydym wedi dyfarnu wyth dyfarniad yn gwneud cyfanswm o £2.7 miliwn o ffrwd ymatebol y DInC.

Rydym hefyd wedi gwneud un dyfarniad sy'n fwy na £5 miliwn.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | **Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban (SCVO)** |
| **Enw'r cynllun grant:** | **Supporting Voluntary Action** |
| **Y grant a ddyfarnwyd:** | **£8,508,040** |

The grant is to co-ordinate a strategic programme of activity designed to improve the functioning and effectiveness of the CVS network as a whole, and to increase and improve the way it works with other voluntary and equalities sector networks across the country.

This grant was awarded in 2006/07 and to 31 March 2008 £284,315 has been paid. It is expected that this project will be completed in 2012.

## Growing Community Assets

Nod y maes buddsoddi hwn yn galluogi cymunedau i gael fwy o reolaeth a dylanwad dros eu datblygiad trwy fod yn berchen ar asedau lleol a'u datblygu. Mae cyfanswm o £5 miliwn ar gael i gefnogi cymunedau ar draws yr Alban sy'n caffael, rheoli a datblygu asedau cymunedol. Mae arian ar gael ar gyfer ystod eang o gaffaeliadau cyfalaf, er enghraifft, tir, adeiladau a cherbydau. Mae grantiau refeniw hefyd ar gael i ddatblygu asedau ymhellach ac er mwyn i gymunedau rannu gwybodaeth a sgiliau ar berchnogaeth a rheoli asedau.

Ers lansio'r rhaglen ym mis Mai 2006 mae 49 o grantiau yn gwneud cyfanswm o ychydig dros £17 miliwn wedi'u gwneud.

# Adran tri

## Life Transitions

Mae ein maes buddsoddi Life Transitions yn cefnogi pobl ar adegau newid yn eu bywydau. Mae pobl yn wynebu newidiadau yn ystod sawl cyfnod yn eu bywydau; maent yn delio a thyfu, tyfu'n hen, symud allan a symud ymlaen. Gall y trawsnewidiadau hyn fod yn rhai o'r amseroedd mwyaf heriol ym mywydau pobl. Nod y prosiectau Life Transitions yw rhoi'r hyder a'r sgiliau i bobl ymdopi ac i wella gwasanaethau i helpu pobl wneud eu bywydau yn well.

Mae'r ariannu yn canolbwyntio ar bobl ifanc, pobl dros 50 oed, pobl sy'n mynd trwy drawsnewidiadau cyflogaeth a dysgu a phobl sy'n wynebu amserau heriol yn eu bywydau megis symud ymlaen o ddibynadwyaeth.

Yn 2007/08 fe wnaeth Life Transition ddosbarth 49 o grantiau gwerth £16.4 miliwn a aeth a'r cyfanswm sydd wedi'i fuddsoddi hyd yma i £23.5 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth Pwyllgor yr Alban adolygu'r dosbarthu grantiau yn Life Transitions hyd yma gan gytuno i fuddsoddi £15 miliwn ychwanegol yn yr ardal erbyn mis Mai 2009, y bydd hanner ohono trwy fuddsoddiad targedig i helpu gyda thrawsnewidiadau penodol ar gyfer pobl iau a phobl dros 50 oed.

## Supporting 21st Century Life

Mae'r maes buddsoddi yn cydnabod y gyfradd y mae ein cymdeithas yn newid a'r effaith y mae newid mewn poblogaeth, cymunedau newidiol a thechnoleg esblygol yn ei gael ar fywydau pobl. Trwy Supporting 21st Cntury Life rydym eisiau hyrwyddo gwerthfawrogiad o'i gilydd trwy annog cyfathrebu a chysylltiadau o fewn a rhwng cymunedau a thrwy ddwyn pobl o wahanol genedlaethau ynghyd. Rydym eisiau galluogi i bobl a chymunedau feddwl a chynllunio ymlaen gyda'i gilydd er mwyn cydweddu anghenion a gwasanaethau yn y dyfodol. Rydym hefyd eisiau cefnogi pobl a chymunedau i ymdopi gyda chyflymdra newid a helpu i oresgyn unigedd a gwaharddiad cymdeithasol.

Mae £35 miliwn ar gael ar gyfer y maes buddsoddi hwn. Hyd at 31 Mawrth 2008 rydym wedi gwneud 74 o ddyfarniadau, yn gyfalaf a refeniw, yn gwneud cyfanswm o £28.2 miliwn ar draws yr Alban.

## Investing in Ideas

Lansiwyd y rhaglen arloesol hon ym mis Ionawr 2006, gyda chyllideb o £4.6 miliwn, ac mae'n dyfarnu grantiau rhwng £500 a £10,000 ac mae'n galluogi grwpiau i droi syniadau yn realiti. Prif nod y rhaglen yw darparu cefnogaeth ddatblygu o flaen llaw i ymgeiswyr posibl ar draws y pedwar maes buddsoddi a disgrifir uchod. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol bach a sefydliadau cymunedol gydag incwm o lai na £50,000.

Yn 2007/08 fe wnaethom ddyfarniadau yn gwneud cyfanswm o £1.5 miliwn, a aeth â'r cyfanswm a fuddsoddwyd hyd yma i £3.2 miliwn.

Ategir at y rhain gan weithgaredd parhaus wedi'u gychwyn cyn lansio Investing in Communities.

## Primetime

Rydym yn ymgymryd â chydweithio cynnwys y cyhoedd mewn partneriaeth gyda BBC Scotland o'r enw Primetime. Fe'i lansiwyd ar 30 Mai 2007.

Nod yw Primetime yw hyrwyddo rôl bositif a chynyddol bwysig y mae pobl hŷn yn ei chwarae yn yr Alban. Bydd yn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phobl hŷn yn yr Alban yn teimlo'n dda am eu hunain, yn gwneud cyfraniad positif yn eu cymunedau, a gwella cysylltiadau rhwng pobl hŷn a phobl iau.

Bydd y cyhoedd yn yr Alban yn penderfynu pa brosiectau a fydd yn derbyn arian oherwydd prosiectau yn chwe ardal yr Alban, sydd wedi'u gosod ar y rhestr fer gan banel gwneud penderfyniadau, yn ymddangos ar raglenni teledu'r Alban a fydd yn cael eu darlledu ym mis Hydref 2008, a bydd gwylwyr y teledu yn gallu ffonio i mewn er mwyn pleidleisio dros y rheini y maen nhw'n meddwl y dylid eu cefnogi.

Cyfarfu'r panel sy'n gwneud penderfyniadau ar 22 Ebrill 2008 er mwyn penderfynu pa brosiectau a ddylai symud ymlaen at y bleidlais deledu.

## Hunanwerthuso

Fel rhan o'n ymrwymiad i annog a chefnogi dysg rydym yn gofyn i'r holl ddeiliaid grantiau Investing in Communities i hunanwerthuso eu prosiectau. Gallant ddefnyddio'r ddysg hwn wrth ddatblygu a gwella eu gwaith. Rydym wedi penodi ymgynghoriad Blake Stevenson er mwyn cynnig cefnogaeth hunanwerthuso i'r holl ddeiliaid grant. Cyflwynir hyn trwy weithdai, cymorth ffôn, digwyddiadau rhwydweithio a chyswllt un wrth un.

## Cronfa Pobl Ifanc

Caeodd rhaglen Cronfa Pobl Ifanc yn yr Alban ar ddiwedd mis Awst 2007. Ei nod yw helpu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddysgu pethau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau iach a phositif sy'n gwneud iddynt deimlo'n dda am eu hunain ac fe wnaethom 202 o ddyfarniadau gwerth £23.9 miliwn. Mae cynnwys pobl ifanc yn rhan annatod o'r rhaglen, o gynllunio prosiectau hyd at werthuso pa mor dda y mae prosiectau wedi gweithio, ynghyd â chwarae rhan wrth wneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol.



# Adran tri
## Rhaglenni Cymru

Fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad o'n rhaglenni yn ystod y flwyddyn, ac roedd hyn yn cadarnhau perthnasedd ein fframwaith canlyniadau i fywyd yng Nghymru. Mae cyswllt parhaus gydag ein partneriaid a'n budd-ddeiliaid wedi galluogi i ni adnabod meysydd buddsoddi a chydweithio yn y dyfodol. Rydym wedi rhoi ein dysgu i ddefnydd di-oed wrth ddatblygu rhaglenni ariannu newydd a byddwn bellach yn tynnu ar y ddysg hon yn ein meysydd datblygu yn y dyfodol.

Fe wnaeth ymgyrch *Mwy na Rhif*, a ddatblygwyd i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ar draws Cymru, a rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen Iechyd Meddwl, roi cyfle i ni weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau iechyd meddwl megis Mind Cymru a Hafal.

Datblygwyd y rhaglen o fewn cyd-destun pryder cynyddol yng Nghymru ynghylch anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac mae wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth er atal hunanladdiad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Penllanw Mwy na Rhif fydd cynhadledd ym mis Mehefin 2008 ac yno byddwn yn lansio ymchwil yr ydym wedi'i gomisiynu.

Er mwyn hyrwyddo ymglymiad y cyhoedd yn ein gwaith a chodi ymwybyddiaeth o fuddion arian y Loteri rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Camelot a manwerthwyr y Loteri er mwyn darparu rhifyn pwynt gwerthu o'n cylchgronau **newydd mawr** i brynwyr y Loteri. Fe wnaeth hyn alluogi i chwaraewyr y Loteri ddod yn fwy ymwybodol o sut mae achosion da yn eu hardal wedi elwa o arian achosion da.

| Cylch gorchwyl | | |
|---|---|---|
| Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd | | |
| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |

| Canlyniadau Cymru | | |
|---|---|---|
| Pobl o bob oed wedi'u cyfarparu â'r sgiliau a'r ddysg i fodloni newidiadau cymdeithas fodern | Pobl yn cydweithio ar gyfer cymuned au cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol | Pobl a chymunedau iachach ac yn fwy actif yn gorfforol |

| Rhaglenni Cymru | | |
|---|---|---|
| Cam wrth Gam | Pawb a'i Le | Iechyd Meddwl |
| | Cronfa Pobl Ifanc | |
| | Teuluoedd Iach | |
| | Arian i Bawb Cymru | |

## Arian i Bawb Cymru

Nodau rhaglen hon yw galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau treftadaeth a chymunedol, a phrosiectau sy'n hyrwyddo addysg, yr amgylchedd ac iechyd. Mae'r rhaglen yn fenter ar y cyd rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae'n cynnig grantiau rhwng £500 a £5,000. Mae'n rhaglen hynod boblogaidd gydag ymgeiswyr yn tynnu sylw at fynediad hawdd a phenderfyniadau cyflym ar geisiadau.

Canlyniadau'r rhaglen yw:

- cefnogi gweithgaredd cymunedol
- ymestyn ar fynediad a chyfranogiad
- cynyddu sgiliau a chreadigedd
- gwella ansawdd bywyd.

Ers lansio'r rhaglen rydym wedi neilltuo £10.8 miliwn gyda £2.6 miliwn yn cael ei ddyfarnu yn ystod 2007/08.

## Teuluoedd Iach

Mae lefelau gordewdra yng Nghymru, pryderon ynghylch clefyd coronaidd y galon yn parhau i fod yr achos mwyaf cyffredin o farwolaeth ac angen i fynd i'r afael â ffordd o fyw yn achosi salwch wedi arwain atom yn neilltuo hyd at £20 miliwn ar gyfer menter Teuluoedd Iach. Y nodau yw ychwanegu gwerth at bolisi cyfredol trwy lunio cyswllt strategol rhwng chwarae plant, maeth a gweithgaredd corfforol a chreu ymdriniaeth gysylltiedig tuag at hyrwyddo ffordd o fyw gweithredol ac iach ymhlith plant a theuluoedd.

Er mwyn ein galluogi'r nodau hyn rydym wedi datblygu dwy raglen sy'n agos cysylltiedig â'i gilydd.

### Chwarae Plant

Mae ein rhaglen Chwarae Plant yn hyrwyddo datblygu meysydd chwarae mynediad agored. Bydd yn cefnogi datblygu isadeiledd i gyflwyno gwasanaethau chwarae, ac yn ychwanegol at ariannu prosiectau sy'n darparu cy fleoedd chwarae ac yn annog ymdriniaeth gysylltiedig rhwng maeth, bwyta'n iach a chwarae. Mae hyd at £13 miliwn ar gael ar gyfer grantiau rhwng £250,000 a £1 miliwn, a gwnaed y cylch cyntaf o ddyfarniadau ar gyfer datblygiad isadeiledd ym mis Rhagfyr 2007.

Er mwyn cefnogi'r rhaglen penodwyd Chwarae Cymru i weithio gyda sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol i ddatblygu eu ceisiadau ac i sicrhau ymdriniaeth strategol tuag at y gwaith hwn. Profwyd bod hyn yn hynod lwyddiannus yn ystod cyfnod cyntaf yr ymgeisio a bydd Chwarae Cymru yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr i ddatblygu prosiectau chwarae strategol cyn yr ail gylch.

### Ffordd o Fyw

Roedd hyd at £7 miliwn ar gael ar gyfer ein rhaglen Ffordd o Fyw ac rydym wedi dyfarnu 14 grant o rhwng £250,000 a £500,000 i hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer.

Mae'r rhaglen yn anelu at:

- hyrwyddo ymdriniaeth gysylltiedig tuag at fwyta'n iach ac ymarfer trwy brosiectau cymunedol yn gweithio gyda theuluoedd
- cyfrannu at dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer gyda phlant a theuluoedd
- meithrin gweithio cysylltiedig ar fwyta'n iach a gweithgaredd corfforol ar lefelau lleol a chenedlaethol
- datblygu cysylltiadau gyda chwarae plant.

Penodwyd Hall Aitken fel ymgynghorwyr ar gyfer datblygu nifer o fodelau i brofi ffyrdd newydd o hyrwydd bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol gyda theuluoedd. Bydd Hall Aitken hefyd yn gweithio gydag ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno a gwerthuso cyfres o brosiectau peilot ar sail y modelau a bydd y canlyniadau yn hysbysu polisi ac arfer yn y maes hwn yn y dyfodol.

# Adran tri

## Iechyd Meddwl

Cafwyd tystiolaeth gref o'r angen i gefnogi datblygu gwasanaethau yn y maes iechyd meddwl yn ein hymgynghoriad diwethaf. Nod y rhaglen Iechyd Meddwl yw hyrwyddo integreiddio ac annibyniaeth pobl gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a chefnogi pobl sydd fwyaf wrth risg o salwch meddwl difrifol neu hunanladdiad. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ateg at Strategaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol a fframwaith gwasanaeth cenedlaethol.

Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau cyfredol a'r rhwystrau y mae grwpiau targed yn eu hwynebu. Disgwylir i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus fynd i'r afael â gwahaniaeth a stigma y mae grwpiau targed yn eu hwynebu. Disgwylir i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus fynd i'r afael â gwahaniaeth a stigma y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu a bydd gofyn iddynt hunanwerthuso eu gwaith.

Lansiwyd y rhaglen ym mis Mawrth 2007 ac fe'u gwnaed ym mis Ebrill 2008.

## Pawb a'i Le

Yn ein rhaglen ddiwethaf, mae hyd at £66 miliwn ar gael i gefnogi sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cymunedau cryf, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol. Mae tair lefel o grantiau ar gael: £5,000 – £250,000; £250,000 – £500,000; a £500,000 – £1 miliwn ac mae dros £28 miliwn wedi'i ddyfarnu hyd yma.

Canlyniadau rhaglen disgwyliedig yw:

- adfywio cymunedau
- gwella cysylltiadau cymunedol
- gwell amgylcheddau lleol, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau.



Er mwyn hwyluso pethau i'r ymgeiswyr fe wnaethom gyflwyno cyfnod ffurflen gynnig amlinellol sydd â chyfnod penderfynu cyflym ac yn cynorthwyo wrth reoli'r galw sylweddol. Fe wnaethom hefyd benodi Tribal Regeneration i ddarparu gwasanaeth datblygu a chefnogi i sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu bodloni o fewn y cais – mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y grwpiau bach, cymunedol.

## Cam wrth Gam

Bydd ein rhaglen Cam wrth Gam yn helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau at ddysgu a'r bobl sy'n wynebu heriau mawr neu hirdymor yn eu bywydau. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu'n bennaf at bob dros 16 oed a rhaid i brosiectau fod yn strategol ac yn arloesol gyda hunanwerthuso yn gydran allweddol.

Ein canlyniadau rhaglen disgwyliedig yw:

- pobl gyda hunanhyder a sgiliau bywyd gwell
- pobl yn ymgymryd â chyfleoedd dysgu neu gyflogaeth bellach
- pobl wedi'u cyfarparu i reoli newidiadau bywyd a thrawsnewidiadau yn well
- pobl yn gwirfoddoli ac yn cyfrannu at eu cymunedau.

Gwnaed naw dyfarniad rhwng £250,000 a £1 miliwn ym mis Tachwedd 2007. Dyfarnwyd cyfanswm o ymron i £7 miliwn i gyd.

## Cronfa Pobl Ifanc Cymru

Nod ein rhaglen Cronfa Pobl Ifanc yw helpu pobl ifanc rhwng 10 a 19 mlwydd oed i fwynhau bywyd, datblygu sgiliau newydd a gwireddu eu haddewid. Datblygwyd tair ffrwd er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael â gwahanol anghenion y bobl ifanc.

### Pontio

Fe wnaeth ein ffrwd Pontio ddarparu £4.5 miliwn i chwech o brosiectau strategol ar draws Cymru. Mae'r prosiectau yn gweithio'n agos gyda'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd, sydd wedi'u datgysylltu o'u cymheiriaid neu gymdeithas ac yn darparu gwasanaeth a chefnogaeth gysylltiedig.

### Dyma dy Gyfle

Roedd ein ffrwd Dyma dy Gyfle yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau a oedd wedi'u datblygu a'u cynllunio gan bobl ifanc ac yn caniatáu iddynt gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a chyfrannu at eu cymuned. Roedd hyd at £800,000 ar gael ar gyfer grantiau rhwng £500 a £5,000.

### Help Llaw

Roedd y rhaglen hon yn anelu at lanw bylchau mewn gwasanaethau a gweithgareddau lleol a helpu i atal pobl ifanc rhag dod wedi'u dieithrio neu eu datgysylltu ac mae hefyd yn cynnig allgymorth a chefnogaeth y rheini sydd eisoes wedi profi hynny. Roedd cyfanswm o £7.7 miliwn ar gael ar gyfer grantiau o hyd at £300,000.

Fel rhan o'n ymgyrch allgymorth yn 2008/09 bydd dathliad o fuddsoddiad mewn gwasanaeth pobl ifanc ar draws Cymru gan y Gronfa Loteri Fawr. Tynnir sylw at lwyddiannau'r gorffennol a anogir pobl ifanc i gyfrannu at yr ymgynghoriad ar ddod ar ddyfodol ein portffolio ariannu yn y dyfodol.

# Adran tri

## Rhaglenni Gogledd Iwerddon

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu arian gwerth dros £90 miliwn yng Ngogledd Iwerddon rhwng 2006 a 2009. Mae rhaglenni Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio ar nifer o ganlyniadau y gellir eu gweld o'r tabl isod. Yn ychwanegol, ceir egwyddorion gwaelodol a nifer o flaenoriaethau y mae gofyn i brosiectau eu bodloni.

**Cylch gorchwyl**

Gwariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd

| Dysgu cymunedol a chreu cyfleoedd | Hyrwyddo cydlyniant a diogelwch cymunedol | Hyrwyddo lles |
|---|---|---|

**Canlyniadau Gogledd Iwerddon**

| Pobl yn gallu cyfranogi yn weithredol yn eu cymunedau er mwyn cyflwyno newid positif | Perchnogaeth gymunedol o amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel | Gwell iechyd corfforol a meddyliol ar gyfer yr holl bobl | Pobl yn cael y cyfle i gyflawni eu llawn botensial |
|---|---|---|---|

**Rhaglenni Gogledd Iwerddon**

Cronfa Pobl Ifanc

Reaching Communities Northern Ireland

Safe and Well

Improving Community Buildings

Building Change Trust

Live and Learn

## Arian i Bawb Gogledd Iwerddon

Mae ein rhaglen Arian i Bawb yn rhaglen ddyfarniadau ar y cyd a sefydlwyd i helpu grwpiau bach yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys y Arts Council of Norther Ireland, y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport Northern Ireland.

Prif nod y rhaglen hon yw ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned, eu dwyn ynghynt i fwynhau ystod eang o weithgareddau cysylltiedig â chelfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennol a/neu gymunedol, addysgol, amgylcheddol ac iechyd. Rydym yn dyfarnu grantiau rhwng £500 a £10,000 mewn ffordd syml.

Eleni rydym wedi dyfarnu 394 o grantiau gwerth £2.8 miliwn.

## Building Change Trust

Ein nod ar gyfer yr Ymddiriedolaeth hon, a'r gwaith mae'n ei gefnogi, yw meithrin gallu'r sector gwirfoddol a chymunedol trwy ei gyfarparu i fodloni anghenion newidiol cymunedau difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon. Bydd un grant o £10 miliwn yn cael ei wneud fel gwaddol, i'w wario dros 10 mlynedd rhwng 2008 a 2018.

Yn 2007, fe wnaethom hysbysebu proses dendro yn gyhoeddus a thrwy'r broses hon fe wnaethom adnabod cynigydd a ffafrir i sefydlu'r Building Change Trust fel partneriaeth wedi'i arwain gan y Community Foundation for NOrthern Ireland. Y Community Foundation for Morthern Ireland yw'r sefydliad arweiniol a'u partneriaid yw Business in the Community, Community Evaluasation NOrther Ireland, Rural Community Network, a'r Volunteer Development Agency.

Bydd ein pwyllgor yn penderfynu ar y cais yng nghanol 2008.

Bydd y Building Change Trust yn mynd i'r afael â phum maes penodol ac yn darparu cefnogaeth a fydd yn hwyluso newid i ddigwydd. Y rhain yw: tanategu datblygiad cymunedol, hyrwyddo gwirfoddoli, cefnogi partneriaethau, datblygu sgiliau a chefnogaeth isadeiledd.

Ein bwriad yw y bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu etifeddiaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i oes a chwmpas ein hariannu ac sy'n trawsnewid y sector gwirfoddol a chymunedol a chymunedau difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon.

## Improving Community Buildings

Ym mis Rhagfyr 2007, dyfarnodd y rhaglen Improving Community Buildings grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cwmnïau elusennol nid-er-elw a mentrau cymdeithasol er mwyn adnewyddu eu lleoliad cymunedol i wella eu gwasanaethau.

Dyfarnwyd cyfanswm o £2.5 miliwn i 53 prosiect.

## Live and Learn

Mae'r rhaglen hon yn anelu at gynyddu cyfleoedd dysgu a hyrwyddo lles ymhlith cymunedau mwyaf difreintiedig Gogledd Iwerddon. Byddwn yn dosbarthu grantiau i bartneriaethau'r sector gwirfoddol a chymunedol rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol a chymunedol. Bydd Live and Learn yn ariannu prosiectau sy'n cynnig cyfleoedd i deuluoedd ddatblygu sgiliau newydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn eu bywydau.

Mae gennym tua £18 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen Live and Learn yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer grantiau pum mlynedd. Mae gan Live and Learn broses ymgeisio dau gyfnod gyda grantiau datblygu yn cael eu cynnig yn ystod y cyfnod cyntaf. Gwnaed penderfyniadau ar geisiadau cyfnod un ym mis Rhagfyr 2007, gyda 23 o grantiau datblygu yn cael eu dyfarnu ar werth o £625,588. Mae'r ymgeiswyr hyn bellach wedi'u gwahodd i ymgeisio i ail gyfnod y broses ymgeisio ar gyfer grantiau pum mlynedd. Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau hyn yw 30 Medi 2008, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ym mis Ebrill 2009.

Yn ystod yr ail gyfnod, disgwyliwn wneud rhwng 12 a 15 o grantiau. Y grant lleiaf ar gael yw £600,000 a'r grant mwyaf yw £1 miliwn dros bum mlynedd. Bydd grantiau yn darparu arian refeniw tuag at gostau gweithredu prosiect. Mae cyfalaf wedi'i gyfyngu i 10 y cant o gyfanswm y grant a geisiwyd hyd at uchafswm o £100,000.

# Adran tri

## Reaching Communities Northern Ireland

Fe lansiwyd y rhaglen hon yn wreiddiol ym mis Ebrill 2006, ac fe'i hail-lansiwyd ym mis Medi 2007 ar ôl adolygu'r rhaglen. Mae'r rhaglen hon yn gwneud grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gennym tua £18 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen rhwng 2006 a 2009. Rydym eisiau i'n harian wneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau mewn angen. Byddwn yn cefnogi ac yn adeiladu gallu ymgeiswyr llwyddiannus i sicrhau bod eu prosiectau yn cael eu cyflwyno'r effeithiol yn ystod y cyfnod amser hwn.

Mae'r rhaglen boblogaidd a chystadleuol hwn wedi dyfarnu gwerth £6.6 miliwn o grantiau i 15 prosiect hyd yma. Derbyniwyd cyfanswm o 121 o geisiadau llawn erbyn dyddiau cau mis Ionawr 2008, gyda phenderfyniadau'n cael eu cymryd ym mis Mehefin 2008. Y dyddiad cau arg yfer y rhaglen yw 3 Medi 2008.

Mae Council on Voluntray Action Gogledd Iwerddon yn parhau i gyflwyno contract cefnogaeth a datblygu i ymgeiswyr llwyddiannus y rhaglen.

## Safe and Well

Nod ein rhaglen yw gwella bywydau'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon trwy ariannu prosiectau ataliol sy'n hyrwyddo lles. Bydd Safle and Well yn annog cymunedau i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch. Mae gennym tua £18 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen Safle and Well. Byddwn yn dosbarthu grantiau i bartneriaethau o fewn y sector gwirfoddol a chymunedol neu i bartneriaethau rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol a chymunedol.

Mae gan Safle and Well proses ymgeisio dau gyfnod gyda grantiau datblygu yn cael eu cynnig yn ystod y cyfnod cyntaf. Gwnaed penderfyniadau ar geisiadau cyfnod un ym mis Ionawr 2008, gyda 24 o grantiau datblygu yn cael eu dyfarnu gyda gwerth o £780,054. Mae'r ymgeiswyr hyn bellach wedi'u gwahodd i ymgeisio i ail gyfnod y broses ymgeisio ar gyfer grantiau pum mlynedd. Y dyddiad cau arg yfer y ceisiadau hyn yw 29 Hydref 2008, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ym mis Mai 2009.

Yn ystod yr ail gyfnod, disgwyliwn wneud rhwng 12 a 15 grant. Y grant lleiaf sydd ar gael yw £600,000 a'r grant uchaf sydd ar gael yw £1 miliwn am bum mlynedd. Bydd grantiau yn darparu arian refeniw tuag at gostau gweithredu prosiect. Mae'r cyfalaf wedi'i gyfyngu i 20 y cant o gyfanswm y grant a geisir hyd at uchafswm o £200,000.

## Cronfa Pobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae £14.8 miliwn ar gael trwy'r Gronfa Pobl Ifanc. Nod y rhaglen yw targedu adnoddau at bobl ifanc sydd fwyaf wrth risg o allgau a/neu droseddu. Rydym yn dymuno rhoi arian i'r bobl ifanc eu hunain a gallwn ariannu sefydliadau sy'n gweithio ar ran pobl ifanc. Cyflwynir y Gronfa Pobl Ifanc trwy ddwy ffrwd:

### The Big Deal

Ym mis Ebrill 2006 fe wnaethom benodi YouthNet i redeg ffrwd gyntaf ein Cronfa Pobl Ifanc yng Ngogledd Iwerddon, bydd y rhaglen, a elwir yn The Big Deal, yn dwyn pobl ynghyd mewn partneriaeth o asiantaethau gwaith ieuenctid allweddol yng Ngogledd Iwerddon a bydd yn rheoli nifer o raglenni arloesol lle bydd pobl ifanc yn gysylltiedig â'r broses o wneud penderfyniadau.


Bydd pobl ifanc hefyd yn gallu ymgeisio am arian rhwng £500 a £2,5000 i ddatblygu prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, eu teuluoedd a'u cymunedau. Hyd yma, mae 155 o grantiau bach wedi'u dyfarnu gyda gwerth o £335,856.

**Change UR Future**

Change UR Future yw ail ffrwd y Gronfa Pobl Ifanc ac mae'n rhaglen grant agored wedi'i harwain gan alw sydd â £10.8 miliwn i gefnogi prosiectau yng Ngogledd Iwerddon sy'n:

- canolbwyntio ar bobl ifanc hyd at 25 oed
- para hyd at bum mlynedd
- targedu adnodd at y bobl ifanc hynny sydd fwyaf wrth risg o allgau a/neu droseddu
- cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r prosiect.

Fe gaeodd Change UR Future ar gyfer ceisiadau ym mis Medi 2006. Fe wnaethom ddyfarnu 53 o grantiau gwerth £10.8 miliwn. Mae dros 80 y cant wedi'i ddyfarnu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.



# Adran tri

## Rhaglenni etifeddiaeth y Gronfa Loteri Fawr

Ar gyfer yr holl raglenni a lansiwyd gan ein cyrff etifeddiaeth (y Gronfa Cyfleoedd Newydd, y Gronfa Gymunedol a Chomisiwn y Mileniwm), mae'r dyddiad cau terfynol wedi pasio ac mae rhan fwyaf y rhaglenni yn gwbl ymrwymedig. Mae'r adran hon yn adolygu cynnydd pob rhaglen sydd â grantiau yn parhau dan reolaeth.

## Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr

### Gweithgareddau i Bobl Ifanc

Mae Gweithgareddau i Bobl Ifanc yn fenter sy'n cynnwys amryw raglenni yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, roedd y fenter yn anelu at fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth drosedd ac i helpu pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad gyda'r system addysg ac arweiniad.

Roedd Do It 4 Real yn rhaglen haf yn gweithredu yn Lloegr a oedd yn anelu at strwythuro'r gwyliau i bobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd trwy ddarparu profiadau preswyl o fewn meysydd antur awyr agored, drama a'r celfyddydau, sgiliau galwedigaethol a phrosiectau cymunedol. Dyfarnwyd cytundeb i'r Youth Hostels Assocítation[2] i redeg y rhaglen genedlaethol. Caeodd y rhaglen hon yn ystod 2007/08.

Gwnaed Gogledd Iwerddon pump o ddyfarniadau yn gwneud cyfanswm o £2.7 miliwn. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar ieuenctid wedi dadrithio rhwng 11 a 16 oed. Caeodd y rhaglen hon yn ystod 2007/08.

Gwnaed Cymru 28 o ddyfarniadau i'r rhai rhwng 14 a 18 oed er mwyn eu hailgysylltu ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r rhaglen bellach wedi cau.

### Menter Community Sport

Fe wnaeth pob rhaglen ddatblygu rhaglen yn unol â'i hanghenion a'i blaenoriaethau ei hunan.

Yn Lloegr, mae'r rhaglen yn gweithredu fel Active England; rhaglen a redir ar y cyd gyda Sport England. Fe wnaethom ni gyfrannu £77.5 miliwn ac fe wnaeth Sport England gyfrannu £31 miliwn. Ei nod yw annog ymdriniaeth greadigol a fydd yn dechrau i yrru lefelau gweithgaredd corfforol a chyfraddau cyfranogi mewn chwaraeon i fyny yn Lloegr. Mae 243 o brosiectau wedi'u hariannu trwy'r rhaglen hon.

Mae'r rhaglen yn gweithredu fel Active Futures yn yr Alban. Mae £11.5 miliwn wedi'i ymrwymo i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol a chynnal cyfranogiad ymhlith y rhai rhwng 17 a 24 oed sy'n anweithredol ar hyn o bryd. Mae 31 o brosiectau wedi'u hariannu ac mae pob un wedi dechrau. Disgwylir i'r gweithgareddau a ariannwyd o dan y rhaglen hon ddod i ben erbyn diwedd mis Mehefin 2010. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys £6 miliwn a delir yn uniongyrchol gan Gymdeithas Bêl-droed yr Alban i ddatblygu pêl-droed ieuenctid.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhaglen yn gweithredu fel Active Lifestyles a Community Sport. Ymrwymwyd £4.5 miliwn er mwyn ehangu ar ymglymiad ar lawr gwlad mewn gweithgaredd corfforol er mwyn cyfrannu at iechyd a lles. Mae'r holl arian sydd ar gael ar gyfer Active Lifestyles wedi'i ddyrannu. Mae'r ffrwd Community Sport wedi cefnogi 20 o swyddi datblygu cymunedol.

Yng Nghymru, mae £6.5 miliwn wedi'i ymrwymo trwy'r rhaglen Mentro Allan i gynyddu lefelau gweithgaredd ymhlith y boblogaeth eisteddog 'anodd eu cyrraedd' trwy gynyddu'r defnydd hamdden ar amgylchedd naturiol Cymru. Mae Mentro Allan wedi dyfarnu grant i Bartneriaeth Genedlaethol i ddatblygu a darparu cefnogaeth i bortffolio o 15 o brosiectau a fydd yn cyflwyno ystod o weithgareddau a mentrau ar draws Cymru.

### Green Spaces and Sustainable Communities

Cyflwynwyd y fenter hon gwerth £130 miliwn ar draws y DU trwy un ar ddeg o bartneriaid dyfarnu – saith yn Lloegr, dau yn yr Alban, un yng Nghymru ac un yng Ngogledd Iwerddon.

[2]Dyfarnwyd grant o £17 miliwn i'r Youth Hostels Association i gyflwyno'r rhaglen Get Real. Talwyd y rhaglen grant hon yn llawn a'i chau yn ystod 2007/08.

Y nodau oedd:

- creu, cadw, gwell neu hyrwyddo mynediad at feysydd gwyrdd o werth addysgol, hamddenol neu amgylcheddol i'r gymuned a chreu cynefinoedd sy'n annog bioamrywiaeth
- annog prosiectau cymunedol bach, sy'n cysylltu pobl leol wrth wella a gofalu am eu hamgylchedd a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Mae taliadau terfynol wedi'u gwneud ar yr holl gynlluniau grant. Mae dros 3,000 o brosiectau wedi'u hariannu ledled y DU.

## Canolfannau Byw'n Iach

Fe wnaethom ddyfarnu dros £300 miliwn i greu Canolfannau Byw'n Iach ar draws y DU. Datblygwyd y rhaglen mewn cydweithrediad gyda'r Adran Iechyd a gyda sefydliadau statudol a gwirfoddol yn rhanbarthol ac yn lleol. Roedd y rhaglen yn anelu at hyrwyddo iechyd yn ei synnwyr fwyaf cyffredinol ac i wella iechyd pobl o fewn cymunedau difreintiedig trwy sefydlu Canolfannau Byw'n Iach. Y targed oedd ariannu Canolfannau Byw'n Iach a oedd yn hygyrch i 20 y cant o'r boblogaeth.

Mae rhan fwyaf yr arian bellach wedi'i ymrwymo. Mae cyfanswm o 350 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws y DU wedi'u creu: 257 yn Lloegr, 46 yn yr Alban, 28 yng Nghymru a 19 yng Ngogledd Iwerddon. Mae 174 o grantiau yn parhau i dderbyn arian. Disgwylir i daliadau terfynol gael eu gwneud yn 2009/10.

Lansiwyd prosiect cynaladwyedd ar ddechrau 2008. Mae hyn yn anelu at weithio gyda Chanolfannau Byw'n Iach dethol i ddatblygu model ar gyfer cynaladwyedd trwy fenter gymdeithasol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael i ledaenu i grŵp ehangach o Ganolfannau Byw'n Iach a budd-ddeiliaid eraill tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Bridge Consortium wedi gwerthuso'r rhaglen. Mae'r gwerthusiad terfynol ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr – www.cronfaloterifawr.org.uk

## Cyfleoedd Newydd ar gyfer Iechyd

Fe wnaethom ddatblygu nifer o raglenni o dan y fenter hon gwerth £213.5 miliwn er mwyn gostwng baich clefyd coronaidd y galon, strôc a chancr. Ar draws y DU fe wnaethom hefyd fuddsoddi mewn sganwyr modern a mathau eraill o offer er mwyn delio gyda'r ffaith bod rhai ardaloedd wedi gorfod cynnig gwasanaeth llawer yn waeth i gleifion, oherwydd nad oedd offer ar gael neu ei fod yn hen, araf neu annibynadwy. Mae ein grantiau yn galluogi i gleifion gael eu gweld yn gynt, gan ostwng yr amser a dreulir ar gyfer diagnosis, a helpu pobl i dderbyn triniaeth o'r radd flaenaf.

Yn Lloegr, mae rhaglen beilot ffrwythau ysgol a mentrau cymunedol lleol pump y dydd a oedd yn cefnogi ymgyrch y Llywodraeth i gynyddu nifer sy'n bwyta ffrwythau a llysiau bellach wedi cau.

Mewn partneriaeth a Sefydliad Prydeinig y Galon fe wnaethom ddatblygu tair rhaglen "iechyd galon", Adsefydlu Cardiaidd (£5 miliwn), Rhwydweithiau Cefnogi Methiant y Galon (£10 miliwn) a'r Rhaglen Diffibrilwyr Cenedlaethol (£6 miliwn). Mae'r rhaglen olaf hon bellach wedi cau.

Trwy'r rhaglen Adsefydlu Cardiaidd, dyfarnwyd 26 o grantiau i ariannu 76 o nyrsys. Disgwylir i'r rhaglen gwblhau yn 2009/10.

Dyfarnwyd tri deg chwech o grantiau trwy'r rhaglen Rhwydwaith Cefnogaeth Methiant y Galon[3]. Disgwylir cwblhau'r rhaglen yn 2009/10.

Darparodd ein rhaglen CHD, Strôc a Chancr yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru rhaglenni ataliol a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer diagnosis a thriniaeth trwy fynd i'r afael yn benodol ag anghydraddoldeb mewn darpariaeth. Mae'r rhaglenni yn sylweddol gyflawn. Yn yr Alban, rydym hefyd wedi cefnogi nawr o brosiectau adeiladu mawr ar gyfer cyfleusterau gofal cancr. Yng Nghymru, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2008/09 y byddai arian y Llywodraeth yn cael ei ddarparu i brif ffrydio rhai o'r prosiectau CHD a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr.

[3]Rydym wedi dyfarnu £9,459,819 i Sefydliad Prydeinig y Galon i redeg cynllun Rhwydwaith Cefnogaeth Methiant y Galon. Disgwylir i'r cynllun grant partner dyfarnu pum mlynedd hwn, wedi'i leoli yn Lloegr, gwblhau erbyn mis Mehefin 2009. Mae £9.2 miliwn o'r grant wedi'i dalu hyd yma.

# Adran tri

## Transforming Communities: Better Off (Yr Alban)

Mae'r rhaglen Better Off gwerh £10 miliwn yn yr Alban yn datblygu mathau newydd o adsefydlu cymunedol ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio neu sydd wedi camddefnyddio cyffuriau. Mae'r rhaglen yn cynnig adnoddau ychwanegol ar lefel gymunedol i grwpiau ac asiantaethau sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws y sir, gan gefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl â chyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a llety.

## Cyfleoedd Newydd ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon

Nod y rhaglen oedd cyflwyno newid sylweddol yn narpariaeth a defnydd cyfleusterau Addysg Gorfforol a Chwaraeon ar gyfer pobl ifanc ac i'r gymuned ar draws y Deyrnas Unedig. Mae £750.75 miliwn wedi'i ymrwymo ar draws y DU i Awdurdodau Addysg Lleol, ar sail maint y boblogaeth a lefelau amddifadedd.

Dyrannwyd hyd at £581.25 miliwn ar gyfer prosiectau ar draws Lloegr. Dyrannwyd £88.3 miliwn yn yr Alban. Rhannwyd ariannu yn yr Alban rhwng prosiectau gweithgareddau a chwaraeon[4]. Dyrannwyd £33.75 miliwn ar gyfer prosiectau ar draws Gogledd Iwerddon a dyrannwyd £48.75 miliwn ar gyfer prosiectau ar draws Cymru.

Ar 2008 Mawrth:

- Mae 1,679 o ddyfarniadau wedi gwneud yn Lloegr yn ariannu 2,493 o gyfleusterau.
- Mae 211 o ddyfarniadau wedi'u gwneud yn yr Alban yn ariannu 178 o gyfleusterau a 33 o brosiectau gweithgareddau.
- Mae 205 o ddyfarniadau wedi'u gwneud yng Nghymru yn ariannu 177 o gyfleusterau.
- Mae 143 o ddyfarniadau wedi'u gwneud yng Ngogledd Iwerddon yn ariannu 135 o gyfleusterau.

[4]Mae un grant o dros £5 miliwn wedi'i ddyfarnu trwy'r rhaglen Cyfleoedd Newydd ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon. Dyfarnwyd £6,642,436 i Wasanaethau Addysg Cyngor Dinas Glasgow i redeg prosiect Active Glasgow. Mae gweithgareddau a ariannir o dan y grant hwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn Glasgow i gyfranogi mewn ystod o weithgareddau chwaraeon a chorfforol newydd. Mae'r rhaglen bellach wedi gorffen gyda'r holl grant wedi'i dalu. Mae Cyngor Dinas Glasgow yn ariannu rhaglen newydd o dan yr enw Active Kids.

Mae'r Bartneriaeth Loughborough yn gwerthuso'r rhaglen. Mae cynnydd gwerthuso ar gael yn www.cronfaloterifawr.org.uk

Yn Lloegr, dyrannwyd £30 miliwn pellach ar gyfer prosiectau pêl-droed a'u dosbarthu gan y Football Foundation. Mae'r rhaglen hon bellach yn gyflawn. Dyrannwyd cyfanswm o £25 miliwn i Space for Sport and the Arts, rhaglen ar y cyd rhwng Sport England, Cyngor y Celfyddydau, DCMS a DfES. Mae'r rhaglen yn cael ei rheoli gan Sport England. Rydym hefyd wedi cyfrannu £2 miliwn at Active Places i ddatblygu cronfa ddata cyfleusterau chwaraeon ar-lein. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu ar y cyd gyda Sport England. Mae'r rhaglen hon bellach yn gyflawn.

## Out of School Hours Childcare

Roedd y rhaglen hon yn anelu at fynd i'r afael â diffyg darpariaeth gofal plant ac i gefnogi creu, datblygu a chynaladwyedd hirdymor y ddarpariaeth ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd yn ategu at Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol y Llywodraeth, sydd (ar y cyd gyda'i rhaglenni tebyg yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru) wedi'i hanelu at wella ansawdd, hygyrchedd a fforddiadwyedd gofal plant ar gyfer plant rhwng 3 a 14 oed (hyd at 16 ar gyfer plant gydag anghenion arbennig). Fe wnaeth y rhaglen sicrhau bod £285.4 miliwn ar gael i greu lleoedd gofal plant ar draws y DU.

Crëwyd 555,340 o leoedd gofal plant; 468,500 yn Lloegr; 14,494 yng Ngogledd Iwerddon; 48,139 yr Alban; a 24,207 yng Nghymru. Disgwylir i'r rhaglen gael ei chwblhau erbyn yr Hydref 2008.

## Trydydd Cylch y Rhaglenni Gofal Plant

Fe wnaeth y rhaglen hon ariannu prosiectau cyfalaf a fyddai o fudd pennaf i blant cyn ysgol a chyflwyno cynaladwyedd hirdymor gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Rhedwyd y rhaglen ar draws pedair gwlad y DU.

Cefnogwyd Hwyluswyr Ariannu Gofal Plant yn yr Alban a Chymru hefyd. Roedd y rhaglenni hyn yn gwahodd ceisiadau i sefydlu timau o hwyluswyr ariannu i gynghori a chefnogi darparwyr gofal plant ynghylch cynaladwyedd.


TREES

# Adran tri

Trwy ein rhaglen Building Neighbourhood Nurseries yn Lloegr fe wnaethom sicrhau bod £100 miliwn ar gael ar gyfer costau cyfalaf a datblygu meithrinfeydd newydd mewn ardaloedd difreintiedig. Fe wnaethom gefnogi 913 o brosiectau, a chrëwyd 45,000 o leoliadau gofal dydd.

Trwy ein Rhaglen Building Quality Childcare yng Ngogledd Iwerddon rydym wedi gwneud 95 o ddyfarniadau yn gwneud cyfanswm o £5.7 miliwn i greu lleoliadau gofal plant o ansawdd trwy ariannu cyfleusterau gofal plant, yn bennaf ar gyfer plant cyn ysgol.

O dan New Opportunities ar gyfer Quality Chidlcare yn yr Alban mae 262 o ddyfarniadau wedi'u gwneud gwerth tua £14.2 miliwn i wella ansawdd darpariaeth gofal plant ar gyfer plant hyd at 14 oed (hyd at 16 ar gyfer plant gydag anghenion arbennig), i ddatblygu cefnogaeth i rieni ac i ddatblygu gweithlu gofal plant.

Mae ein rhaglen Canolfannau Integredig i Blant yng Nghymru wedi gwneud 25 dyfarniad gwerth £10 miliwn ar gyfer costau cyfalaf adeiladu canolfan integredig i blant ym mhob ardal awdurdod lleol. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ein hariannu roedd yn rhaid i'r ganolfan ddarparu gofal plant ar gyfer plant dan oed ysgol nad ydynt mewn lleoliad addysg statudol.

## Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol/Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol

Nod ein rhaglen oedd darparu gweithgareddau dysgu y tu allan i ysgol sy'n annog ac yn cymell disgyblion, meithrin eu hunan-barch a'u helpu i gyrraedd safonau uwch cyrhaeddiad. Nod y rhaglen OSHL/SSCo oedd darparu cyfleoedd dysgu y tu allan i oriau ysgol newydd a gwell gyda'r ffocws ar weithgaredd corfforol.

Yn Lloegr, roedd £20 miliwn ar gael yn y lle cyntaf, ac fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc dyrannwyd £28 miliwn pellach yn 2005 a £29 miliwn yn 2005 er mwyn ehangu ar brosiectau gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol cyfredol ac i ariannu prosiectau newydd. Roedd yr holl brosiectau wedi dechrau erbyn mis Chwefror 2007. Roedd yr holl ysgolion yn Lloegr yn rhan o'r rhwydwaith partneriaeth chwaraeon ysgol.

Erbyn diwedd 2007 roedd cyfanswm o 460 o brosiectau wedi'u hariannu, gydag arian arg ael i bob ysgol yn Lloegr. Mae 20 o'r prosiectau hyn wedi'u cwblhau erbyn mis Awst 2007, a disgwylir cwblhau 30 pellach erbyn haf 2008. Yn 2007, ymrwymwyd £14.5 miliwn i 39 o brosiectau newydd a 154 o brosiectau cyfredol. Mae'r holl brosiectau bellach gan reolaeth grant. Disgwylir i'r rhaglen gau ym mis Mawrth 2012.

Mae Sefydliad Chwaraeon Ieuenctid Prifysgol Loughborough yn gwerthuso effaith y rhaglen SSCo yn flynyddol. Mae manylion i'w cael yn <http://www.lboro.ac.uk/departments/sses/institutes/iys/pages/research3.6.htm>

Yn yr Alban mae ein rhaglen yn cael ei chyflwyno trwy gontract grant gyda sportscotland. Yn 2006/07 defnyddiodd **sport**scotland £27,000 i gyflwyno Girls in Sport, prosiect wedi'i anelu at hyfforddi'r rheini sy'n cyflwyno gweithgareddau o dan raglen OSHL/SSCo i gysylltu a chynnal diddordeb merched mewn gweithgaredd chwaraeon. Mae'r prosiect hwn wedi profi'n llwyddiannus ac fe wnaeth helpu i ostwng y rhwystrau tuag at gyfranogiad chwaraeon benywaidd.

Fe wnaeth yr holl weithgareddau a ariannwyd o dan y rhaglen hon yn yr Alban orffen erbyn diwedd 2007. Gwerthuswyd y rhaglen fel rhan o werthusiad sportscotland y rhaglen Active Schools. Mae manylion i'w cael yn www.sportscotland.org.uk

Yng Ngogledd Iwerddon rydym wedi ymrwymo ein holl ariannu a oedd ar gael ar gyfer OSHL/SSCo. Cyflwynwyd prosiectau mewn partneriaeth gyda'r Byrddau Addysg a Llyfrgell. Gwnaed taliadau terfynol yn yr haf 2007. Gwnaed dyfarniad i bob Bwrdd Llyfrgell Addysg. Roedd y dyfarniadau yn cynnwys 850 o ysgolion yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd y rhaglen OSHL/SSCo yng Nghymru yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion cynradd a disgyblion sy'n symud i ysgolion uwchradd trwy gydlynwyr cymorth astudio awdurdod lleol. Roedd y prosiectau yn ategu at Fenter Chwaraeon y Ddraig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Roedd y canlyniadau yn rhagori ar gyfeiriadau polisi o ariannu gweithgareddau mewn 1,000 o deuluoedd ysgol gyda chydlynwyr chwaraeon ysgol trwy ariannu tua 1,300 o deuluoedd mewn gwirionedd. Mae £1.8 miliwn wedi'i ddyrannu i ariannu 22 prosiect, y gwnaeth pob un ohonynt gwblhau gweithgareddau rheoli grant erbyn diwedd 2007. Caeodd y rhaglen ym mis Rhagfyr 2007.

## Gofal Lliniarol

Roedd y rhaglen hon yn rhoi grantiau i brosiectau a oedd yn cynnig gofal lliniarol effeithiol a chefnogaeth gysylltiedig â gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer plant ac oedolion sy'n dioddef o gancr a chyflyrau bygwth bywyd. Roedd yn anelu at gynyddu mynediad at gefnogaeth allgymorth yn y gymuned, gofal seibiant, gwybodaeth a gwasanaethau profedigaeth ar gyfer cleifion, teuluoedd a gofalwyr.

- Yn Lloegr trwy'r rhaglen blant rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth dros £44.6 miliwn i 134 o brosiectau. Trwy'r rhaglen oedolion rydym wedi gwneud dyfarniadau yn Lloegr i 55 o dimau gofal lliniarol yn y cartref, gwerth £20.6 miliwn
- Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaed 25 dyfarniad o dan bedwar cynllun ymbarél, gwerth £3.6 miliwn.
- Yn yr Alban, gwnaed 19 grant, 15 i Fyrddau GIG a 4 grant uniongyrchol yn gwneud cyfanswm o £5.1 miliwn.
- Yng Nghymru gwnaed 10 dyfarniad i gynlluniau adeiladu a fydd o fudd i gleifion, ymwelwyr a staff trwy well gyfleusterau ac ardaloedd aros.

Mae'r holl raglenni yn sylweddol gyflawn, bydd y taliadau terfynol yn cael eu gwneud yn 2008/09.

Mae'r gwerthusiad bellach yn gyflawn a bydd yr adroddiad terfynol a'r crynodeb yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. www.cronfaloterifawr.org.uk

## Ynni Adnewyddadwy

Roedd Ynni Adnewyddadwy yn rhaglen gwerth £50 miliwn ar draws y DU, yn ffurfio rhan o'n menter Transforming Communities. Dywedodd y Llywodraeth y dylid ei rannu rhwng tair blaenoriaeth – o leiaf £33 miliwn i ariannu prosiectau cynhyrchu trydan ar raddfa fawr gyda thanwydd cnydau ynni; o leiaf £10 miliwn ar adeiladu prosiectau gwynt alltraeth; ac, o leiaf £3 miliwn ar gyfer cynlluniau gwresogi biomas graddfa fach. Mae arian y Gronfa Loteri Fawr[5] yn cyfrannu at becyn ariannu strategol o dan y Cynllun Grantiau Cyfalaf Bio-ynni yn targedu'r sectorau penodol hyn o'r diwydiant ynni adnewyddadwy. Yn y lle cyntaf fe wnaeth yr Adran dros Fasnach a Diwydiant ddarparu arian ar gyfer gweddill y pecyn hwn. Yn fwy diweddar darparwyd trydydd cylch o arian gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

Mae'r holl arian bellach wedi'i ymrwymo gyda 17 o grantiau wedi'u hariannu i gyd. Oherwydd natur y prosiectau sy'n cael eu hariannu, bydd taliadau yn cael eu gwneud o dan y rhaglen hon hyd at 2010/11.

---

[5] Mae tri grant o fwy na £5 miliwn wedi'u dyfarnu yn y rhaglen hon.

- Dyfarnwyd £11,900,000 i SembCorp Utilities ar gyfer y prosiect Wilton 10. Mae'r prosiect Wilton 10 ymhellach i'w gyfnod adeiladu ar hyn o bryd. Gan ddefnyddio biomas yn hytrach na thanwydd ffosil I gynhyrchu ynni i ostwng allyriadau carbon. Comisiynwyd yr orsaf gynhyrchu yn 2007/08. Mae £8.9 miliwn o'r grant wedi'i dalu hyd yma. Mae'r garreg filltir dalu terfynol yn gysylltiedig â darparu adroddiadau ôl-gomisiynu. Disgwylir yr olaf o'r rhain ym mis Ebrill 2010 pan disgwylir gwneud y taliad olaf o dan y grant.
- Dyfarnwyd £10,000,000 i SeaScape Energy Ltd ar gyfer y prosiect Burbo Offshore Wind Farm. Trwy harneisio pŵer naturiol y gwynt yn hytrach na thanwydd ffosil i ddarparu ynni i'r grid cenedlaethol ac i ostwng yr allyriadau carbon. Comisiwnwyd y fferm wynt ar y môr yn 2007/08. Mae £6.5 miliwn o'r grant wedi'i dalu hyd yma. Mae'r garreg filltir talu terfynol yn gysylltiedig â darparu adroddiadau ôl-gomisiynu. Disgwylir yr olaf o'r rhain ym mis Gorffennaf 2010 pan disgwylir gwneud y taliad olaf o dan y grant.
- Dyfarnwyd £18,000,000 i E.ON UK plc ar gyfer y cynllun Biomass yn Lockerbie. Gan ddefnyddio biomas yn hytrach na thanwydd ffosil i gynhyrchu ynni er mwyn gostwng allyriadau carbon. Comisinwyd yr orsaf gynhyrchu yn 2007/08. Mae £8.2 miliwn o'r grant wedi'i dalu hyd yma. Mae'r garreg filltir dalu terfynol yn gysylltiedig â darparu adroddiadau ôl-gomisiynu. Disgwylir yr olaf o'r rhain ym mis Rhagfyr 2010 pan disgwylir gwneud y taliad olaf o dan y grant.

# Adran tri

## Trawsnewid eich Gofod

Nod y rhaglen Trawsnewid eich Gofod gwerth £49.5 miliwn oedd gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol, i wella ymddangosiad a mwynderau amgylcheddau lleol ac i gynyddu datblygiad asedau cymunedol.

- Yn Lloegr, fe wnaethom ddewis ategu at y rhaglen Cyfran Deg trwy ddyrannu arian i'r 51 o ardaloedd Cyfan Deg.
- Yng Nghymru, gwahoddwyd Partneriaeth Strategaeth Cymunedol i ddatblygu prosiect yn ei hardaloedd sy'n dangos datblygiad cynaliadwy.
- Yn yr Alban, rhedwyd y rhaglen gan bartner dyfarnu, y rhaglen Fresh Futures.
- Dyfarnwyd arian Gogledd Iwerddon trwy broses ymgeisio agored.

Mae'r holl arian a oedd ar gael bellach wedi'i ymrwymo a'r taliadau terfynol wedi'u gwneud. Mae gwerthusiadau Trawsnewid eich Gofod ar gyfer y siroedd ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr – www.cronfaloterifawr.org.uk

## Trawsnewid eich Gwastraff

Darparodd y rhaglen Trawsnewid eich Gwastraff gwerth £49.5 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n cyfrannu at ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff yn y sector gymuned. Rhannwyd yr arian ar draws y pedair gwlad, a phenodwyd un partner dyfarnu ym mhob un. Mae'r partneriaid dyfarnu wedi ymrwymo £42.57 miliwn i 290 o brosiectau yn genedlaethol.[6]

Mae'r holl arian ar gael bellach wedi'i ymrwymo i brosiectau. Disgwylir i'r rhaglen gael ei chwblhau yn 2008/09. Mae gwerthusiad terfynol Trawsnewid eich gwastraff ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr – www.cronfaloterifawr.org.uk

## Aduno Cyn-filwyr

Darparodd y rhaglen hon £49 miliwn ar gyfer teithiau tramor a digwyddiadau yn y DU er mwyn cofio 60 mlwyddiant ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Fe wnaeth hefyd gefnogi prosiectau a digwyddiadau addysgol er mwyn rhoi cyfle i bobl o bob oed ennill dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o effaith barhaus y rhyfel yn y DU ac yn fyd-eang.

Mae'r holl grantiau a theithiau wedi'u gwneud. Cafwyd tanwariant bach ar brosiectau addysgol a digwyddiadau cofio ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ymestyn a datblygu cyfleoedd i bobl ifanc gwrdd â chyn-filwyr, a datblygu e-adnoddau dysgu gan gynnwys brwydrau Rhyfel Byd Cyntaf ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Disgwylir y bydd y rhaglen wedi'i chwblhau'n sylweddol yn 2009/10.

[6] Yn Lloegr, dyfarnwyd £36,545,739 i'r Royal Society of Wildlife Trusts i gyflwyno'r rhaglen Ailgylchu Cymunedol a Datblygiad Economaidd. Ar 13 Mawrth 2008 mae £36,390,355 wedi'i dalu i RSWT. Disgwylir cwblhau'r prosietct yn 2008/09.

## Rhaglenni'r Gronfa Gymunedol

### Rhaglen y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Caeodd rhaglenni'r sector Gwirfoddol a Chymunedol ar 31 Mai 2005. Roedd arian ychwanegol o £100 miliwn ar gael i fodloni lefel uchel o alw. Fe wnaeth pob gwlad a phob rhanbarth yn Lloegr osod eu blaenoriaethau eu hunain: plant a phobl ifanc; cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; pobl hŷn a'u gofalwyr; pobl anabl a'u gofalwyr; pobl mewn ardaloedd difreintiedig gan broblemau cymdeithasol/economaidd; a ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Yn ystod oes y Gronfa Loteri Fawr, gwnaed 24,632 o grantiau gwerth £2.5 biliwn. Disgwylir i'r rhaglen orffen yn 2010/11.

### Rhaglenni grant rhyngwladol

Dyfarnodd y rhaglen Ryngwladol grantiau i brosiectau a oedd yn mynd i'r afael ag achosion craidd tlodi hirdymor mewn gwledydd datblygol. Roedd blaenoriaethau ariannu yn canolbwyntio at bedwar prif faes pryder: addysg gynradd, iechyd, adnoddau naturiol a hawliau dynol. Mae'r rhaglen bellach wedi cau.

Ariannwyd cyfanswm o 753 o brosiectau mewn 147 o wledydd, gyda chyfanswm y dyfarniad o £189.8 miliwn. Disgwylir i'r rhaglen ddod i ben yn 2011/12.

### Rhaglen grantiau ymchwil

Nod ein rhaglen grantiau ymchwil oedd sicrhau bod ymchwil meddygol a chymdeithasol ar gael i grwpiau gwirfoddol a'u buddiolwyr ac i adeiladu pontydd rhwng y sector gwirfoddol ac ymchwilwyr. Gwnaed ein holl grantiau yn uniongyrchol i sefydliadau'r sector gwirfoddol, y mae mwyafrif ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth gyda phrifysgolion. Trwy fabwysiadu ymdriniaeth 'wedi'i harwain gan y sector gwirfoddol' fe wnaeth y rhaglen, a oedd yn rhedeg rhwng 2002-2006, yn gwneud cyfraniad unigryw i'r tirlun ariannu ymchwil yn y DU. Mae'r rhaglen bellach wedi cau.

Gwnaed cyfanswm o 125 o grantiau ac mae 87 ohonynt yn parhau dan reolaeth grant. Disgwylir i'r grant olaf ddod i ben yn 2011.

### Rhaglen grantiau strategol

Caeodd y rhaglen grantiau strategol ar 31 Mai 2005. Roedd grantiau strategol yn rhaglen wedi'i harwain gan alw a oedd o fudd i brosiectau yn gweithio o fewn tri rhanbarth neu'n fwy yn Lloegr, Lloegr i gyd, mwy nac un wlad yn y DU neu'r DU i gyd. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogaeth ar gyfer prosiectau sy'n anelu at ddylanwadu ar bolisi ac arfer cenedlaethol.

Ariannwyd cyfanswm o 1,470 o brosiectau gyda chyfanswm y dyfarniad o £298.8. Disgwylir i'r rhaglen gwblhau ym mis Ionawr 2010.

## Rhaglenni Comisiwn y Mileniwm

Cynorthwyodd Comisiwn y Mileniwm y cymunedau wrth nodi diwedd yr ail fileniwm trwy annog prosiectau a fyddai'n henebion parhaus o lwyddiannau a dyheadau pobl y DU. Daeth y Comisiwn i ben ar 30 Tachwedd 2006 a bellach rydym yn rheoli ei grantiau gweddilliol.

Yn ystod oes y Comisiwn Mileniwm fe wnaeth ddyfarnu £2,178 miliwn mewn grantiau. Mae 12 o grantiau yn parhau dan reolaeth.

# Adran pedwar

## Ein perfformiad gweithredol

Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad gweithredol yn erbyn ein hamcanion a chyfrifoldebau statudol yn ystod 2007/08.

### Ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

Yn 2007/08 roedd y Cynllun Gweithredol yn amlinellu'r pum canlyniad sy'n canolbwyntio ar amcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformio cysylltiedig. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod gyda manylion y perfformiad a gyflawnwyd.

## Amcan 1:

### darparu gwell gwasanaeth i ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grantiau

Bydd y canlyniadau yn: profiad gwell ar gyfer y rheini sy'n ymholi am ein harian, yn ymgeisio amdano neu sy'n ei dderbyn; a pherthynas gryfach gyda'n partneriaid cyflwyno a deiliaid contract.

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **a) Datblygu a chyflwyno rhaglenni ariannu newydd** | O blith y nawr rhaglenni ariannu y dywedasom y byddem yn eu datblygu a'u lansio yn ystod y flwyddyn, dechreuodd saith rhaglen ar y dyddiadau a gyhoeddwyd gennym. Bydd y ddwy raglen derfynol, ail gylch BASIS (Lloegr) a Venture Fund (Yr Alban) yn agor yn 2008/09. Yn ychwanegol at y rhestr a gyhoeddwyd fe wnaethom lansio cylch pellach o'r rhaglen Miliynau'r Bobl.<br><br>Fe wnaethom hefyd agor y rhaglen Asedau Cymunedol, ein rhaglen gyntaf nad yw wedi'i hariannu gan arian y Loteri, yr ydym yn eu rheoli ar ran Swyddfa'r Trydydd Sector.<br><br>Cyflawnwyd perfformiad boddhaol ar yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniadau a cheisiadau ac ar naw o fesurau mewnol eraill o effeithlonrwydd gweithredol. |
| **b) Cyflawni'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y prosiectau yr ydym yn eu hariannu** | Fe wnaethom fonitro nifer y prosiectau a gwblhawyd a oedd wedi cyflawni eu canlyniadau a phennu bod mwy na 94 y cant wedi gwneud hynny. Fe wnaethom hefyd drefnu adolygiadau rheolaidd o'n arweiniad ymgeisio, rydym wedi diwygio ac ailgyhoeddi'r rhain ar gyfer rhaglenni lle wnaethom bennu y byddai'n elwa. |
| **c) Hyfforddi ein staff** | Fe wnaeth ein staff gymryd 1,923 o leoedd hyfforddi er mwyn gwella eu sgiliau dosbarthu grantiau. Fe wnaethom gynnydd da ar hyfforddiant ond rydyn yn adnabod yr angen i barhau i feithrin ar y gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i staff i'w galluogi i roi'r gwasanaeth o ansawdd uchel y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. |
| **ch) Safonau gwasanaeth clir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a'u partneriaid** | Yn ystod y flwyddyn roedd mwy na 100 o astudiaethau cymorth a phartneriaid cyflwyno o dan gontract i gyflwyno gwasanaethau ar ein rhan. Mae ein holl gontractau yn cynnwys ein gofynion lefel gwasanaeth. Fe wnaethom ddechrau rhaglen o hyfforddiant staff i wella'r ffordd yr ydym yn rheoli contractau. |

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **d) Gofal Cwsmeriaid** | Mae lefel gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir gan ein canolfan alw, sy'n ymdrin ag ymholiadau cyffredinol trwy'r llinell gymorth y Gronfa Loteri Fawr, yn foddhaol.<br>Rydym yn adrodd ar welliannau sylweddol wrth ymdrin â chwynion yn ddiweddarach yn adran hon yr adroddiad.<br>Rydym yn cydnabod yr angen i barhau i feithrin ar ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid. |

## Amcan 2:
### uchafu ar effaith ein hariannu

Y canlyniadau fydd: fframwaith gwell ar gyfer rhaglenni ariannu; penderfyniadau gwybodus ynghylch lle mae ein harian yn mynd; gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus o'n harian; a pharhau â'n ymdriniaeth cyllidwr deallus.

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **a) Egluro'r ffactorau llwyddiant a chanlyniadau ein rhaglenni ariannu** | Adolygwyd nifer o'n rhaglenni byw yn ystod y flwyddyn, er enghraifft er mwyn edrych a yw canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflawni. Mae rhai o'n rhaglenni hŷn wedi cau. Ym mhob achos ymgymerwyd ag ymarferion dysgu ac effaith ac fe gafodd y canfyddiadau eu hystyried gan y pwyllgor gwledydd perthnasol, er mwyn adnabod unrhyw ymyriadau angenrheidiol yn y rhaglenni cyfredol neu i hysbysu meysydd ariannu yn y dyfodol.<br>O blith y prosiectau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth mwy na 97 y cant gyflawni eu canlyniadau. Mae'r lefel lwyddiant hon yn rhagori ar ein targed perfformiad. |
| **b) fframwaith ariannu newydd ar gyfer 2009 ymlaen** | Mae pwyllgor gwledydd Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cynghori Pwyllgor ar ein polisïau ariannu ar draws y DU o dan ein cylch nesaf o raglenni. Rydym ar darged i ddechrau ar ein hymgynghoriad ar sail sgwrs ar draws y pedair gwlad yn 2008/09. |
| **c) cyswllt cyhoeddus** | Rydym yn arwain yn ymwneud ag ymglymiad y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau'r Loteri. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda ITV a'r BBC a bedair rhaglenni eleni (Creu Cof Byw, Miliynau'r Bobl, Llefydd i Natur a Primetime) er mwyn cynnwys y cyhoedd wrth bleidleisio ar y ffôn ac ar y we.<br>Mynychodd 100 o bobl ein cyfarfod Bwrdd agored a gafodd ei ddarlledu'n fyw hefyd ar y we. Fe wnaethom hefyd beilota dosbarthu grantiau byw o fewn yr Alban.<br>Dangosodd y bleidlais ym mis Tachwedd 2007 bod 36 y cant o boblogaeth y DU yn ymwybodol ohonom, cynnydd o 2 y cant ers 2006/07.<br>Dangosodd arolwg o 500 o brosiectau a ariannwyd ym mis Mawrth 2008 bod 92 y cant wedi cydnabod ein grant yn gyhoeddus trwy ddefnyddio'r logo ac eitemau â brand, o'i gymharu â 79 y can flwyddyn yn ôl. Mae hyn yn gynnydd da ac mae'n dangos bod gweithdrefnau newydd yn gweithio. |

# Adran pedwar

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **ch) lledaenu'r ddysg a'r dystiolaeth o'n rhaglenni ariannu** | Rydym yn ymgymryd â gwerthuso ac ymchwilio er mwyn caniatáu i ni wella effeithiau a phrosesau ariannu; er mwyn hyrwyddo rhannu ehangach ar ddysgu o'r faith i wella ymarfer a dylanwadu ar bolisi; ac i'n gwneud yn atebol i'r cyhoedd. Mae hyn wedi tyfu mewn cryfder yn ystod y flwyddyn. Fe wnaethom gynnal cynhadledd gwerthuso cenedlaethol ar gyfer 100 o gyfranogwyr, a chafodd groeso cynnes; mae sleidiau a sain llawn ar gael ar ein gwefan. |
| **d) ariannu deallus** | Mae holl gyhoeddiadau ymchwil a gwerthuso ar gael ar ein gwefan.<br><br>Fe wnaethom sicrhau bod ein syniadau ynghylch ein hariannu yn y dyfodol o fewn y fframwaith ariannu deallus. |

## Amcan 3:
### gwella cysylltiadau gyda budd-ddeiliaid

Y canlyniadau fydd: gwell dealltwriaeth o'n blaenoriaethau ariannu ac ymdriniaeth ganlyniadau ymhlith rhan-ddeiliad; effeithiolrwydd cynyddol yr asiantaethau cymorth; a gwell cyfathrebu o'n hegwyddorion cyllidwr deallus.

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **a) adolygu a datblygu ein perthnasau gyda budd-ddeiliaid** | Rydym yn paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2008/09. Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth ein sylw yn y wasg gyrraedd record o 19,638 o eitemau, ac roedd dros 80 y cant ohonynt yn bositif. Roedd sylw positif yn y wasg genedlaethol yn amrywio o 60 i 73 y cant. Dylanwadwyd ar sylw negyddol i raddau amrywiol gan ymgyrchoedd gwleidyddol a cham adrodd ein hariannu. |
| **b) datblygu strategaeth gymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Loteri Fawr ynghyd a'i rhaglenni ariannu a chyfathrebu gweithgareddau allweddol yn fewnol** | Fe wnaeth pwyllgorau gwledydd Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon derfynu eu strategaethau cyfathrebu a chynlluniau gweithredu. Yn ganolog i'r rhain y mae'r themâu gwaelodol o gyswllt cyhoeddus gyda'n hariannu a defnyddio cyfryngau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r hyn mae'r Loteri wedi'i ariannu. |

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **c) Cyflwyno ein strategaeth allgymorth a datblygu yn effeithiol gyda phartneriaid cyflwyno ac asiantaethau cymorth** | Mae gwella rhwydwaith asiantaeth cymorth wedi bod yn flaenoriaethau ar gyfer ein timau rhanbarthol Lloegr, yn canolbwyntio ar gefnogi eu digwyddiadau ac ychwanegu adnoddau y gall yr asiantaethau ei defnyddio i gefnogi ymgeiswyr; mae gwefan a lansiwyd ym mis Awst yn cynnig mynediad at swît o ddeunyddiau hyfforddi modiwlaidd.<br><br>Roedd gwaith allgymorth yn flaenoriaeth ar gyfer ein timau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac fe wnaethom gynnydd da yn gyffredinol. |

## Amcan 4:
### datblygu ein galluoedd a chael y gorau o'n pobl

Y canlyniadau fydd: gweithlu cymwys, galluog ac ymrwymedig; gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn cydweithio ar draws y sefydliad; a chyflawni'r holl safonau Buddsoddwyr mewn Pobl.

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **a) Lansio ail flwyddyn y rhaglen datblygu rheolwyr** | Eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, rydym wedi cofrestru grŵp o reolwyr ar raglenni datblygu rheolwyr y Brifysgol Agored. |
| **b) Mewnosod fframwaith teulu swyddi i gyfoethogi ein proses rheoli perfformiad gweithwyr a chryfhau'r cysylltiadau gyda dethol hyfforddiant, datblygiad a recriwtio** | Dangosodd ein hail arolwg gweithwyr ein bod yn parhau i wneud cynnydd da wrth fewnosod ein diwylliant rheoli perfformiad.<br><br>Mae pob swydd o fewn y sefydliad wedi'i gosod o fewn strwythur teulu swydd gyda galluoedd technegol ac ymddygiadol penodol. Mae rhaglen ddatblygu a hyfforddi sy'n cefnogi'r galluoedd hin wedi'u lansio.<br><br>Fe wnaethom fodloni ein targed i greu system integredig ar gyfer rheoli a datblygu perfformiad gweithwyr. |
| **c) Gweithredu cynlluniau gweithredu corfforaethol, cyfarwyddiaeth ac unigol i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o arolwg staff 2006-07** | Fe wnaethom weithredu nifer o fentrau newydd ar ôl arolwg 2006 ac fe wnaethom gyfathrebu'n rheolaidd gyda staff ar y rhain. Cafwyd ail arolwg ym mis Medi 2007, a oedd yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd da. Fe wnaethom gystadlu yn arolwg gweithwyr Cwmnïau Gorau'r Sunday Times ac ennill cydnabyddiaeth "One to Watch". |

# Adran pedwar

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **ch) Cyflawni safonau Buddsoddwyr mewn Pobl a chwmpasu gofynion i ddod yn weithiwr esiampl Buddsoddwyr mewn Pobl mewn arweinyddiaeth a recriwtio a dethol** | Cyflawnodd y Gronfa Loteri Fawr safonau Buddsoddwyr mewn pobl ac rydym wedi edrych ar yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud er mwyn dod yn gyflogwr model mewn arweinyddiaeth a recriwtio a dethol. Bydd hyn yn weithgaredd blaenoriaeth ar gyfer 2008/09. |
| **d) datblygu strategaeth gyfathrebu fewnol newydd** | We made good progress in this area. An internal communications strategy was agreed in September. The new Chief Executive has inspired fresh ideas for ensuring that staff share knowledge and ideas. |

## Amcan 5:

### gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Y canlyniadau y dymunwn eu cyflawni yw: cynllunio mwy effeithiol, modelu adnoddau a rheoli risgiau; gwella penderfyniadau a chefnogaeth i'n Bwrdd newydd wrth ddatblygu ac arwain y sefydliad i gyflwyno ein cenhadaeth ac i fod yn gyllidwr mwy effeithiol.

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **a) gweithredu fframwaith llywodraethu corfforaethol newydd, gan gynnwys (i) y cynllun gweithredu a (ii) blaengynllun strategol ac amserlen wybodaeth ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau a'r Uwch Dîm Rheoli** | Mae strwythur llywodraethu wedi'u sefydlu sy'n cefnogi cynllunio Bwrdd a Phwyllgor. |
| **b) integreiddio a gwella cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad, rheoli risgiau a rheoli gwybodaeth.** | Fe wnaethom gynnydd da ar integreiddio ein cynllunio corfforaethol, cyllidebu a rheoli risgiau. |

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **c) datblygu modelau busnes mwy cadarn sy'n cefnogi costiad o weithgareddau a rhagweld adnoddau** | Sefydlwyd tîm cynllunio ariannol newydd ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn cwblhau'r dasg yn 2008/09. |
| **ch) ail-beiriannu ein prosesau gweithredol, gan gynnwys adolygu modelau dosbarthu grantiau** | Fe wnaethom sefydlu prosiect mawr i greu'r systemau a'r prosesau er mwyn cyflawni safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid yn ein hariannu yn y dyfodol. Fe wnaethom gwblhau'r cyfnod gofynion eleni. Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ar ddiwedd 2009/10.<br><br>Cafodd ein systemau a phrosesau cyfredol ar gyfer dosbarthu grantiau eu cynnal ac yn parhau i weithio. Fe wnaeth prosiect i adolygu a gwella deunyddiau arwain, a ddechreuodd yn 2005, gwblhau ei waith ym mis Mawrth 2008. |
| **d) ail-beiriannu ein prosesau "swyddfa gefn" gwasanaeth corfforol i gyflawni systemau mwy integredig** | Fe wnaethom sefydlu Desg Gwasanaeth ar y cyd er mwyn darparu gwasanaeth integredig ar gyfer ceisiadau TG ac Adnoddau Dynol a chyflwyno hunanwasanaeth Adnoddau Dynol gweithwyr a rheolwyr.<br><br>Rydym yn gweithredu system ar-lein ar gyfer recriwtio a rheoli perfformiad gweithwyr. |
| **dd) parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad** | Mae hyn wedi'i gyflawni. Mae adran pump yr adroddiad hwn yn amlinellu manylion llawn ein perfformiad ariannol. |
| **e) parhau i drosglwyddo swyddogaethau corfforaethol i Firmingham a chael gwared ar ofod swyddfa dros ben** | Mae trosglwyddo staff i Firmingham wedi parhau. Rydym yn cael gwared ar ofod diangen yn ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham, ac wedi cael gwared ar ofod diangen yn ein cyn swyddfeydd yn Nottingham a Newcastle. |
| **f) dechrau datblygu cynllun strategol ar gyfer 2009-2012** | Fe wnaethom ddechrau ar y gwaith hwn ym mis Mawrth 2008. Bydd yn parhau ar yr un pryd â'n cynllunio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. |

# Adran pedwar

| Gweithgaredd blaenoriaeth | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| **g) sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu bob amser gyda chydymffurfiad deddfwriaethol a chytundebol llawn** | Mae gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar hyn wrth yr Uwch Dîm Rheoli. Ni adnabuwyd unrhyw broblemau yn ystod y flwyddyn. |
| **h) gweithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol, anabledd a rhywiol ar y cyd** | Rydym wedi cyflawni cynnydd da. Amlinellir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn adran hon yr adroddiad. |

## Materion gofal cwsmeriaid

Rydym yn parhau i godi proffil gofal cwsmeriaid ar draw ein gweithgareddau. Ym mis Medi 2007, fe wnaeth y Bwrdd lofnodi Strategaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid. Mae gan y Strategaeth dau brif amcan: sicrhau ein bod yn cadw ein haddewidion ac i ddysgu oddi wrth ein cwsmeriaid. Rydym yn gweithio'n galed i fewnosod gwasanaeth da i gwsmeriaid yn ein holl brosesau a phopeth yr ydym yn ei wneud.

Rhwng mis Rhagfyr 2007 a Chwefror 2008 fe wnaethom beilota arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar-lein. Mae'r canlyniadau yn cael ei defnyddio i flaenoriaethu cynllun gweithredu; mae hyn yn rhan allweddol ar y Strategaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid.

## Cwynion

Os bydd pethau yn mynd o'i le mae gennym broses dau gyfnod i geisio datrys cwynion yn foddhaol. Os yw achwynydd yn parhau yn anhapus fe all gyfeirio ei gwyn i gael ei adolygu'n annibynnol. Mae pedwar o adolygwyr cwynion annibynnol yn edrych ar gwynion ar draws holl ddosbarthwyr y Loteri.

Ym mis Ebrill 2007, fe wnaethom weithredu gweithdrefn fewnol newydd ar gyfer ymateb i gwynion a cheisiadau am adborth. Arweiniodd hyn at lai na hanner un y cant o geisiadau yn arwain at gŵyn eleni. Dim ond 17 o gwynion aeth i'r ail gyfnod (adolygiad gan y Prif Weithredwr). Mae hyn yn ostyngiad boddhaol ar y ffigwr yn 2006/07 sef 51.

Adolygwyd pump o'r cwynion hyn gan ein hadolygwyr cwynion annibynnol. Mae hyn yn ostyngiad ar y 13 a anfonwyd at yr Adolygwyr Cwynion Annibynnol yn 2006/07.

Oherwydd y gall hi gymryd sawl mis i adolygwr cwynion annibynnol gwblhau adroddiad, roedd 12 o'r penderfyniadau'r Adolygwyr Cwynion Annibynnol a dderbyniwyd yn ystod cyfnod adrodd 2007/08 yn perthyn i gwynion a oedd yn deillio o chwarter terfynol 2006/07.

Cefnogwyd tri o gwynion Adolygwyr Cwynion Annibynnol, cefnogwyd pump yn rhannol ac ni chefnogwyd pedwar.

Gellir categoreiddio'r rhain yn pum prif thema:

- deunydd arweiniad
- asesiad grant
- cyfathrebu
- oediadau, anghydfodau a dadansoddiad risg, a
- ymdrin â chwynion.

Rydym wedi derbyn argymhellion yr Adolygwyr Cwynion Annibynnol yn y meysydd hyn ac o ganlyniad i adroddiadau'r Adolygwyr Cwynion Annibynnol fe wnaethom ailasesu tri chais. Dyfarnwyd grant yn llwyddiannus i un ond roedd dau yn parhau'n aflwyddiannus.

Mae argymhellion o adroddiadau'r Adolygwyr Cwynion Annibynnol ac adborth gan gwynion cyfnod un a dau wedi'u defnyddio i hysbysu newidiadau i'n prosesau a deunydd arweiniad. Rydym wedi cynhyrchu arweiniad newydd ar Lywodraethu Da mewn ymateb i gwynion ynghylch diffyg adborth ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus. Rydym hefyd wedi gwella'r adborth yr ydym yn ei roi i ymgeiswyr a bellach rydym yn cynnig copïau o adroddiadau asesu ar gais ac yn cynnwys uwch reolwyr mewn ymatebion. Rydym yn ymrwymedig i wella yn y meysydd hyn.

## Rhyddid Gwybodaeth

Fel corff cyhoeddus mae'r Gronfa Loteri Fawr yn amodol ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i unigolion gael mynediad at unrhyw wybodaeth y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ei chadw, yn amodol ar eithriadau.

Rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008 fe wnaethom dderbyn 122 o geisiadau am wybodaeth. O blith y rhain fe wnaethom ateb 121 yn llawn, o fewn y 20 diwrnod gwaith statudol; cymerodd un cais 26 diwrnod gwaith, oherwydd bu'n rhaid i ni ymestyn ar yr amser er mwyn ystyried budd y cyhoedd.

Mae peth gwybodaeth wedi'i hymatal o dan eithriadau, ond dim ond un cais yr ydym wedi'i dderbyn am adolygiad mewnol o'n penderfyniad i ymatal gwybodaeth. Arweiniodd yr adolygiad mewnol hwn ar y wybodaeth yn cael ei rhyddhau. Nid oes unrhyw achosion wedi'u cyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth am adolygiad annibynnol o'n penderfyniadau.

Mae ceisiadau wedi dod o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys newyddiadurwyr, deiliaid grantiau, achwynwyr ac aelodau'r cyhoeddus sydd â diddordeb yn arian y Loteri. Bydd yn parhau i ryddhau gwybodaeth, i fod yn agored a thryloyw a dim ond defnyddio eithriadau Rhyddid Gwybodaeth os ydym yn teimlo bod gwneud hynny er budd y cyhoedd. Rydym hefyd yn adolygu ein polisïau yn gyson er mwyn darparu gwybodaeth fel nad oes yn rhaid i ymholwyr defnyddio darpariaethau Ddeddf.

## Ein polisïau cyflogaeth

Mae ein trefniadau ar gyfer cyflog ac amodau wedi'u seilio ar arfer gorau yn y sector cyhoeddus ac rydym wedi sefydlu ystod o bolisïau cyflogaeth sy'n dangos ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr teg. Yn ystod y flwyddyn 2007/08 fe wnaethom ddechrau ar raglen o symleiddio ein holl bolisïau Adnoddau Dynol er mwyn bod yn fwy cyfeillgar i staff a rheolwyr. Fe wnaethom hefyd gynnal cyfres o raglenni hyfforddi wedi'u cynllunio i ymgyfarwyddo staff a rheolwyr gyda'n polisïau symlach. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes ein bod wedi diwygio ein polisïau i sicrhau eu bod yn cael gwared ar unrhyw fanylion diangen.

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau'r Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu, er 1 Hydref 2002, gallai dechreuwyr newydd ddewis ymuno â threfniant ar sail cyfranddeiliaid prynu arian. Darperir manylion pellach ar drefniadau'r gronfa bensiwn yn y cyfrifon blynyddol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad staff ac rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i staff ddatblygu sgiliau newydd sy'n gwella eu gallu i ymgymryd â'r dyletswyddau. Er 2006/07 rydym wedi rhedeg rhaglen datblygu rheolwyr gyda'r Brifysgol Agored gyda dros 40 o weithwyr wedi'u cofrestru. Rydym hefyd yn darparu arian ar wahân ar gyfer cyrsiau eraill nad ydynt yn ymwneud â rheoli trwy ein cynllun nawdd corfforaethol, sy'n caniatáu i 30 o weithwyr ychwanegol gael mynediad at hyfforddiant a ddarperir yn allanol, wedi'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr, gyda darpariaeth seibiant astudio fel y bo'n briodol.

# Adran pedwar

Yn 2006/07 roeddem yn arbennig o falch bod ein swyddfa yng Nghymru wedi ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl fel peilot. Yna arweiniodd hyn at y Gronfa Loteri Fawr yn ymgeisio, ac yn 2007/08 fe wnaethom ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yn gorfforaethol.

Er mwyn annog cyfathrebu a chysylltiadau da rhwng y Bwrdd, y rheolwyr a'r staff ar bobl lefel, mae'r unedau llafur Prospect ac Amicus yn cael eu cydnabod ar y cyd at ddibenion bargeinio ar y cyd ar gyfer yr holl weithwyr, ac eithrio Cyfarwyddwyr. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf cytunwyd ar y cytundeb cydnabod ar y cyd. Mae'r berthynas rhwng y Grŵp Undeb ar y Cyd yn hynod bositif a chynhelir cyfarfodydd ffurfiol yn fisol.

Mae natur ein gwaith yn golygu bod nifer o'n staff yn gweithio'n agos gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd, er enghraifft, trwy ddatblygu a gwerthuso rhaglenni, trwy asesiad a phenderfyniadau ar geisiadau. Mae rhai aelodai o staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, sy'n galluogi iddynt fod yn ymwybodol o'r meddwl ynghylch datblygu'r Gronfa Loteri Fawr a'n gweithrediadau.

Yn ychwanegol ymgynghorir â staff ar nifer o faterion ac mae amryw grwpiau yn bodoli er mwyn hwyluso hyn. Yn 2007/08 rhedeg arolwg gweithwyr. Roedd cyfradd ymateb gyffredinol o 88 y cant yn nodedig. Rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredu yn gorfforaethol ac o fewn pob cyfarwyddiaeth i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd ar adborth staff lle fo'n briodol. Arweiniodd hyn at y Gronfa Loteri Fawr yn cyfranogi yn arolwg gweithwyr Cwmnïau Gorau'r Sunday Times ac yn ennill statws "One to Watch", llwyddiant i sefydliad sy'n wedi profi newid sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

Rydym wedi parhau i gymryd ymdriniaeth ragweithiol tuag at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth eleni gydag ein Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth gref ac mae ffocws ein gwaith ar fewnosod ein hegwyddorion cydraddoldeb yn ein harferion a'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu.

Yn benodol roedd cyhoeddi ein harweiniad Materion Cydraddoldeb ym mis Gorffennaf 2007 yn arwydd o'n hawydd i hyrwyddo cydraddoldeb ac uchafu cyfleoedd er mwyn i bobl gymryd rhan mewn prosiectau a ariannwyd. Mae'r arweiniad hwn wedi'i gynllunio i ddarparu help ymarferol i ymgeiswyr grant er mwyn cynnwys materion cydraddoldeb wrth gynllunio eu prosiectau ynghyd ag esbonio'r safonau cydraddoldeb y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu disgwyl gan ei ddeiliaid grantiau. Yn y pendraw credwn trwy osod cydraddoldeb wrth galon cynllunio a gweithredu prosiect, mae sefydliadau yn fwy tebygol o gyflawni gwell canlyniadau.

Rydym hefyd wedi datblygu a chyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer yr holl staff sy'n cynnwys asesu ceisiadau a rheoli prosiectau sydd wedi'i dderbyn yn dda iawn a bydd yn ategu at y negeseuon allweddol o fewn ein harweiniad Materion Cydraddoldeb.

Ym mis Ionawr 2008 fe wnaethom gyhoeddi adroddiad blynyddol cynnar y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd ar y Cyd. Mae perfformiad o dan y cynllun yn un o'n gweithgareddau blaenoriaeth corfforaethol ac rydym yn teimlo ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael ag amryw ymrwymiadau a amlinellir yn ein cynllun gweithredu gyda chyfradd gwblhau o 80 y cant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Gan ein bod wedi dechrau diffinio a datblygu'r prosesau a fydd yn cyflwyno ein rhaglenni ariannu o 2009 ymlaen, rydym hefyd wedi bod yn adolygu ein hymdriniaeth gyfredol tuag at gasglu gwybodaeth gydraddoldeb. Arweiniodd hyd at gwblhau darn o ymchwil â ffocws wedi'i gynllunio i ganfod beth yw ansawdd y wybodaeth ar gydraddoldeb yr ydym yn ei chadw yn ein systemau ynghyd ag archwilio profiadau ymgeiswyr yn y maes hwn yn y gorffennol. Yn y pendraw dylai'r canfyddiadau ymchwilio wella dibynadwyedd y wybodaeth ar gydraddoldeb yr ydym yn ei chasglu yn y dyfodol.



# Adran pedwar

## Cydraddoldeb o fewn cyflogaeth

Mae anabledd yn parhau yn faes blaenoriaeth i ni fel cyflogwr. Y llynedd fe wnaeth Fforwm Cyflogwyr ar Anabledd archwilio ein harferion a bu ond y dim i ni ennill gwobr fel cyflogwyr esiampl. Bwriadwn gael ei harchwilio eto yn ystod 2008/09 i weld a ydym wedi gwella ein harferion o fewn cyflogaeth. Rydym hefyd yn annog ceisiadau gan bobl anabl.

| Statws anabledd | Y Gronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithredol yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Staff ag anabledd | 3% | 4% | 13% |
| Staff heb anabledd | 97% | 96% | 87% |

Mae gennym weithlu benywaidd yn bennaf gyda mwy o fenywod ar raddau is a mwy o ddynion ar y lefelau uchaf. Y llynedd fe wnaethom redeg peth hyfforddiant rheolwyr yn benodol ar gyfer staff benywaidd er mwyn helpu i gywiro'r anghydbwysedd yn y rolau gradd uwch.

| Rhyw | Y Gronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithredol yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Benywaidd | 62% | 52% | 44% |
| Gwrywaidd | 38% | 48% | 56% |

Mae cyfran y staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yr ydym yn eu cyflogi yn fras yn unol â'r hynny a ddisgwylir o ystyried lleoliad ein prif swyddfeydd.

| Grŵp Ethnig | Y Gronfa Loteri Fawr | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|
| Asiaidd | 5.2% | 3.0% |
| Du | 3.0% | 1.4% |
| Tsieinïaidd | 0.3% | 0.3% |
| Cymysg | 0.8% | 1.5% |
| Arall | 0.3% | 0.4% |
| Gwyn Arall | 5.4% | 3.4% |
| Cyfanswm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 15% | 10% |
| Gwyn y DU | 83% | 90% |
| Anhysbys | 1% | |
| Ddim eisiau datgan | 1% | |

Rydym yn cyflogi gweithlu iau yn bennaf gyda chyfran fawr o'r staff yn yr ystod oed 25-34. O ystyried y mathau o swyddi yr ydym yn eu cyflogi gellid disgwyl hyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom ofyn i'n staff am y tro cyntaf am eu tueddfryd rhywiol. Mae hyn yn un maes ar ein gwahaniaethu posibl nad yw ein monitro yn ymdrin ag ef. Oherwydd sensitifrwydd y datgeliad hwn, roedd gan staff y dewis i'w ddatgelu ai peidio. Dewisodd nifer o staff yr opsiwn hwn, neu benderfynu peidio ag ymateb, gan hynny nid yw unrhyw ddadansoddiad ystyrlon ar y ffigurau yn bosibl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom ostwng nifer y staff nad oes gennym wybodaeth monitro ar eu cyfer ar sail oed, statws anabledd, ethnigrwydd a rhyw o 7 y cant i 1 y cant.

## Cydraddoldeb o fewn rhaglenni newydd

Cyflwynwyd monitro cydraddoldeb cyffredinol i fwyafrif ein rhaglenni newydd. Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect wedi'i gyfeirio at, neu o berthnasedd arbennig i, bobl o ethnigrwydd penodol, oed, rhyw, cefndir cymunedol (yng Ngogledd Iwerddon), ffydd, anabledd neu dueddfryd rhywiol.

Mae 'Datganiad o egwyddor ar fynediad grwpiau lleiafrifoedd ethnig at gyfleoedd ariannu'r Loteri' DCMS yn gofyn i ni gyhoeddi data ethnigrwydd cyfunol. Amlinellir hyn yn y tabl isod ond daw gyda rhybudd iechyd.

Gall ymgeiswyr ddewis hyd at dri chategori a chan hynny rydym yn ymwybodol o gyfrif lluosog ynghyd â lefel o ddiffyg ymateb a'r debygoliaeth o gamddehongli'r cwestiwn, sydd wedi effeithio ar y canlyniadau. Gan hynny, credwn mai budd cyfyngedig sydd mewn cyhoeddi data cyfunol ar gyfer ffrydiau cydraddoldeb eraill yr ydym yn eu monitro, h.y. oed, rhyw ayyb.

Mae'r canlyniadau monitro ethnigrwydd hyn yn perthyn i ddyfarniadau (ac eithrio Arian i Bawb, Creu Cof Byw, trosglwyddo grantiau a grantiau datblygu'r ail gyfnod) a wnaed yn ystod 2007/08. Maent i gyfrif am 11,950 o geisiadau o 2,666 o ddyfarniadau a wnaed yn gwneud cyfanswm o £915 miliwn.

| | Nifer y ceisiadau (% cyfanswm nifer y ceisiadau) | | Nifer y dyfarniadau (% cyfanswm nifer y dyfarniadau) | | Swm yr ariannu (£000) (% cyfanswm gwerth y dyfarniadau) | | Swm y ceisiwyd amdano (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect wedi'i gyfeirio at neu o berthnasedd arbennig i bobl o gefndir ethnig penodol. Gallant ddewis hyd at dri chategori gan hynny mae'r ymatebion hyn yn cynnwys cyfrif dwbl neu driphlyg). | | | | | | | |
| Gwyn DU | 2,929 | 25% | 598 | 22% | £110,653 | 12% | £766,806 |
| Gwyn eraill | 422 | 4% | 54 | 2% | £6,638 | <1% | £129,074 |
| Asiaidd | 613 | 5% | 101 | 4% | £32,553 | 4% | £213,738 |
| Du | 640 | 5% | 83 | 3% | £26,435 | 3% | £205,372 |
| Tsieineaidd ac eraill | 410 | 3% | 53 | 2% | £13,925 | 2% | £165,112 |
| Cymysg | 366 | 3% | 67 | 3% | £14,875 | 2% | £155,531 |
| Heb dargedu'n benodol | 7,172 | 60% | 1,625 | 61% | £576,646 | 63% | £2,446,528 |

# Adran pedwar

## Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg ym mis Mehefin 2006, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n amlinellu sut yr ydym yn darparu gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Rydym yn adnabod bod galluogi pobl i ddelio â ni yn yr iaith a ffafrir ganddynt yn fater o gyfle cyfartal ac arfer da.

Rydym wedi datblygu strategaeth sgiliau iaith sydd yn ein helpu i adnabod yr angen ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gyfer gwahanol rolau o fewn y sefydliad.

Cyfrifoldeb staff yn swyddfa Cymru yw monitro gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg a chynhelir cyfarfodydd yn chwarterol rhwng y Swyddog Iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymiadau i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Rydym wedi profi llwyddiant wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg ac rydym yn cyfrannu at weithredu Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog.

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Yn unol â'n dyletswyddau cydraddoldeb statudol o dan adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 fe wnaethom gyflwyno ein hadroddiad blynyddol cydraddoldeb i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2007. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau deddfwriaethol a chynnydd ar waith cydraddoldeb o fewn Cronfa Loteri Fawr Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007.

Cyflwynwyd cynllun cydraddoldeb Gogledd Iwerddon hefyd i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Ionawr 2008 i'w gymeradwyo'n derfynol.

Cyhoeddwyd ein trydydd adroddiad sgrinio ym mis Rhagfyr 2007, yn nodi'r holl bolisïau, rhaglenni a swyddogaethau cydraddoldeb sicr a/neu wedi'u hadolygu rhwng mis Medi 2006 a mis Medi 2008. Yn unol â'n gofynion statudol, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cafwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus tri mis o hyd.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth anabledd newydd, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu Anabledd Gogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2007. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein hymrwymiad i gydymffurfio â'r Dyletswyddau Anabledd newydd a chynllun gweithredu ar gyfer bodloni'r ymrwymiad hwn.

## Ein hymdriniaeth tuag at ddatblygiad cynaliadwy

Mae ymrwymiad y Gronfa Loteri Fawr i ddatblygiad cynaliadwy a'i egwyddorion wedi'u cymhwyso trwy ein rhaglenni grant ac arferion mewnol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i archwilio sut y gallem annog ymgeiswyr a deiliaid grantiau i ystyried datblygiad cynaliadwy yn eu prosiectau a'u sefydliadau. Bydd hyn yn ein helpu i ystyried sut y gallem brif ffrydio datblygiad cynaliadwy ar draws ein hariannu yn y dyfodol.

Roedd ein gwaith yn cynnwys prosiect peilot ar raddfa fach gyda Groundwork UK. Roedd hyn yn cynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i nifer o ddeiliaid grantiau Reaching Communities er mwyn galluogi iddynt ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu datblygiad cynaliadwy. Dangosodd y rhaglen beilot y gallai hyd yn oed y sefydliadau lleiaf wneud newidiadau bach, synnwyr cyffredin i'r ffordd yr oeddynt yn gweithio er mwyn ymgorffori datblygiad cynaliadwy yn yr hyn maent yn ei wneud.

Yn fewnol rydym yn gwneud pob ymdrech i isafu ar y defnydd o adnoddau naturiol anadnewyddadwy ac adnewyddadwy wrth redeg ein swyddfeydd.

## Ein polisi ac arfer talu

Ein nod yw talu'n holl gredydwyr o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb, oni bai bod telerau ac amodau gwahanol wedi'u trafod. Mae hyn yn unol â'r Arweiniad Arfer Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn a adolygir talwyd 89 y cant (2006/07 87 y cant) o'r holl gredydwyr o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb.


food

# Adran pump
## Ein perfformiad ariannol

Amlinellir ein canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 yn y cyfrifon blynyddol sy'n dechrau ar dudalen 88. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn y ffurf a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn gyffredinol byddant yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yn y Llawlyfr Adroddiad Ariannol y Llywodraeth.

### Incwm

Yn ystod 2007/08 fe wnaethom dderbyn **£601 miliwn** (2006/07 £603 miliwn) o incwm y Loteri.

Fel arfer mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn hanner yr arian a godir i achosion da gan y Loteri Genedlaethol. Mae'r Senedd[7] wedi cytuno rhwng 2009 a 2012 y dylai £638 miliwn gael ei drosglwyddo o'n hincwm i Ddosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd (OLD); cyhoeddwyd £425 miliwn o'r swm hwn ym mis Mawrth 2007.

Yn ychwanegol, bydd OLD yn derbyn £750 miliwn o'r gemau Loteri Gemau Olympaidd arbennig. Mae'n ansicr faint y bydd yn cael ei godi gan werthiannau ticedi ychwanegol, a faint y bydd yn cael ei ddargyfeirio o werthiannau ticedi a fyddai wedi'i dderbyn gan y brif Loteri.

| Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth £M | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo arian i'r OLD | 43 | 172 | 172 | 171 | 80 | 638 |

Mae ein holl gynlluniau ariannol, a'r rhagamcaniadau incwm a ddarperir gan y DCMS, yn ystyried trosglwyddo arian i'r Gemau Olympaidd ac effaith Loteri'r Gemau Olympaidd. Maent hefyd yn ystyried effaith bositif ar yr incwm i'w dderbyn gan achosion da delerau trydedd drwydded gweithredu'r Loteri a ganiatawyd i Camelot, sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2009.

Rydym wedi ymgymryd i isafu ar effaith y trosglwyddiad hwn ar y sector gwirfoddol a chymunedol. Ar yr amod bod incwm y Loteri yn parhau byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiad hyd at 2012 y bydd y sector gwirfoddol a chymunedol yn derbyn o leiaf 60 y cant o'r cyfanswm y byddem wedi'i ddosbarthu pe na bai'r ail drosglwyddiad gwerth £425 miliwn i'r Gemau Olympaidd wedi digwydd. Mae hyn yn ymestyn ar ein hymrwymiad blaenorol y byddai'r sector gwirfoddol a chymunedol yn derbyn rhwng 60 a 70 y cant o gyfanswm ein hariannu ar ein rhaglenni 2005-09.

Mae incwm a gynhyrchir gan y Loteri Genedlaethol yn cael ei gadw, a'i fuddsoddi, ar ein rhan yn y Gronfa Ddosbarthu Loteri Genedlaethol sy'n cynhyrchu **£50 miliwn** pellach (2006/07 £30 miliwn) mewn incwm buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Nid oes gan ein Bwrdd reolaeth dros fuddsoddi balans CDdLG; mae'r stiwardiaeth yn gorwedd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Darperir manylion pellach yn nodyn 11 i'r cyfrifon blynyddol. Mae nodyn 19 i'r cyfrifon blynyddol yn amlinellu pam fod y Bwrdd yn ystyried nad ydym yn agored i risgiau cyfradd llog arwyddocaol.

[7] Ym mis Chwefror 2007 pasiwyd Offeryn Statudol (SI 2008 No.255) a oedd yn caniatau ar gyfer trosglwyddo hyd at £1,085 miliwn gan yr CDdLG i Gronfa Ddosbarthu Loteri'r Gemau Olympaidd er mwyn bodloni rhai o gostau cynnal gemau 2012. Mae hyn yn cynnwys £410 miliwn a rhagwelwyd yn wreiddiol pan benderfynodd y Llywodraeth gefnogi cais Gemau Olympaidd Llundain yn 2003, a £675 arfaethedig pellach o adolygiad cyllideb dilynol.

Ymrwymwyd y Gronfa Loteri Fawr i gyfrannu hyd at £213 miliwn yn y cais gwreiddiol ac mae'r gorchymyn hwn yn caniatau ar gyfer trosglwyddo hyd at £425 miliwn pellach.

Disgwylir trosglwyddo'r arian cyntaf ar 1 Chwefror 2009 neu ar ôl hynny pan fydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu hyd at £43 miliwn.

## Cyflwyno cymaint o ariannu â phosibl

Yn ystod 2007/08 fe wnaethom ddyfarniadau newydd yn gwneud cyfanswm o **£1,192 miliwn** (2006/07 £429 miliwn). Nid yw £124 miliwn (2006/07 £50 miliwm) o'r dyfarniadau hyn yn ymrwymiadau hyd yma gan ein bod yn aros am dderbyniad gan y derbynnydd grant. Mae'r cynnydd hwn mewn dyfarniadau yw canlyniad arfaethedig cyflwyno ein strategaeth a rhaglenni 2005-2009.

Talwyd cyfanswm o **£600 miliwn** (2006/07 £730 miliwn) i ddeiliaid grantiau yn ystod 2007/08.


Ar 31 Mawrth 2008 roedd yr ymrwymiadau a oedd yn parhau i'w gwneud yn **£1,365 miliwn**.

## Sut ydym yn penderfynu ar faint i'w wario

Ein polisi yw gwneud cymaint o ymrwymiadau grant ag y gallwn ni, heb gymryd gormod o risgiau na fydd gennym yr arian i'w bodloni.

Mewn ymateb i'r hyn y mae'r sector gwirfoddol wedi dweud wrthym, rydym bellach yn dosbarthu grantiau am gyfnodau hwy – mae grantiau sy'n rhedeg am bum mlynedd bellach yn gyffredin. Ac wrth gwrs rydym yn ariannu gwaith cyfalaf sy'n cymryd sawl blwyddyn i'w hadeiladu.


Mae'r ffaith y bydd llawer o'n grantiau yn cael eu talu sawl blwyddyn ar ôl eu hymrwymo yn golygu y gallwn wneud ymrwymiadau ar gyfer arian nad oes gennym ar hyn o bryd. Ar 31 Mawrth 2008, roedd gennym £1,365 o ymrwymiadau ar ôl, ond dim ond £578 miliwn er mwyn eu bodloni: ymrwymiadau dros ben o £787 miliwn sydd gyfwerth â 17 mis o incwm yn y dyfodol.




Mae ein hincwm yn y dyfodol yn ansicr – nid oes unrhyw un yn gwybod faint o incwm y loteri a fydd yn y dyfodol. Felly rhaid i ni gymryd safbwynt gochelgar tuag ato. Mae DCMS yn cynhyrchu rhagamcaniadau o incwm yn y dyfodol ar sail y dybiaeth y bydd gwerthiannau tocynnau'r Loteri yn parhau ar eu lefel gyfredol i'r dyfodol – rydym yn galw hyn yr 'achos canolog' ac yn ei ddefnyddio ar gyfer ein cynllunio hirdymor o wariant tebygol yn y dyfodol. Dengys y siart isod sut y mae disgwyl i bethau weithio ar yr achos canolog.


# Adran pump

Mae'r ffigurau hyn cyn i ni gytuno ar unrhyw raglenni newydd y tu hwnt i 2009, felly disgwyliwn y bydd taliadau grant yn 2009/10 a 2010/11 yn uwch a'r balans yn is na'r hyn a ddangosir.




Ond ni allwn wneud ymrwymiadau grant ar y sail hon – pe bai ni'n gwneud hyn, a bod incwm y Loteri yn disgyn hwyrach na fyddem yn gallu bodloni ein holl ymrwymiadau pan fyddant yn ddyledus. Felly rydym yn cynhyrchu rhagamcaniad mwy gofalus sef yr hyn yr ydym yn ei alw'n 'achos 5 y cant' oherwydd rydym yn amcangyfrif bod ganddo tua 5 y cant o gyfle o ddigwydd mewn gwirionedd.

Yna rydym yn gwneud ymrwymiadau felly ar yr achos 5 y cant ni fyddai gennym falans ar y pwynt isaf yn y dyfodol. Yn yr achos annhebygol y byddai'n digwydd hwyrach na fyddem yn gallu bodloni ein holl ymrwymiadau, bydd cynllunio sawl blwyddyn ymlaen yn caniatáu i ni wneud newidiadau sy'n isafu unrhyw aflonyddwch i'n rhaglenni.



## Balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Ein balans CDdLG yw **£578 miliwn** ar 31 Mawrth 2008.


Y rheswm y mae gennym falans CDdLG yw, ym mwyafrif y blynyddoedd, bod incwm yn uwch mewn gwirionedd na'n rhagdybiaethau gochelgar, a chan hynny mae gennym beth arian ychwanegol. Rydym yn monitro hyn yn gyson, ac yn ymgymryd ag adolygiad llawn bob chwe mis. Yna mae ein Bwrdd yn addas ein cynlluniau cyllideb grant i sicrhau ein bod yn gwneud yr holl ymrwymiadau y gallwn eu gwneud yn ddiogel.

Mae hanes y Loteri yn dangos nad yw hyn yn bod yn or-ochelgar, rhwng 1998 a 2003 fe wnaeth yr union werthiannau tocynnau ddisgyn gan 17 y cant. Mae disgyniad yn y raddfa o'n rhagamcaniad o 5 y cant yn amlwg yn senario bosibl.

## Ein targedau gwariant rhaglen

Ein targed yw gwneud y gwerth uchaf o ymrwymiadau grant y gallwn ni. Yn anochel bydd hyn yn arwain at y balans yn bod mor isel ag sy'n ochelgar. Bydd y lefel yn amrywio yn ôl strwythur ein rhaglenni ar unrhyw bryd.

Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn gosod targed i'w balans CDdLG. Gan nad ydym yn rhoi incwm y Loteri, mae'n amhosibl i ni reoli'r balans yn y tymor byr. Rydym yn cyhoeddi cynlluniau ar sail yr achos canolog, ac yn esbonio'r amrywiadau bob blwyddyn.




Mae ein balans wedi disgyn yn gyflym dros amser wrth i'n rhaglenni aeddfedu. Mae balans wedi disgyn gan ymron i hanner er 2004.

Ar sail ein rhagamcaniadau cyfredol o incwm a thaliadau rydym yn rhagweld y bydd ein balans CDdLG yn ystod y tair blynedd nesaf fel a ganlyn:

- Erbyn 31 Mawrth 2009 – £418 miliwn
- Erbyn 31 Mawrth 2010 – £220 miliwn
- Erbyn 31 Mawrth 2011 – £190 miliwn

Mae'r rhagolygon hyn yn defnyddio rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan DCMS ac yn caniatáu ar gyfer effaith Loteri'r Gemau Olympaidd a throsglwyddo ariannu ychwanegol a gyhoeddwyd i gyfrannu at Gemau Olympaidd 2012 Llundain. Maent hefyd yn adlewyrchu gwariant ar raglenni cyfredol ac a gyhoeddir, ac amcangyfrifon ar wariant ar raglenni newydd y byddwn yn ymgynghori arnynt cyn lansio yn 2009/10 a'r tu hwnt.

Y llynedd fe wnaethom ragamcan y byddai ein balans CDdLG ar 31 Mawrth 2008 fyddai £480 miliwn. Y canlyniad terfynol oedd £578 miliwn. Mae taliadau grant wedi bod yn arafach na'r disgwyl yn enwedig ar raglenni gyda lefelau arwyddocaol o ddyfarniadau newydd lle fo'r dechrau wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac ar raglenni cyfalaf sy'n dibynnu ar dderbynyddion grantiau yn hawlio eu harian.

# Adran pump

## Ein costau gweithredu – Sut y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwario'n fwy effeithiol

Ein costau gweithredu, ac eithrio'r prosiect adolygiad strwythurol a chostau ailgodi ar sefydliadau eraill, oedd **£60 miliwn** (2006/07 £65 miliwn).

Mae nodyn 5 i'r cyfrifon blynyddol yn adrodd ar y dangosydd perfformiad ariannol. Mae'r costau gweithredu, ac eithrio Adolygiad Strwythurol a chostau a ailgodir ar sefydliadau eraill yn **9.1 y cant** o'r incwm a dderbynnir yn y flwyddyn ariannol (2006/07 10.2 y cant).

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn anelu at wariant cyn lleied â phosibl o'i incwm ar ei chostau ei hunan, yn gyson â chyflwyno ein hamcanion. Er nad ydym eisiau biwrocratiaeth ddianghenraid, rhaid i ni sicrhau ein bod yn ariannu yn hygyrch ac yn deg, yn cynnig gwasanaeth da i gwsmeriaid ac, yn bwysicach, rydym yn sicrhau bod y canlyniadau yr ydym yn eu ceisio yn cael eu cyflwyno.

Mae rhannau sylweddol ond costau gweithredu yn fwy nad dim ond 'gweinyddu' - mae ymgynghori gyda'n budd-ddeiliaid, cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grant yn eu gwaith a chynnal gwerthusiad ac ymchwil yn hanfodol i gyflwyno ein canlyniadau yn effeithiol. Felly nid ydym yn anelu at isafu'r costau hyn, yn hytrach na sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn gynyddol effeithiol a'u bod yn cynnig gwerth am arian.

Mae rhaglenni agored sy'n cyflwyno cyfeintiau mwy o grantiau bach yn ddrytach i'w cyflwyno na rhaglenni sy'n gwneud nifer fach o grantiau mawr i grŵp cyfyngedig o ymgeiswyr. Mae pa fath o raglenni yr ydym yn eu rhedeg yn cael ei yrru gan yr hyn sy'n cyflwyno'r canlyniadau orau, nid y gost o gyflwyno.


Yn gyffredinol, rydyn yn anelu at gadw ein costau dosbarthu'r Loteri yn is na 10 y cant o'n hincwm y Loteri yn ystod y tymor hwy. Mae costau yn codi a gostwng yn ystod cylch y rhaglen, a chan hynny o flwyddyn i flwyddyn, ac mae incwm y Loteri hefyd yn codi a gostwng y tu hwnt i'n rheolaeth, felly bydd y canran yn anochel yn codi a disgyn yn y tymor byr.

Dengys y tabl isod sut y mae'r costau wedi newid dros amser. Ac eithrio 2006/07, pan wnaethom wario costau dyblyg wrth adleoli swyddi o Lundain i Firmingham a Newcastle, mae'r gost o ddosbarthu grantiau'r Loteri wedi para'n weddol sefydlog. Mae hyn yn nhermau arian parod, gyda chwyddiant holl gostau talu ac eraill yn cael eu hamsugno.

Aethpwyd i gostau ychwanegol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf fel buddsoddiad i gyflawni arbedion yn y dyfodol – mae buddion hyn bellach yn dod i'r amlwg wrth i'n rhaglen uno ac adleoli yn agosáu at ei ddiwedd.

| £M | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 (Cyllideb) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm y Loteri | 696 | 735 | 739 | 642 | 660 | 653 |
| Costau a Adenillir o gyrff eraill | 5 | 7 | 8 | 3 | 5 | 4 |
| **Cyfanswm yr incwm** | 701 | 742 | 747 | 645 | 665 | 657 |
| Costau o ddosbarthu grantiau'r loteri | 61 | 60 | 56 | 66 | 60 | 55 |
| Buddsoddiad ar gyfer arbedion yn y dyfodol | - | 5 | 14 | 8 | (1) | 4 |
| Costau a wariwyd ar ran trydydd partïon | 5 | 7 | 8 | 3 | 5 | 4 |
| **Cyfanswm y costau gweithredu** | 66 | 72 | 78 | 77 | 64 | 63 |
| Costau o ddosbarthu grantiau Loteri fel % o incwm y Loteri | 8.8% | 8.2% | 7.6% | 10.3% | 9.1% | 8.4% |

Mae'r siart isod yn dangos sut y mae costau dosbarthu Loteri'r Gronfa Loteri Fawr wedi disgyn er 2003/04 o'i gymharu â'r hyn fyddai wedi digwydd pe bai wedi'u codi yn unol â chwyddiant.




## Ein targedau cost gweinyddu

Pan gyhoeddir uno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, dywedodd y Llywodraeth ei bod yn disgwyl i ni arbed rhwng 10 a 20 y cant o'r costau gweinyddu cyn uno. Serch hynny, byddai swm hwn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau newydd yr ydym yn cael ei gyfrif fel costau gweinyddu yn hytrach na grantiau.

Mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad yn erbyn y targed hwn.

| £M | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 (Cyllideb) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwaelodlin – costau dosbarthu grantiau'r loteri cyn uno** | **61** | | | | | |
| Costau dosbarthu grantiau'r loteri | 61 | 60 | 56 | 66 | 60 | 55 |
| Llai: symiau a ail-fuddsoddwyd mewn gweithgareddau newydd | | 3 | 3 | 4 | 5 | 5 |
| Costau net | 61 | 57 | 53 | 62 | 55 | 50 |
| Arbedion ar waelodlin | - | 4 | 8 | (1) | 6 | 11 |
| Arbedion fel % o'r waelodlin | 0% | 7% | 13% | (2%) | 10% | 18% |

Roedd ein gweithgareddau newydd yn cynnwys:

- Ehangu ar gynlluniau Arian i Bawb a chynnydd yng nghyfyngiad grant: £2 miliwn
- Datganoli i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: £1 miliwn
- A symiau llai gan gynnwys cydweithio newydd gyda dosbarthwyr eraill y loteri a gweithgareddau cyswllt y cyhoedd cynyddol.

# Adran pump

Rydym wedi cyflawni'r arbedion hyn trwy fuddsoddi symiau mawr o arian ac amser ers yr uno er mwyn cyflawni'r arbedion tymor hwy sydd bellach yn cael ei gyflwyno. Y buddsoddiadau ar gyfer arbedion yn y dyfodol yw:

| £M | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 (Cyllideb) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uno'r Gronfa Gymunedol a Chronfa Cyfleoedd Newydd | | 5 | | | | |
| Ailstrwythuro ac adleoli'r Gronfa Loteri Fawr | | | 14 | 8 | (1) | |
| Prosiect Ail-beiriannu Proses Busnes | | | | | | 4 |
| Cyfanswm | 0 | 5 | 14 | 8 | (1) | 4 |

Y prif arbedion yw:

- Uno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd: £3.5 miliwn yn sgil gostyngiad mewn staff rheoli a chyfnerthu'r brif swyddfa a swyddfa'r gwledydd a gyflawnwyd o 2005/06.
- Ailstrwythuro ac adleoli'r Gronfa Loteri Fawr: Fe wnaeth y prosiect hwn adleoli 350 o swyddi o Lundain i Firmingham a Newcastle gan arbed £3.8 miliwn yn 2008/09, sy'n fras yn gyfwerth ag arbedion ar gostau eiddo a chyflogau staff.
- Prosiect Ail-beiriannu Proses Busnes: Mae'r prosiect hwn yn anelu at symleiddio ein prosesau ymgeisio a rheoli grant yn radical, gyda'r rhan fwyaf o'r ceisiadau yn symud ar-lein. Amcangyfrif cyfanswm y costau yn £7.3 miliwn gydag arbedion blynyddol o £2.1 miliwn o 2010/11.

Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad gwerth am arian 'Marking grants efficiently in the culture, media and sport sector' ym mis Mai 2008, yn adolygu costau'r pedwar cyllidwr gan gynnwys y Gronfa Loteri Fawr, a hefyd yn eu cymharu â dau gyllidwr y sector gwirfoddol. Mae hyn yn dangos bod ein costau yn cymharu'n ffafriol gyda chyllidwyr y sector cyhoeddus, a lle fo modd eu cymharu â chyllidwyr y sector gwirfoddol.

## Sefyllfa ariannol

Rydym wedi gwneud diffyg ariannol ar gyfer y flwyddyn o **£490 miliwn** (2006/07 gwarged o £176 miliwn). Mae'r newid hwn mewn sefyllfa ariannol yn adlewyrchu'r lle ydym ni yng nghylch oes ein rhaglenni; yn symud tuag at flwyddyn ariannol portffolio 2005-09 o raglenni grant.

Mae'r diffyg ariannol yn cynyddu ein diffyg ariannol cronnus o flynyddoedd blaenorol a bellach mae gennym ddiffyg ar gronfeydd wrth gefn o **£774 miliwn**. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan ein Bwrdd a'i gadarnhau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ystyried gofyniad llif arian y dyfarniadau grant, y mae nifer ohonynt yn ariannu prosiectau tair i bum blwyddyn.

## Asedau sefydlog

Amlinellir y symudiadau mewn asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 9 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom fuddsoddi £0.7 miliwn mewn gwariant cyfalaf sy'n perthyn yn sylweddol i amnewid cyfarpar TG.

## Digwyddiadau ar ôl mantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sylweddol wedi bod sy'n cael effaith ariannol ar y cyfrifon blynyddol hyn rhwng 31 Mawrth 2008 a dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi, 15 Gorffennaf 2008.

## Archwilwyr

O dan y Ddeddf Loteri Genedlaethol 2006, rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr gael ei chyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n ymgymryd ag archwiliad allanol y Gronfa Loteri Fawr.



# Adran pump
## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu polisi'r Gronfa Loteri Fawr ar dâl cydnabyddiaeth i Gyfarwyddwyr ac aelodau'r Bwrdd y Gronfa. Dim ond adran o'r adroddiad tâl cydnabyddiaeth sy'n ymdrin â'r tâl cydnabyddiaeth a dderbyniwyd yn amodol ar archwiliad.

### Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, pwyllgor o'r Bwrdd, sy'n gosod y polisi tâl cydnabyddiaeth ar gyfer Uwch Dîm Reoli'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, Syr Clive Booth, yr Is-gadeirydd, Anna Southall, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau, Judith Donovan, ac un aelod arall o'r Bwrdd, John Gartside. Ar gais Cadeirydd y Bwrdd, gallai'r Prif Weithredwr, yr Is-gyfarwyddwr, Adnoddau Dynol neu Swyddogion eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu ar gyfer eitemau agenda dethol.

Cyfrifoldebau'r Pwyllgor yw

- cytuno ar delerau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a chyflog cysylltiedig y Prif Weithredwr
- cymeradwyo'r arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig ar gyfer Cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau datgysylltiad ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn amodol ar unrhyw gliriadau angenrheidiol gan DCMS/y Trysorlys.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y gofyn.

### Polisïau tâl cydnabyddiaeth uwch staff

Mae'r polisi tâl cydnabyddiaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli wedi'i chynllunio i gynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi i'r Gronfa Loteri Fawr ddenu, cadw a chymell unigolion o ansawdd uchel sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r Gronfa Loteri Fawr. Wrth wneud hynny, mae'r polisi yn ceisio:

- rhoi tâl cydnabyddiaeth sy'n deg ar gyfer cyfrifoldeb a chyfraniad unigol, ac ar yr un pryd yn darparu elfen o dâl cysylltiedig â pherfformiad, a
- cydymffurfio gyda'r arweiniad cyflog blynyddol a gyhoeddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Ymgymerir ag adolygiad bob yn ail flwyddyn o'r data marchnad perthnasol er mwyn asesu perthnasedd ystodau cyflog yr uwch staff.

### Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Dîm Rheoli

Amlinellir tâl cydnabyddiaeth yr uwch staff yn eu contractau cyflogaeth unigol. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn amodol ar delerau ac amodau cyflogaeth y Gronfa Loteri Fawr gan gynnwys cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Ar 1 Chwefror 2008 fe ymddeolodd Stephen Dunmore fel Prif Weithredwr gyda dyddiad effeithiol o 31 Mawrth 2008. Trwy gytundeb ar y cyd fe wnaeth Stephen Dunmore roi heibio ei hawl cytundebol i'r cyfnod rhybudd llawn o chwe mis. Ni dderbyniodd Stephen unrhyw daliadau digontract o ganlyniad i'w ymadawiad.

Roedd contract Stephen Dunmore yn caniatáu ar gyfer bonws perfformiad o hyd at 20 y cant o'i gyflog blynyddol. Gellid cydgrynhoi hyd at bump y cant o unrhyw fonws o'r fath at ddibenion pensiwn, gydag unrhyw balans o ddyfarniad yn cael ei dalu fel bonws heb ei gydgrynhoi.

Penodwyd Peter Wanless fel Prif Weithredwr yn effeithiol o ddyddiad gadael Stephen Dunmore. Mae contract Peter Wanless yn caniatáu ar gyfer rhybudd o un mis yn ystod y chwe mis cyntaf, ac ar ôl hynny bydd cyfnod rhybudd o chwe mis.

Mae contract Peter Wanless yn caniatáu ar gyfer taliad dilyniant yn dibynnu ar berfformiad ar gyfer y ddwy flynedd penodiad cyntaf. Mae'r taliad hwn wedi'i gydgrynhoi at ddibenion pensiwn. Gellir hefyd dyfarnu bonws perfformiad heb ei gydgrynhoi ychwanegol sydd, o'i ystyried gyda'r taliad dilyniant, o fewn 20 y cant i'r cyflog blynyddol. Y tu hwnt i'r ddwy flynedd gyntaf mae contract y Prif Weithredwr yn caniatáu ar gyfer bonws perfformiad o hyd at 20 y cant o'r cyflog blynyddol. Mae hyd at ddau y cant o'r bonws hwn wedi'i gydgrynhoi at ddibenion pensiwn a thelir balans unrhyw ddyfarniad fel bonws heb ei gydgrynhoi, er mwyn cydymffurfio gydag arweiniad diweddar gan Drysorlys ei Mawrhydi yn ymwneud â phenodi Prif Weithredwyr.

Mae cyfarwyddwyr yn derbyn dyfarniad cyflog blynyddol wedi'i gydgrynhoi ar yr un lefel a drafodir ar gyfer staff y Gronfa Loteri Fawr a bonws perfformiad heb ei gydgrynhoi o hyd at wyth y cant o'u cyflog blynyddol.

Roedd cyfanswm hawliad cyflog a phensiwn uwch reolwyr y Gronfa Loteri Fawr fel yr amlinellir yn y tabl isod. Ni thalwyd unrhyw fuddion nad yw'n arian yn ystod y flwyddyn.

| *Ffigurau cymharu 2006/07 mewn bracedi* | **Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 £'000** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2008 £'000** | **Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) £'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV sy'n daladwy gan y cyflogwr £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Peter Wanless (Prif Weithredwr) o 1 Chwefror 2008 | 20 - 25 | 0 - 2.5 plus 2.5 - 5 lump sum | 30 - 35 plus 90 - 95 lump sum | 483 (455) | 13 |
| Stephen Dunmore (Prif Weithredwr) hyd at 31 Ionawr 2008[8] | 160 - 165 (140 - 145) | 2.5 - 5 plus 10 - 12.5 lump sum | 60 - 65 plus 190 - 195 lump sum | 1,591 (1,335) | 73 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) | 100 - 105 (95 - 100) | 0 - 2.5 | 5 - 10 | 95 (62) | 20 |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) | 85 - 90 (80 - 85) | 0 - 2.5 plus 0 - 2.5 lump sum | 15 - 20 plus 0 - 5 lump sum | 187 (147) | 10 |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr, yr Alban) | 85 - 90 (80 - 85) | 0 - 2.5 plus 2.5 - 5 lump sum | 5 - 10 plus 25 - 30 lump sum | 130 (99) | 12 |
| Adrienne Kelbie (Cyfarwyddwr Gweithrediadau) | 100 - 105 (100 - 105) | 0 - 2.5 plus 2.5 - 5 lump sum | 15 - 20 plus 45 - 50 lump sum | 210 (167) | 11 |
| Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr Polisi a Phartneriaethau) | 100 - 105 (100 - 105) | 0 - 2.5 plus 0 - 2.5 lump sum | 35 - 40 plus 115 - 120 lump sum | 900 (783) | 10 |
| Linda Quinn (Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata) o 8 Ionawr 2007 | 75 - 80 (15 - 20) | 0 - 2.5 plus 5 - 7.5 lump sum | 15 - 20 plus 55 - 60 lump sum | 456 (359) | 50 |
| Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 80 - 85 (80 - 85) | 0 - 2.5 plus 2.5 - 5 lump sum | 10 - 15 plus 30 - 35 lump sum | 266 (212) | 22 |

[8]Cyflogwyd Stephen Dunmore gan y Gronfa Loteri Fawr hyd at 31 Mawrth 2008

# Adran pump

Darperir buddion pensiwn trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gwneir datgeliadau pensiwn pellach yn nodyn 21. Mae colofn 4 y tabl uchod yn dangos gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV) cronedig ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a wnaed gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod. Mae Colofn 5 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariannwyd yn effeithiol gan y cyflogwr.

Y CETV yw gwerth cyfalafu a aseswyd yn actiwarïaid o'r buddion cynllun pensiwn cronedig gan aelod ar bwynt penodol mewn amser.

## Polisi tâl cydnabyddiaeth aelodau'r bwrdd

Mae'r swydd Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr yn benodiad rhan amser, deuddydd yr wythnos. Ar ôl dechrau'r Ddeddf Loteri Genedlaethol 2006, o 1 Rhagfyr 2006 daeth swyddi cadeiryddion pwyllgor y pedair gwlad i rym. Mae cadeiryddion pwyllgor y gwledydd yn benodiadau rhan amser, wyth diwrnod y mis. Mae'r Cadeirydd a'r cadeiryddion pwyllgor y gwledydd yn cael eu penodi, a'u tâl cydnabyddiaeth yn cael ei bennu, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Amlinellir isod y tâl cydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y Cadeirydd a chadeiryddion pwyllgor y gwledydd. Nid ydynt yn derbyn unrhyw gyfraniadau at bensiwn.

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £** | **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £** |
|---|---|---|
| Syr Clive Booth, Cadeirydd Bwrdd y DU | 38,001 | 37,557 |
| Sanjay Dighe, Cadeirydd Pwyllgor Lloegr ac aelod Bwrdd y DU (o 1 Rhagfyr 2006) | 24,158 | 8,000 |
| Breidge Gadd, Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon ac aelod Bwrdd y DU | 24,158 | 8,000 |
| Alison Magee, Cadeirydd Pwyllgor yr Alban ac aelod Bwrdd y DU | 24,158 | 8,000 |
| Huw Vaughan Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Cymru ac aelod Bwrdd y DU (o 1 Rhagfyr 2006) | 24,158 | 8,000 |

Mae holl aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwlad am gyfnod penodol. Mae gan aelodau Bwrdd yr hawl i dderbyn tâl cydnabyddiaeth am yr amser a dreuliwyd ganddynt ar weithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r gweithgareddau hyn, y mae aelodau'r Bwrdd yn gallu hawlio ffi ddyddiol o £209 (2006/07 £208), sy'n cynnwys cyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa Loteri Fawr yn bennaf. Mae'r gyfradd ddyddiol yn ôl yr hyn a gynghorir gan DCMS bob blwyddyn. Ni wnaeth yr un Aelod Bwrdd dderbyn cyfraniadau at bensiwn.

Mae gan aelodau pwyllgor y gwledydd hefyd â'r hawl i dâl cydnabyddiaeth ar y gyfradd ddyddiol hon.

Cyfanswm y tâl a delir i'r Bwrdd ac aelodau pwyllgor y gwledydd hyd at 31 Mawrth 2008 oedd £211,800 (2006/07 £156,700) fel yr amlinellir isod.

| Aelodau Bwrdd y DU | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| Judith Donovan | 9.7 | 3.4 |
| Roland Doven | 12.3 | 7.1 |
| Breidge Gadd hyd at 31 Tachwedd 2006, yna penodi yn gadeirydd ar bwyllgor gwlad Gogledd Iwerddon | - | 9.6 |
| John Gartside, hefyd yn aelod o bwyllgor gwlad Lloegr | 23.1 | 16.3 |
| Esther O'Callaghan | 3.8 | 8.9 |
| Anna Southall (Is-gadeirydd o 1 Rhagfyr 2006) | 16.7 | 11.9 |
| Albert Tucker o 1 Rhagfyr 2006 hefyd yn aelod o bwyllgor gwlad Lloegr | 11.5 | - |

| Aelodau Bwrdd y DU | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| Hugh Vaughan Thomas hyd at 30 Tachwedd 2006, yna penodwyd yn gadeirydd Cymru pwyllgor gwlad Cymru | - | 5.9 |
| Diana Whitworth | 10.5 | 13.0 |
| Dr Samuel Burnside hyd at 30 Tachwedd 2006 | - | 6.2 |
| David Campbell hyd at 30 Tachwedd 2006 | - | 10.0 |
| Paul Cavanagh hyd at 30 Tachwedd 2006, yna'n aelod o bwyllgor sir Gogledd Iwerddon | - | 15.2 |
| Tom Davies hyd at 30 Tachwedd 2006, yna'n aelod o bwyllgor gwlad Cymru | - | 4.5 |
| Douglas Graham hyd at 30 Tachwedd 2006 | - | 6.9 |
| Taha Idris hyd at 30 Tachwedd 2006 | - | 9.0 |
| Dugald Mackie at 30 Tachwedd 2006 | - | 10.3 |
| Y Fonesig Valerie Stachan (Is-gadeirydd) hyd at 30 Tachwedd 2006 | - | 13.5 |

# Adran pump

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| **Aelodau Bwrdd gwlad Lloegr** | | |
| Dr Mohammed Amran o 30 Ionawr 2007 | 11.2 | - |
| Dr Alan Billings o 30 Ionawr 2007 | 11.7 | - |
| Sue Charteris o 30 Ionawr 2007 | 4.8 | - |
| Margaret Hyde o 30 Ionawr 2007 | 4.9 | - |
| Lydia Thomas o 30 Ionawr 2007 | 2.9 | - |
| Nalini Varma o 30 Ionawr 2007 | 10.1 | - |
| Geoffrey Wilkinson o 30 Ionawr 2007 | 6.9 | - |

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| **Aelodau Bwrdd gwlad yr Alban** | | |
| Tim Allen o 9 Mawrth 2007 | 2.0 | - |
| Elizabeth Cameron o 9 Mawrth 2007 | 4.2 | - |
| Helen Forsyth o 9 Mawrth 2007 | 5.0 | - |
| David Green o 9 Mawrth 2007 | 5.5 | - |
| Alistair Grimes o 9 Mawrth 2007 | 5.9 | - |
| Kristofer McGhee o 10 Rhagfyr 2007 | 2.2 | - |
| Maureen McGinn o 9 Mawrth 2007 | 4.8 | - |
| Lucy McTernan o 9 Mawrth 2007 | 4.6 | - |
| Shirley Young o 10 Rhagfyr 2007 | 1.2 | - |

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| **Aelodau Bwrdd gwlad Cymru** | | |
| Graham Benfield o 8 Chwefror 2007 | 0.9 | - |
| Tom Davis o 8 Chwefror 2007 hyd at 30 Tachwedd 2007 | - | - |
| Gareth Newton o 26 Chwefror 2008 | - | - |
| Janet Reed o 8 Chwefror 2007 | 5.1 | - |
| Mike Theodoulou o 8 Chwefror 2007 | 4.7 | - |
| Barbara Wilding o 8 Chwefror 2007 | 1.9 | - |
| **Aelodau Bwrdd gwlad Gogledd Iwerddon** | | |
| Paul Cavanagh o 11 Ionawr 2007 | 11.5 | - |
| Siobhan Craig o 11 Ionawr 2007 | 1.8 | - |
| Claire Keatinge o 11 Ionawr 2007 | 4.7 | - |
| Peter Osborne o 11 Ionawr 2007 | 5.7 | - |

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £ |
|---|---|---|
| **Cyn Gomisiynwyr Comisiwn y Mileniwm** | | |
| Floella Benjamin o 30 Tachwedd 2006 | - | 0.7 |
| Dr Heather Couper o 30 Tachwedd 2006 | - | 0.1 |
| Matthew d'Ancona o 30 Tachwedd 2006 | - | - |
| Judith Donovan o 30 Tachwedd 2006 | - | 3.9 |
| The Lord Glentoran o 30 Tachwedd 2006 | - | 0.3 |

**Peter Wanless**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
11 Gorffennaf 2008

# Adran chwech

Datganiadau ariannol

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfrifon blynyddol sy'n cynnwys datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo; datganiad rheolaeth fewnol; y dystysgrif archwilio; a'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo

O dan Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'n ofynnol i'r Gronfa Loteri Fawr baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar y ffurf ac ar y sail a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratoir y datganiad o gyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddangos barn wir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ar ddiwedd y cyfnod a'i incwm a gwariant a llifoedd arian ar gyfer y cyfnod cyfrifo.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i aelodau'r Bwrdd:

- Arsylwi'r cyfarwyddyd cyfrifon gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Nodi a oes safonau cyfrifo perthnasol wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiadau perthnasol yn y cyfrifon blynyddol.
- Paratoi'r datganiad o gyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i weithredu.

Mae'r Swyddog Cyfrifo'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr fel y Swyddog Cyfrifo. Fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus a dros gadw cofnodion cywir, fel y nodir ym memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan y Trysorlys ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan Adran 26(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

Fel Swyddog Cyfrifo, hyd y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol y mae archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn anymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol fel Swyddog Cyfrifo i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sefydlu bod archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr, lle fo'n briodol, wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyol a deisyfiad a ddarparir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, hwyrach y bydd grwpiau eraill yn atebol ar gyfer elfennau penodol y rhaglenni.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi sefydlu'r cytundeb fframwaith a ganlyn:

Rhwng y Gronfa Loteri Fawr a'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd a gyda golwg ar y rhaglen Building Neughbourhood Nurseries yn Lloegr, sy'n amlinellu'r meysydd y mae'r Swyddog Cyfrifol yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd yn atebol amdanynt, sef:

- cefnogaeth y Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnal a Gofal Plant ar gyfer ariannu, gan gynnwys hyfywdra cyrff cymeradwy, a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr, a
- barn cynaladwyedd ar geisiadau sy'n cael eu hasesu'n ganolog gan yr Adran dros Addysg a Sgiliau.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi mynd i gynlluniau ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, er mwyn darparu ariannu ochr yn ochr â chyrff eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Loteri Fawr sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei ddyrannu gan y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu cymhwyso yn unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa Loteri Fawr; defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon ar arian y Loteri ar ddyrannir gan y Gronfa Loteri Fawr i'r rhaglen; bodloni ei hun bod y systemau a defnyddir ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben; a chytuno ar y mecanwaith dros ddyrannu costau gweinyddu'r rhaglen rhwng dosbarthwyr y Loteri sy'n cyfranogi.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cyfranogi yn y cynlluniau ar y cyd isod:

- Arian i Bawb, Lloegr; cynllun a weinyddir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran Arts Council England, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Gronfa Loteri Fawr a Sport England.
- Spaces for Sports and Arts, rhan o'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion; cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran Sport England, Arts Council England, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Active England, rhan o raglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion; cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Parks for People; cynllun wedi'i weinyddu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi defnyddio'r pwerau a ddarparwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a ganlyn i'r Partneriaid Dyfarnu. Mae'r cynnig grant rhwng y Gronfa Loteri Fawr a'r Partneriaid Dyfarnu yn amlinellu cyfrifoldeb y Prif Weithredwr er mwyn sicrhau bod y systemau a weithredir i weinyddu ceisiadau'r Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri yn cael ei ddosbarthu yn gyson ac yn gywir. Rwy'n cadw'r cyfrifoldeb dros ddiogelu arian y cyhoedd yn gyffredinol a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr a dosbarth sicrhau bod Partneriaid Dyfarnu yn gweithredu o fewn ein telerau cytûn ac yn unol â'r cyfarwyddiadau ariannol a pholisi a roddir i mi.

Fel rhan o'r rhaglen Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy:

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cynllun Enfys.

Fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Cymunedau:

- Y Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaeth Natur – Ailgylchu Cymunedol a Datblygiad Economaidd.
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Cleanstream Recycling Fund – Trawsnewid Gwasanaeth yng Nghymru.
- Business in the Community (Gogledd Iwerddon) – Community Resource Consortium.

Fel rhan o'r cyfleoedd newydd ar gyfer rhaglenni iechyd:

- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhwydweithiau Cymorth Methiant y Galon,
- Sefydliad Prydeinig y Galon – Rhaglen Adsefydlu Cardiaidd.

Fel rhan o'r rhaglen cyfleoedd newydd ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion:

- The Sports Council for Northern Ireland – Community Sport.

Fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc:

- UnLtd – Big Boost.
- Youthnet – BIG Deal.

Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cefn Gwlad:

- Carnegie Institute.

Fel rhan o'r rhaglen Changing Spaces:

- Y Gymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaeth Natur – Bwyd Lleol
- Buuilding Research Establishment Ltd – y rhaglen Community Sustainable Energy
- Groundwork Trust – Community Spaces
- Natural England – Access to Nature.

**Peter Wanless**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
11 Gorffennaf 2008

# Adran chwech
## Datganiad ar reolaeth fewnol

### Cwmpas y cyfrifoldeb
Fel Swyddog Cyfrifol, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni nodau ac amcanion y Gronfa Loteri Fawr wrth ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â chyfrifoldebau a neilltuwyd trwy Reoli Arian Cyhoeddus; a sicrhau cydymffurfiad gyda gofynion Datganiad Rheoli, Cyfeiriadau Polisi, Cyfeiriadau Ariannol a Datganiad o Ofynion Ariannol y Gronfa Loteri Fawr.

### Diben y system rheolaeth fewnol
Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar yr holl risgiau o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gan hynny dim ond sicrwydd rhesymol ac nid llwyr o effeithlonrwydd y gellir ei roi. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Loteri Fawr, er mwyn gwerthuso tebygoliaeth y risgiau hynny yn cael eu gwireddu a'r effaith pe bai hwy'n cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i sefydlu trwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

Mae prif elfennau fframwaith reoli'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u hamlinellu isod.

### Amgylchedd rheoli
- Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwarae wedi fy nynodi i, Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr, fel Swyddog Cyfrifo. Mae gennyf lythyr penodi ar wahân i'r diben hwn sy'n amlinellu'n glir fy nghyfrifoldeb a fy atebolrwydd ar gyfer cynnal system gadarn ar reolaeth fewnol o fewn y Gronfa Loteri Fawr.
- Bydd Uwch Dîm Rheoli gyda chylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig, sy'n cwrdd o leiaf bob mis i ystyried cynlluniau a gweithgareddau'r Gronfa Loteri Fawr a chydymffurfiad gyda'r Datganiad Rheolaeth.
- Bwrdd sy'n cwrdd bob deufis er mwyn ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac aelodau anweithredol ac mae aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ei fynychu.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, y mae eu cylch gorchwyl yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, er mwyn cefnogi'r gofrestr risgiau ac i graffu canlyniad yr adroddiadau trwy archwiliad mewnol ac allanol. Mae gan y Pwyllgor Archwilio ddau aelod allanol. Mae cadeirydd y pwyllgor yn adrodd wrth y Bwrdd ar faterion a drafodir gan y pwyllgor.
- Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y mae ei gylch gorchwyl yn cynnig mewnwelediad a chymeradwyaeth a pherfformiad uwch aelodau o staff gan gynnwys fy hun.
- Y Pwyllgor Adnoddau, y mae eu cylch gorchwyl yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo'r gyllideb flynyddol ac i dderbyn adroddiadau ariannol rheolaidd er mwyn herio a goruchwylio gwariant.
- Cynllun corfforaethol cyhoeddedig sy'n amlinellu ein hamcanion a'n mesurau perfformio.

- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol at yr Uwch Dîm Rheoli yn adrodd ar gynnydd wrth gyflawni amcanion corfforaethol, perfformiad a thargedau cyflwyno gwasanaeth. Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau hyn fel y nodir yn adran 4 yr Adroddiad Blynyddol. Os nad yw targedau wedi'u bodloni, mae camau gweithredu'n cael eu hadnabod er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Adroddiadau crynhoi ariannol misol at yr Uwch Dîm Rheoli ac adroddiadau chwarterol at y Pwyllgor Adnoddau, yn adrodd cynnydd yn erbyn targedau ariannol, gan gynnwys cyllidebau ymrwymiad grant, targedau balans CDdLG a chyllidebau costau gweithredu.
- Polisi twyll, lle fo twyll a ddrwgdybir uwchlaw £10,000 yn cael eu hadrodd wrth DCMS ac ymdrinnir â hwy trwy gyswllt gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill fel sy'n briodol. Mae nifer o achosion dan ymchwiliad ar hyn o bryd. Trwyddi draw'r ymchwiliad, pa un a oes twyll yn cael ei brofi ai peidio, rydym yn adolygu gweithrediadau a phrosesau i ddysgu gwersi a gwella systemau rheolaeth fewnol, atal twyll ac adnabod twyll yn ôl yr angen.
- Ystod eang o bolisïau yn ymdrin â materion rheoli ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol, rheoli prosiect, iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygu, technoleg gwybodaeth a rheoli risg.
- Mae ystod eang o reolaethau i sicrhau bod y gweithgaredd asesu a monitro grant yn cael ei reoli'n ddigonol a bod colledion grant y Loteri yn cael eu hisafu. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer asesiad grant a thasgau rheoli grant, sydd wedi'u diffinio gan dasgau goruchwylio rheolaeth, dirprwyaethau clir ar gyfer gwneud penderfyniad a rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll.
- Fframwaith rheoli prosiect, gyda chyfrifoldebau diffiniedig, gan gynnwys noddwr prosiect, ar gyfer datblygu rhaglenni newydd.
- Proses gyfathrebu fewnol sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu ynghylch penderfyniadau allweddol yn amserol trwy gyfrwng priodol, gan gynnwys defnyddio negeseuon e-bost gan y Prif Weithredwr, briffiau wedi'u rhaeadru gan reolwyr llinell a chynrychiolaethau gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.
- Strategaeth gyfathrebu allanol sy'n sicrhau bod budd-ddeiliaid, Seneddwyr, y cyfryngau ac aelodau'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth briodol a dibynadwy.
- Uned Archwilio Fewnol sy'n gweithredu i safonau a ddiffinnir yn llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, Mae gwaith yr uned archwilio fewnol wedi'i hysbysu gan y gofrestr risg corfforaethol ac asesiad o ofynion sicrwydd a'r risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r Gronfa Loteri Fawr ac yn rhoi pwyslais ar y prosesau a'r systemau beunyddiol allweddol sydd wedi'u sefydlu o fewn y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r cynllun archwilio mewnol blynyddol wedi'i seilio ar y dadansoddiad hwn; mae wedi'i gymeradwyo gennyf i ac wedi'i gefnogi gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cwrdd â mi'n rheolaidd ac yn cynnig adroddiadau cynnydd rheolaidd gan gynnwys canfyddiadau'r adolygiadau dilynol yn adeiladu at adroddiad blynyddol ar weithgaredd archwilio mewnol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys ei farn ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y systemau y mae archwiliad mewnol wedi'u hadolygu.
- Mae Pennaeth Archwiliad Mewnol hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg heb unrhyw swyddogion yn bresennol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r adroddiadau cynnydd rheolaidd a'r adroddiad sicrwydd blynyddol.

# Adran chwech

## Rheoli risg

### Y gallu i ddelio â risg

Ar ddechrau'r flwyddyn ac yn ystod 2007/08, fe wnaeth yr Uwch Dîm Rheoli ystyried a diweddaru'n ffurfiol eu dogfennau o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Mae canlyniad yr adolygiadau hyn wedi'u trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg i geisio eu cytundeb ar y gofrestr risg corfforaethol a'r diffiniadau asesu risg diwygiedig a'r awch am risg. Mae'r adolygiadau hyn yn sicrhau bod y gofrestr rigiau a'n hymatebion yn berthnasol.

Mae egwyddorion rheoli risg, gan gynnwys ystyriaeth o risgiau ac argymhellion ar gyfer lliniaru priodol, hefyd yn rhan annatod o'n asesiad grant, rheolaeth grant gweithdrefnau datblygu rhaglen a rheoli prosiect newydd.

Mae pob cyfarwyddwr yn gyfrifol am gynnal adolygiadau rheolaidd o risgiau o fewn eu Cyfarwyddiaeth. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli yn canolbwyntio ar feysydd lle fo angen camau gweithredu brys.

### Fframwaith risg a rheolaeth

Roedd y gofrestr risg y cytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio Risg ym mis Gorffennaf 2007 yn tynnu sylw at 12 o risgiau corfforaethol. Yn ystod y flwyddyn adnabuwyd dau risg corfforaethol pellach. Mae effaith bosibl pob risg a thebygoliaeth o'i fod yn cael ei wireddu wedi'u hasesu, ein harchwaeth ar gyfer pob risg wedi'i adnabod a rheolaethau sydd wedi'u sefydlu er mwyn lliniaru'r risgiau hyn wedi'u hadnabod a'u dichonolrwydd wedi'u pennu. Mae'r camau hyn wedi'u cofnodi yn y gofrestr risg corfforaethol. Fel y nodir uchod, mae hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n chwarterol.

Yn ychwanegol, mae rheolaeth risg wedi'i hadeiladu i mewn i'n prosesau cynllunio busnes fel a ganlyn:

- Mae'r fframwaith datblygu rhaglen sy'n cefnogi datblygu'r holl raglenni grant newydd, yn gofyn am asesiad o'r risgiau allweddol ar gyfer pob rhaglen newydd, a oedd yn eu tro yn cael eu hadrodd wrth y bwrdd Rhaglen Grantiau. Yn fisol, adroddwyd ar grynodeb o'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r portffolio o raglenni grant newydd wrth yr Uwch Dîm Rheoli.
- Cedwir at broses debyg o ran prosiectau datblygu busnes.
- Mae gweithdrefnau asesu grantiau a rheoli grantiau yn amlinellu'r gofyniad ar gyfer pob grant a fydd yn derbyn cyfradd risg, sy'n hysbysu lefel yr ymyrraeth yn ystod rheoli'r grant.

Yn ystod y cyfnod hyd yma mae'r blaenoriaethau risg wedi cynnwys:

- Llywodraethu risg, adnabod cyfnod settling down y strwythurau llywodraethu newydd a'r trefniadau datganoledig.
- Risg gwleidyddol ac yn benodol methiant i ymateb i fap gwleidyddol newidiol.
- Risgiau cyfathrebu, yn ymwneud â methiant i gyfathrebu gyda'n cyd-destun a'n cyfyngiadau yn effeithiol a methiant i reoli galw am ariannu.
- Risg dosbarthu grant, gan gynnwys methiant i gyflwyno canlyniadau, rheoli galw neu gyflawni targedau trwy a) gallu sefydliadau annigonol i gyflwyno; b) cynllun rhaglen gwael; a c) methiant i ymateb i werthuso ac ymchwil.
- Risgiau datblygu systemau, gan gynnwys methiant prosiect ail-beiriannu proses busnes i gyflwyno'r buddion disgwyliedig i'r busnes.
- Risg cyfreithiol a rheoleiddio, gan gynnwys cydymffurfio gyda'n deddfwriaeth newydd a chydymffurfiad cyffredinol gyda'r ddeddfwriaeth gyfredol.
- Risgiau ariannu nad yw'n arian y loteri, gan gynnwys methiant i gyflwyno ymdriniaeth gorfforaethol.
- Risg enw da, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau gweinidogol a chyhoeddus ynghylch ein penderfyniadau ariannu.
- Risgiau nas rhagwelwyd, gan gynnwys methiant systemau ac aflonyddwch busnes.

- Methiant i gyflawni trawsnewidiad effeithiol i Brif Weithredwr newydd,
- Risgiau ariannol, disgyniad yn incwm yn Loteri yn arwain at doriadau mewn cyllideb grant neu fethiant i fodloni'r holl ymrwymiadau grant.
- Risg twyll, gan gynnwys colli hyder yn ein systemau.

## Adolygu effeithlonrwydd rheolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithlonrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad wedi'i hysbysu gan 1) gwaith yr archwilwyr mewnol gan gynnwys adroddiad sicrwydd blynyddol, adroddiadau cynnydd dros 'ro ac adolygiadau o argymhellion archwilio neilltuol, ii) y rheolwyr gweithredol o fewn y Gronfa Loteri Fawr sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a iii) sylwadau a wnaed yr archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli 2006/07 ac adroddiadau eraill.

Fe wnaeth yr adroddiad sicrwydd ysgrifenedig ar reolaethau mewnol y gwnes i ei dderbyn gan Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd cymedrol ar gynllun, digonolrwydd ac effeithlonrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gwendidau wedi'u canfod yn y cynllun a/neu gweithrediad rheolaethau ar draws sawl system ond nid oes yr un yn cael ei ystyried yn ddigon arwyddocaol i effeithio ar gyflawni amcanion sefydliadol. Nid oes unrhyw adroddiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn wedi adnabod rheolaethau annigonol. Yn ychwanegol mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi adrodd lle fo gwendidau rheoli arwyddocaol wedi'u hadnabod mae'n fodlon eu bod yn cael eu datrys mewn modd priodol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i mi ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan fy uwch dîm rheoli wrth weithredu argymhellion archwilio sy'n weddill ac mae wedi rhoi sicrwydd annibynnol i mi, ar sail sampl, bod camau gweithredu a adnabuwyd wedi'u gweithredu.

## Cydymffurfiad

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gweithredu gweithdrefnau ar draws y sefydliad i sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol yn cael eu dilyn.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cynnal Cofrestr o Ddiddordeb ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor a holl staff y Gronfa, sy'n agored i'r cyhoedd ei archwilio. Mae proses er mwyn delio â gwrthdrawiadau diddordeb wedi'u sefydlu ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor penderfyniadau ac mae gweithdrefnau'r bodoli er mwyn atat unrhyw aelod o staff rhag asesu ffurflen cais am grant gan sefydliad y maent yn gysylltiedig ag ef.

Mae colledion grant y Loteri wedi'u delio'n briodol a lle fo'n angenrheidiol wedi'u hysbysu wrth DCMS.

Yn fy marn i hyd yma mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud trefniadau digonol i sicrhau cydymffurfiad gyda gofynion ein Datganiad Rheoli, Polisi a Chyfarwyddiadau Ariannol. Rwy'n fodlon hefyd ein bod wedi sefydlu trefniadau ar gyfer adnabod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, gwrthdaro buddiannau a thwyll, er mwyn isafu ar golledion arian y Loteri.

**Peter Wanless**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
11 Gorffennaf 2008

# Adran chwech

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd-dai a Senedd yr Alban

Tystiaf drwy hyn fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthynol. Mae'r datganiadau hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifo a amlinellir o'u mewn.

### Cyfrifoldeb priodol y Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r archwiliwr

Mae'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd. Trysorlys ei Mawrhydi, ac er mwyn sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad y Bwrdd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth I'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a gyda Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon).

Rwy'n adrodd wrthych chi fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi safbwynt gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi yn gywir yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wneir ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwlad dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys ei Mawrhydi. Rwy'n adrodd wrthych os, yn fy marn i, bod y wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yn Adrannau 1, 2, 3 a5 yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson gyda'r datganiadau ariannol. Rwy'n adrodd hefyd pa un a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ym mhob agwedd sylweddol ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ychwanegol, rwy'n adrodd wrthych chi, os nad yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi cadw at gofnodion cyfrifo cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth a nodir gan Drysorlys ei Mawrhydi yn ymwneud â chydnabyddiaeth a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Rwy'n adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos bod y Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys ei Mawrhydi, ac rwy'n adrodd os nad ydyw. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried pa un a yw'r datganiad hwn yn ymdrin â'r holl risgiau a rheolaethau, neu'n ffurfio barn ar effeithlonrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Cyngor neu ei weithdrefnau risgiau a rheoli.

Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried a yw'n gyson gyda datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adran 3. Rwy'n ystyried goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau sylweddol gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn at unrhyw wybodaeth arall.

## Sail ein barn archwilio

Ymgymerais â'm harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac

Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, tystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol a wneir gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi datganiadau ariannol, ac ai dyma'r polisïau cyfrifo sy'n fwyaf priodol i amgylchiadau'r Gronfa Loteri Fawr, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Fe wnes i gynllunio a pherfformio fy archwiliad er mwyn sicrhau'r holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn i yn eu hystyried yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oedd y datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad a bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio.

## Barnau

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2009 a'i ddiffyg, cyfanswm yr enillion cydnabyddedig a cholledion a llifoedd arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys ei Mawrhydi;
- mae'r datganiadau ariannol a rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaed ar ôl hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys ei Mawrhydi; a
- mae'r wybodaeth yn Adrannau 1, 2, 4 a 5 yr Adroddiad Blynyddol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

## Barn Archwilio ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.


**T J Burr**

Y Rheolwr ac
Archwilydd Cyffredinol

15 Gorffennaf 2008

Swyddfa Archwilio Gwladol

151 Buckingham
Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SS

# Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008-12-17

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o'r Loteri Genedlaethol** | | | |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 11 | 601,181 | 603,099 |
| Incwm buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 48,661 | 29,675 |
| Enillion/(colled) heb ei wireddu ar fuddsoddiad | | 1,271 | (2,264) |
| Llog banc a dderbyniwyd | | 1,355 | 1,049 |
| Adfer grantiau | | 7,862 | 10,355 |
| | | 660,330 | 641,914 |
| **Incwm o ffynonellau eraill** | | | |
| Incwm arall | 2 | 4,645 | 3,385 |
| Cyfanswm yr incwm | | 664,975 | 645,299 |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant rhaglen** | | | |
| Yr ymrwymiadau grantiau a wnaed | 14 | 1,111,777 | 414,866 |
| Llai ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig | 14 | (41,402) | (43,049) |
| | | 1,070,375 | 371,817 |
| Gwaddol cenedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau | 20 | 15,000 | 15,000 |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi'r rhaglenni | 3 | 4,978 | 5,222 |
| | | 1,090,353 | 392,039 |
| **Costau gweinyddu** | | | |
| Costau gweinyddu dros ddosbarthu incwm y Loteri | 4 | 59,994 | 65,461 |
| Costau gweinyddu dros gyflwyno gwasanaethau ar ran trydydd partïon | 4 | 4,645 | 3,385 |
| Costau adolygiad strwythurol ac uno | 7 | (722) | 8,087 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddu** | | 63,917 | 76,933 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | 1,154,270 | 468,972 |
| (Diffyg)/gwarged cyn trethiant | | (489,295) | 176,327 |
| Trethiant | 8 | (411) | (254) |
| (Diffyg)/gwarged ar gyfer y cyfnod | | (489,706) | 176,073 |
| **Diffyg a gadwyd** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | | (284,681) | (460,754) |
| (Diffyg)/gwarged ar gyfer y cyfnod | | (489,706) | 176,073 |
| Diffyg a gadwyd ar 31 Mawrth 2008 | | (774,387) | (284,681) |

Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ac eithrio'r rhai uchod a chan hynny ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiad ar wahân o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u terfynu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 107 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 9 | 4,740 | 5,106 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 10 | 8,631 | 15,528 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 15,016 | 10,885 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 577,876 | 597,049 |
| | | 601,523 | 623,462 |
| **Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 12 | (8,305) | (7,711) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 14 | (640,926) | (559,234) |
| | | (649,231) | (566,945) |
| **Asedau/(cyfrifoldebau) cyfredol net** | | (47,708) | 56,517 |
| **Total assets less current liabilities** | | (42,968) | 61,623 |
| **Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 12 | (907) | (321) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 14 | (724,468) | (335,664) |
| | | (725,375) | (335,985) |
| **Darpariaethau cyfrifoldebau a thaliadau** | 13 | (6,044) | (10,319) |
| **Cyfanswm net y cyfrifoldebau** | | (774,387) | (284,681) |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |
| **Diffyg argadwedig** | | (774,387) | (284,681) |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 11 Gorffennaf 2008-12-17

**Peter Wanless**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 107 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Llif Arian hyd at 31 Mawrth 2008-12-17

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredol** | | | |
| Yr arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 670,286 | 808,372 |
| Adfer grantiau ac arian o ffynonellau eraill | | 8,195 | 10,023 |
| Incwm arall | | 1,479 | 5,296 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (28,990) | (39,340) |
| Taliadau i'r gweithwyr ac ar eu rhan | | (37,514) | (41,144) |
| Taliadau i'r derbynyddion grantiau | | (604,869) | (734,694) |
| Taliad i NESTA | | (15,000) | (15,000) |
| Arian a dalwyd ac a gadwyd gan drydydd partion | | 9,133 | 6,659 |
| **Llif arian net o weithredu gweithgareddau** | 18 | 3,732 | 172 |
| | | | |
| **Adroddiadau ar fuddsoddiadau a gwasanaethau cyllid** | | | |
| Llog banc a dderbyniwyd | | 1,391 | 1,010 |
| | | | |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i sicrhau asedau sefydlog diriaethol | | (666) | (2,134) |
| | | | |
| **Trethiant** | | | |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (326) | (235) |
| | | | |
| **Cynnydd yn yr arian parod** | | 4,131 | (1,187) |
| | | | |
| **Newid yn y cyllid yn sgil llif arian** | | | |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008 | | 15,016 | 10,885 |
| Llai balans arian a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | | (10,885) | (12,072) |
| **Symudiad** | | 4,131 | (1,187) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 91 i 107 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o'r polisïau cyfrifo

### 1.1 Confensiwn cyfrifo
Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn costau hanesyddol ac addasrwydd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu cost bresennol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 43D(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006).*

Mae Cyfarwyddiadau Cyfrifo'r Gronfa Loteri Fawr yn gofyn am gynnwys Asedau Sefydlog ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at gostau cyfredol. Ar gyfer 2006/07 nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn credu bod y gwerthoedd hyn yn sylweddol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir yn y Fantolen. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Archwilio o ran eu bod yn briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol
Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Aed i ymrwymiadau grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod y derbynyddion grantiau (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gan gynnwys trosglwyddo arian o Ddosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd. Wrth ystyried incwm y dyfodol mae'r Bwrdd wedi tybio fel mater o bolisi'r cyhoedd y bydd y Loteri yn parhau i weithredu. Maent hefyd yn tybio cynnal canran y Gronfa Loteri Fawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel yr amlinellir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel y'i diwygiwyd).

*Mae copi o'r Cyfarwyddiadau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 10 Ebrill 2007 ar gael o wneud cais ysgrifenedig amdanynt i'r Gronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain EC4A 1DE.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol
Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Fantolen, mae wedi'i ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â'r ymrwymiadau presennol a'r ymrwymiadau yn y dyfodol.

### 1.4 Asedau sefydlog
Mae'r asedau sefydlog yn cael eu cyfalafu yn y Fantolen ar sail cost, ac eithrio eitemau'n costio llai na £2,000, sy'n cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ym mlwyddyn y prynu.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Yn ystod oes y brydles (6 i 20 mlynedd) |
| Offer, dodrefn a ffitiadau Swyddfa | 3 blynedd |
| Offer TG | 3 blynedd |

### 1.5 Cronfa bensiwn
Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun manteision penodol heb ei gyllido gan sawl cyflogwr. Telir manteision pensiwn gan PCPS. Mae cyfrifoldebau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Actwari Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn.

### 1.6 Gweithredu prydlesau
Mae costau gweithredu prydlesau a gedwir gan y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu talu gan y Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Rhennir manteision y cyfnodau rhydd rhag rhent ar brydlesau dros y cyfnod hyd at yr adolygiad cyntaf o'r rhent ar sail llinell wastad.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1.7 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 yn darparu ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr er mwyn dosbarthu grantiau i gyllido neu helpu gyda chyllido prosiectau ac i wneud neu lunio trefniadau gyda'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel y nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Cynigion ac ymrwymiadau grantiau**

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan ei bod yn ofynnol gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiadau caled fel swm y grant sy'n daladwy dros gyfnod y cynllun y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cytundeb ysgrifenedig ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Daw'r ymrwymiadau caled o'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn y llofnodir y cytundeb ynddi. Dangosir yr ymrwymiadau caled ar y Fantolen fel credydwr, ac mae'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau gael eu rhyddhau i dderbynyddion y grantiau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Loteri Fawr i gyllido cynllun a chynnig grant a wneir i'r ymgeisydd, ond nid yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel nodyn i'r cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill**

Mae amodau grantiau'r Gronfa Loteri Fawr yn caniatáu adfer ac ad-dalu'r grantiau a dalwyd. Gall hyn ddeillio os yw'r deiliaid grant yn methu cydymffurfio gyda'r telerau ac amodau neu os yw'r union wariant gan ddeiliaid yn is na'r grant sydd wedi'i dalu ar sail amcangyfrif o'r costau. Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

**Gwariant uniongyrchol ar raglenni**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cofnodi fel gwariant uniongyrchol ar raglenni costau wrth gyflwyno yn uniongyrchol gwasanaethau i fuddiolwyr neu dderbynyddion grantiau yn unol â'i Gyfarwyddiadau Polisi Adran 43 er enghraifft darparu strwythurau cefnogi a sicrwydd ansawdd i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau er budd uniongyrchol y derbynyddion grantiau.

## 1.8 Rheoli grantiau

**Partneriaid dirprwyedig**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cytundebau gyda nifer o gyrff dirprwyol er mwyn ymgymryd â phrosesau rheoli grantiau penodol. Cofnodir y cyllid a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyol er mwyn talu ymrwymiadau caled fel dyledwyr hyd nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grantiau wedi'u bodloni.

**Cynlluniau ar y cyd**

Os yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi llunio cynllun ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau caled a wneir mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar sail cyfran y Gronfa Loteri Fawr yn y cynllun. Cofnodir y cyllid a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau caled fel dyledwyr hyd nes bod y Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grantiau wedi'u talu. Cynhwysir y costau gweinyddu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â'r swm a godir i'r Gronfa Loteri Fawr.

## 1.9 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw rhai asedau sy'n perthyn i drydydd parti fel ceidwad. Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balans banc o £2.2 miliwn a gedwir ar ran Dosbarthwyr eraill y Loteri i gyllido dyfarniadau a wneir o dan y cynlluniau Arian i Bawb a'r rhaglen grant Ffrynt Cartref yn Ôl; a Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd a'r Uned Hyrwyddiadau'r Loteri Genedlaethol er mwyn bodloni taliadau a brosesir gan y Gronfa Loteri Fawr o dan y cytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r rhain yn gyfrifon cydnabyddedig gan nad oes gan y Gronfa Loteri Fawr fudd uniongyrchol ynddynt.

## 2. Incwm arall

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm a adferwyd trwy gyflwyno arian nad yw'n arian y loteri | 1,055 | - |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 1,497 | 1,290 |
| Incwm rhent | 1,624 | 731 |
| Arall | 469 | 1,364 |
| | 4,645 | 3,385 |

## 3. Gwariant uniongyrchol i gefnogi'r rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion trydydd parti; dyfarniadau a wneir o dan gytundeb yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth ymgynghori a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr am grantiau a'u derbynyddion | 3,759 | 3,205 |
| Cyfraniad at gostau'r gofrestr Active Places sy'n cael ei llunio gan Sport England | - | 267 |
| Dyfarniad Miliynau'r Bobl | 1,028 | 700 |
| Dyfarniad Scottish Youth Football | 191 | 1,050 |
| | 4,978 | 5,222 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 4. Operating costs

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 |
|---|---|---|---|---|
| | Costau a dynnwyd wrth ddosbarthu incwm y Loteri £'000 | Costau a dynnwyd ar ran trydydd partïon £'000 | Cyfanswm y costau gweithredu £'000 | £'000 |
| Cydnabyddiaeth gweithwyr (nodyn 6) | 33,670 | 1,715 | 35,385 | 38,392 |
| Treuliau a chostau | | | | |
| – Staff | 1,576 | 43 | 1,619 | 1,644 |
| – Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor | 116 | - | 116 | 143 |
| Taliadau gweithredu prydlesau (eiddo) | 4,635 | 1,544 | 6,179 | 5,358 |
| Costau cyfathrebu | 3,298 | 171 | 3,469 | 3,234 |
| Costau isadeiledd TG | 3,293 | 221 | 3,514 | 4,058 |
| Costau Llety Prydles Anweithredol | 2,883 | 770 | 3,653 | 2,974 |
| Cymorth ar gyfer rhaglenni grant a ddarparwyd yn allanol | 2,844 | 1 | 2,845 | 3,876 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 2,139 | 70 | 2,209 | 1,316 |
| Gwerthuso rhaglen | 958 | - | 958 | 956 |
| Ffioedd proffesiynol | 927 | 42 | 969 | 1,422 |
| Dibrisiad | 887 | 12 | 899 | 814 |
| Prosiect ailbeiriannu Proses Busnes | 602 | - | 602 | 312 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio | 110 | - | 110 | 130 |
| Ysgrifennu asedau sefydlog i lawr | 133 | - | 133 | - |
| Costau eraill | 1,923 | 56 | 1,979 | 4,217 |
| Cyfanswm | 59,994 | 4,645 | 64,639 | 68,846 |

## 5. Dangosydd perfformiad ariannol

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn mesur ei chostau gweinyddu fel canran o'r incwm a dderbynnir gan y Loteri. Cyfrifir y dangosydd hwn ar sail net, hynny yw ac eithrio incwm a chostau sy'n perthyn i weithgareddau a godir ar gost lawn i ddosbarthwyr eraill. Mae'r costau gweithredu ac eithrio costau untro yn unig a chostau'r uno yn 9.1 y cant o'r incwm (2006/07 10.2 y cant).

## 6. Nifer a chostau staff

Roedd cyfanswm cyflogau'r staff, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a thaliadau | 26,508 | 27,688 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,165 | 2,275 |
| Costau pensiwn | 4,783 | 4,898 |
| Staff asiantaeth | 1,929 | 3,531 |
| | 35,385 | 38,392 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys £59,063 ar gyfer staff ar secondiad gyda sefydliadau eraill. Mae adenillion o £19,872 wedi'u cynnwys gydag incwm arall.

Mae cyflog a hawliad pensiwn uwch reolwyr ac Aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr wedi'u cynnwys uchod; datgelir y manylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Roedd cyfartaledd nifer y gweithwyr cyfwerth â llawn amser a staff dros dro yn gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer y staff dros dro ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) | Nifer y gweithwyr (cyfwerth ag amser llawn) | Cyfanswm nifer y staff ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) | Cyfanswm nifer y staff ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) |
| Dosbarthu grantiau | 67 | 569 | 636 | 699 |
| Cefnogaeth i gwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 5 | 188 | 193 | 186 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 14 | 178 | 192 | 218 |
| | 86 | 935 | 1,021 | 1,103 |

Ar 31 Mawrth 2008 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflogi 909 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (2007 984).

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 7. Adolygiad strwythurol/uno

Y costau uno yn ystod cymathu Comisiwn y Mileniwm:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cytuno ar delerau ac amodau | - | 128 |
| | - | 128 |

Mae'r Adolygiad Strwythurol, rhaglen fawr o weithgareddau i ailstrwythuro ac adleoli gweithgareddau dosbarthu grantiau a swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol yn Lloegr, wedi tynnu ar y costau isod yn ystod 2007/08:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 818 | 3,191 |
| Costau recriwtio a chynefino | - | 521 |
| Rhesymoli eiddo | 126 | 3,978 |
| Rhyddhau darpariaeth eiddo nad yw'n ofynnol rhagor (nodyn 13) | (1,666) | - |
| Rheoli prosiect | - | 222 |
| Arall | - | 47 |
| | (722) | 7,959 |

## 8. Treth gorfforaethol

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn talu treth gorfforaethol ar log banc a dderbynnir. Y dreth sy'n daladwy yw £410,914 (2006/07 £254,000). Nid yw arian sy'n cael ei gadw a'i fuddsoddi gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Loteri Fawr yn drethadwy.

## 9. Asedau sefydlog diriaethol

| | Gwelliannau prydlesol £'000 | TG £'000 | Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 6,860 | 1,409 | 211 | 8,480 |
| Ychwanegion | 41 | 625 | - | 666 |
| Gwerthiannau | (628) | - | (26) | (654) |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 6,273 | 2,034 | 185 | 8,492 |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 2,273 | 971 | 130 | 3,374 |
| Tâl am y flwyddyn | 483 | 387 | 29 | 899 |
| Gwerthiannau | (495) | - | (26) | (521) |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 2,261 | 1,358 | 133 | 3,752 |
| **Costau net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 4,012 | 676 | 52 | 4,740 |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 4,587 | 438 | 81 | 5,106 |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydlesau byr lle fo'r brydles yn dod i ben o fewn 50 mlynedd.

## 10. Dyledwyr a rhagdaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu ymrwymiadau grantiau | 600 | 9,733 |
| Dyledwyr eraill | 4,284 | 2,295 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,747 | 3,500 |
| | 8,631 | 15,528 |

Mae'r isod wedi'u cynnwys yn y symiau uchod: £41,912 sy'n ddyledus gan 80 aelod o staff ar gyfer benthyciadau tocynnau tymor. Ni does unrhyw fenthyciad yn fwy na £5,000. Mae'r holl fenthyciadau am gyfnod o 12 mis ac yn daladwy trwy eu tynnu o'r cyflog.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

Mae'r Balans sy'n daladwy gan gyrff eraill y Llywodraeth fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth | 4,612 | 2,194 |
| Symiau sy'n ddyledus gan Awdurdodau Lleol | 304 | 754 |

## 11. Balans sy'n cael ei ddal gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Balans (gwerth y farchnad) ar 1 Ebrill 2007** | | 597,049 |
| Incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol | 601,181 | |
| Incwm buddsoddi a enillwyd | 48,661 | |
| Arian a dynnwyd i lawr | (670,286) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (20,444) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2008** | | 576,605 |
| Enillion buddsoddi heb ei wireddu | | 1,271 |
| **Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2008** | | 577,876 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn cyfran o'r arian a delir gan Camelot Group plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl didyniad costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth ddefnyddio ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 12. Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 10 | 1,481 |
| Credydwyr eraill | 1,478 | 1,763 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 6,478 | 4,213 |
| Treth gorfforaethol | 339 | 254 |
| | 8,305 | 7,711 |

Mae'r balans a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'i gynnwys yn y symiau uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth | 3,023 | 958 |
| Symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | 9 | 614 |

## Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr eraill | 907 | 321 |

## 13. Darpariaethau cyfrifoldebau a thaliadau

| | Taliadau prydlesau anochel £'000 | Cyfraniadau ymddeoliadau cynnar £'000 | Darpariaethau dileu swyddi £'000 | Cefnogaeth dileu swyddi £'000 | Cyfanswm y darpariaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | 4,757 | 2,373 | 2,896 | 293 | 10,319 |
| Codwyd gwariant yn ystod y flwyddyn | - | 60 | 1,009 | - | 1,069 |
| Dychwelyd at wariant yn y flwyddyn | (1,666) | - | - | (24) | (1,690) |
| Y taliadau a wnaed | (265) | (344) | (2,915) | (130) | (3,654) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008 | 2,826 | 2,089 | 990 | 139 | 6,044 |

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi is-osod rhan o'i eiddo Plough Place, Llundain. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godwyd i denantiaid y Gronfa Loteri Fawr a'r hynny y mae'r Gronfa dan gytundeb i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth yn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd log dybiedig o 3 y cant sy'n golygu y bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwireddu dros 15 mlynedd. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hadolygu ym mhob dyddiad adolygu rhent y brydles. Yn ychwanegol mae un llawer pellach o Plough Place yn wag ac mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi darparu ar gyfer colledion disgwyliedig ar yr eiddo hwn. Adnabu adolygiad o ddarpariaethau eiddo ar 31 Mawrth 2008 nad yw £1.7 miliwn bellach yn ofynnol.

Fel rhan o'r uno a hefyd fel rhan o'r adolygiad strwythurol mae rhai swyddi wedi'u hadnabod fel nad oes eu hangen bellach neu maent wedi'u hadleoli. O ganlyniad mae staff wedi'u gwneud yn ddi-waith neu wedi ymddeol yn gynnar.

- Lle bydd staff cymwys yn cymryd ymddeoliad cynnar mae'r Gronfa dan gytundeb i fodloni rhai cyfraniadau pensiwn hyd nes y bydd y staff hwn yn cyrraedd dyddiad ymddeol statudol. Darperir amcangyfrif o'r cyfraniadau hyn yn y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau i gael eu gwneud hyd at y ddeng mlynedd nesaf.
- Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau dileu swyddi amcangyfrifedig i'r staff hynny y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi bod yn ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2008 ond nad oes setliad wedi'i dalu erbyn y dyddiad hwnnw. Gwneir taliadau dileu swyddi yn unol â threfniadau a thelerau cytundebol a amlinellir yn nhrefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir y bydd mwyafrif y ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu yn ystod 2007/08.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 14. Ymrwymiadau caled

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | | 894,898 |
| Yr ymrwymiadau caled a wnaed | 1,111,777 | |
| Ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig | (41,402) | |
| Ymrwymiadau caled a fodlonwyd | (599,879) | |
| Ymrwymiadau caled mewn symudiad net | | 470,496 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008 | | 1,365,394 |

### Ymrwymiadau caled sy'n heneiddio

Mae balans yr ymrwymiad caled ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos y symiau dyledus i'r derbynyddion yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu o fewn blwyddyn | 640,926 | 559,234 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu mewn mwy na blwyddyn | 724,468 | 335,664 |
| | 1,365,394 | 894,898 |

Mae'r balansau a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y symiau uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 35,836 | 1,193 |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 424,678 | 210,639 |
| Grantiau a ymrwymwyd i sefydliadau gwasanaeth iechyd cenedlaethol | 85,125 | 22,265 |

## 15. Ymrwymiadau meddal

Mae ymrwymiadau meddal yn cynrychioli cynigion grant nad ydynt wedi'u derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig gan yr ymgeisydd. Gan hynny, nid yw'r cynigion hyn wedi'u cydnabod fel ymrwymiad ariannol o fewn y cyfrifon hyn.

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | | 49,669 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | 1,191,850 | |
| Ymrwymiadau meddal di-rym neu ddiddymedig | (6,240) | |
| Ymrwymiadau meddal sydd wedi trosglwyddo i ymrwymiadau caled | (1,111,777) | 73,833 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008 | | 123,502 |

## 16. Cynlluniau ar y cyd

Yn rhan o'r ymrwymiadau caled y mae £0 (2006/07 £178,000) o ymrwymiadau grantiau newydd a £0.3 miliwn (2006/07 £760,000) o ymrwymiadau grantiau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr i'r grantiau a waned fel rhan o'r cynllun ar y cyd Spaces for Sports and Arts. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu £25 miliwn i gyfanswm y cyllid o £130 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan Sport England ar ran holl aelodau'r cytundeb.

Yn rhan o'r ymrwymiadau caled y mae £0 (2006/07 £256,000) o ymrwymiadau grantiau newydd a £1.8 miliwn (2006/07 £20.5 miliwn) o ymrwymiadau grantiau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr i'r grantiau a wnaed fel rhan o'r cynllun ar y cyd Active England. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu £77.5 miliwn i gyfanswm y cyllid o £107 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan Sport England ar ran yr holl bartïon yn y cytundeb.

Yn rhan o'r ymrwymiadau caled y mae £38.3 miliwn (2006/07 £42.7 miliwn) o ymrwymiadau grantiau newydd a £2.2 miliwn (2006/07 £2.2 miliwn) o ymrwymiadau grantiau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr i'r cynllun ar y cyd Arian i Bawb, Lloegr. Yn ystod 2007/08 cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr £38.8 miliwn i gyfanswm y cyllid o £52.1 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran yr holl bartïon yn y cytundeb. Mae cyfrifon memorandwm ar gyfer cynllun ar y cyd Arian i Bawb, Lloegr ynghlwm wrth y cyfrifon hyn.

Yn rhan o'r ymrwymiadau caled y mae £4.4 miliwn (2006/07 £1.0 miliwn) o ymrwymiadau grantiau newydd a £4.5 miliwn (2006/07 £890,000) o ymrwymiadau grantiau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth gan gynrychioli cyfraniad y Gronfa Loteri Fawr i'r cynllun ar y cyd Parks for People. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyfrannu £80 miliwn i gyfanswm y cyllid disgwyliedig o £140 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon yn y cytundeb.

## 17. Cyfran Deg

Yn 2002/03, lluniodd y Gronfa Loteri Fawr gytundeb grant gyda'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol i weinyddu gwaddol treuliadwy i ddarparu cyllid ar gyfer bodloni amcanion y Cyfarwyddiadau Polisi Cyfran Deg. Ym mis Awst 2003, talodd y Gronfa £50 miliwn i'r Ymddiriedolaeth Cyfran Deg a sefydlwyd gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol.

Ar 31 Mawrth 2007 mae'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol wedi datgan bod balans yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg yn £41.9 miliwn a bod budd cyfalaf heb ei wireddu o £0.5 miliwn yn bodoli. Yn 2006/07 fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth dderbyn incwm buddsoddi o £2.0 miliwn a £7.9 miliwn wedi'i dynnu i lawr gan yr Ymddiriedolaeth i dalu am y grantiau a ddyfarnwyd. Mae cyfrifon archwiliedig yr Ymddiriedolaeth ar gael gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol, Arena House, 66 – 68 Pentonville Road, Llundain N1 9HS. Bydd cyfrifon hyd at y cyfnod 31 Mawrth 2008 ar gael yn yr Hydref.

## 18. Cysoni'r incwm a'r gwariant i'r mewnlif arian net o weithredu gweithgareddau

| | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000** | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000** |
|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged cyn treth | (489,295) | 176,327 |
| Dibrisiad asedau sefydlog | 899 | 814 |
| Colled ar werthu asedau sefydlog | 133 | - |
| Incwm llog | (1,355) | (1,049) |
| (Diffyg)/gwarged cyn treth wedi'i addas ar gyfer trafodion nad yw'n arian parod ac ariannu | (489,618) | 176,092 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 6,861 | 5,592 |
| Gostyngiad yn y balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 19,173 | 177,863 |
| Cynnydd mewn credydwyr | 1,095 | 1,183 |
| (Gostyngiad) mewn darpariaethau | (4,275) | (2,720) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant | 470,496 | (357,838) |
| **Mewnlif arian net o weithredu gweithgareddau** | 3,732 | 172 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 19. Risgiau ariannol

### Risgiau hylifedd

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008, daeth £601 miliwn (90 y cant) o incwm y Gronfa Loteri Fawr o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o adenillion buddsoddi o'r balans yr oedd Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ei dal, £50 miliwn (8 y cant), ac o log banc ac incwm arall, £13 miliwn (2 y cant).

Ar 31 Mawrth 2008, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr gyfrifoldebau net o £774 miliwn ac ymrwymiadau meddal o £124 miliwn. Er bod gan y Gronfa Loteri Fawr gyfrifoldebau net nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Loteri Fawr mewn perygl o wynebu risgiau hylifedd sylweddol gan na fydd llawer o'r ymrwymiadau yn cael eu talu hyd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Ni all deiliaid grantiau dynnu arian i lawr hyd nes iddynt brofi eu hangen i dderbyn y gyfran nesaf o'r arian grant sydd wedi'i ddyfarnu iddynt. Oherwydd y gwahaniaethau ariannu hyn rhwng y dyddiad mae'r deiliad grant yn derbyn y cynnig grant a'r dyddiadau y maent wedi galw'r arian i lawr, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn annog y Gronfa Loteri Fawr i gorymrwymo'r arian sydd ar gael.

| | £'000 |
|---|---|
| **Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2008** | |
| Gwerth buddsoddiadau CDdLG ar y farchnad | 577,876 |
| Arian parod | 15,016 |
| | 592,892 |
| **Rhagolwg llif arian yn ystod 2008/09** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 639,000 |
| Llai trosglwyddiad i Gemau Olympaidd Llundain 2012 | (43,000) |
| Incwm arall | 18,000 |
| Taliadau costau gweithredu | (66,000) |
| Taliad i NESTA | (15,000) |
| Taliadau grant | (693,000) |
| **Treuliau o'r rhagolwg net** | (160,000) |
| **Rhagolwg o'r asedau hylifol ar 31 Mawrth 2009** | 432,892 |

Seilir y rhagolygon incwm ar ragamcaniadau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Seilir y rhagolygon taliadau grantiau ar yr amcangyfrifon o'r proffiliau tynnu i lawr.

### Risgiau cyfraddau llog

Buddsoddir balans ariannol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Fel y nodir yn Nodyn 1.3, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, rheolir hyn gan Gomisiynwyr Dyledion Cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gwerth y buddsoddiad ar y farchnad yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £578 miliwn. Yn ystod y flwyddyn roedd yr adenillion ar y buddsoddiadau hyn yn 6.1 y cant ar gyfartaledd.

Cedwir y balans arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, a chafwyd cyfradd llog o 5 y cant ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £15 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Loteri Fawr yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog.

### Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn wynebu unrhyw risgiau o ran arian tramor.

## 20. Ymrwymiadau ariannol

### Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA)

Yn 2005/06 cytunodd y Senedd i ddarparu cyllid ychwanegol i Waddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau. Mae swm o £15 miliwn yn cael ei ddargyfeirio o incwm Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a ddyrannir i'r Gronfa Loteri Fawr am gyfnod o 5 mlynedd gan gychwyn ar 31 Mawrth 2006. Bydd y taliad terfynol ar 31 Mawrth 2010.

## Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredu

Ar 31 Mawrth 2007, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr yr ymrwymiadau blynyddol a ganlyn o dan y prydlesau gweithredu ar gyfer tir ac adeiladau.

| | Ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn | 86 | 213 |
| Yn dod i ben o fewn 2-5 mlynedd | 421 | 260 |
| Yn dod i ben mewn mwy na 5 mlynedd | 5,535 | 6,170 |
| | 6,042 | 6,643 |

## 21. Cynllun pensiwn

Darperir manteision pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall gweision sifil berthyn i un o blith tri chynllun manteision diffiniedig "cyflog terfynol" statudol (clasurol, premiwm neu glasurol plws). Nid yw'r Cynlluniau yn cael eu cyllido, telir costau'r manteision gan arian a bennir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau a delir o dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau newydd o 1 Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng aelodaeth bremiwm neu ymuno â threfniant cyfranddeiliaid safonol "prynu arian" gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer y cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Mae manteision y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o'r gwasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae'r manteision yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Amrywiad ar y cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol plws yn ei hanfod, ond gyda manteision mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r clasurol.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2007/08, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £4,783,000 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2006/07 £4,898,000) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 17.1 - 25.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel y dangosir isod). Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd wedi gwerthusiad llawn. Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf, gan Hewitt Associates, ar 31 Mawrth 2007. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r manteision wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n dod i rym, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Cynyddodd cyfraddau yn 2008/09 ar sail argymhellion gan yr Actwari.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 |
|---|---|
| £19,000 a llai | 17.1% |
| £19,001 - £39,000 | 19.5% |
| £39,001 - £65,500 | 23.2% |
| £66,501 a mwy | 25.5% |

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 |
|---|---|
| £18,500 a llai | 17.1% |
| £18,501 - £38,000 | 19.5% |
| £38,001 - £65,000 | 23.2% |
| £66,001 a mwy | 25.5% |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 22. Colledion ariannol a thaliadau arbennig

Digwydd colledion lle nad oes tystiolaeth bod amcanion y prosiect wedi'u bodloni. Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2008 rydym wedi dileu colledion o £2,579,978 yn cynrychioli 182 o ddyfarniadau (2006/07 £708,981). Roedd pum dilead a oedd yn fwy na £100,000. Ceir eu manylion isod. Ar gyfer un dilead dros £100,000 ni allwn ddatgelu unrhyw fanylion oherwydd fe allay fod yn niweidiol i unrhyw gamau gan yr heddlu.

| | |
|---|---|
| Davish Enterprise Development | £255,661 |
| Highfields Community and Training Centre | £240,724 |
| Workforce Charitable Trust Limited | £237,500 |
| Child Psychotherapy Trust | £118,798 |

Mae taliadau arbennig yn codi os:

- yw grant wedi'i wneud drwy amryfusedd i sefydliad sy'n anghymwys o dan y gyfraith ond os yw'r grant o fewn bwriad eang y ddeddfwriaeth statudol. Mae'r holl ddyfarniadau hyn wedi'u gwario ar amcanion prosiect yn unol â thelerau ac amodau grantiau
- yw taliadau ex-gratia yn cael eu cymeradwyo.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2008 daeth taliadau arbennig i gyfanswm o £19,666 (2006/07 £33,871). Roedd y rhain yn cynrychioli taliadau i ymgeiswyr grantiau yn unol â chyngor yr Adolygydd Cwynion Annibynnol.

## 23. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ystyrir bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr a'i chyrff etifeddiaeth wedi cael amryw drafodion sylweddol gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chyrff eraill yr ystyrir bod yr Adran yn eu noddi: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Arts Council of England, MLA.

Mae trafodion gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn adlewyrchu'r incwm a dderbynnir drwy'r CDdLG a secondiadau staff yn fewnol. Mae trafodion gyda Dosbarthwyr eraill y Loteri yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli Arian i Bawb a rhentu gofod swyddfa. Gwneir taliadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England am eu gwasanaethau wrth gynnal rhaglenni grantiau ar y cyd (Nodyn 16).

Hefyd, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud nifer o drafodion sylweddol gydag Adrannau'r Llywodraeth a chyrff sy'n ystyried bod adrannau eraill y Llywodraeth yn eu noddi:

- mae Natural England a English Nature a ariannir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn dderbynyddion dyfarniadau grantiau
- mae Highlands and Islands Enterprise a noddir gan Swyddfa Weithredol yr Alban sy'n cyflwyno rhaglen grantiau ar ein rhan
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn ymwneud â PAYE a thrafodion Yswiriant Gwladol.

### Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw at gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau'r Bwrdd ar gyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae Aelodau'r Bwrdd yn cadw cofrestr o ddiddordebau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw ddiddordeb uniongyrchol yn y ceisiadau am grant a wneir i'r Gronfa Loteri Fawr a'r cysylltiadau masnachol gyda'r Gronfa Loteri Fawr.

Os gwneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf oherwydd grantiau i gyrff gwirfoddol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ar y dechrau bod datguddiad yn cael ei wneud a bod aelod y pwyllgor yn gadael y cyfarfod yn ystod trafod unrhyw eitem berthnasol. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grantiau yn gysylltiedig â phrosesu ceisiadau y gallent fod â diddordeb ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan diddordeb gyda chyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa Loteri Fawr ddiddordebau busnes ynddynt nad yw'n sylweddol. Mae'r rhain wedi'u datgelu yn Adran un yr Adroddiad Blynyddol.

## Cyfrifon memorandwm – Arian i Bawb Lloegr

### Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau gan bartneriaid | | | | | |
| Arts Council England | | 6,243 | | 7,031 | |
| Y Gronfa Loteri Fawr | | 40,207 | | 44,637 | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | | 3,961 | | 4,461 | |
| Sport England | | 5,948 | | 6,698 | |
| Treth dybiannol | | 22 | 56,381 | 18 | 62,845 |
| Y llog a dderbyniwyd | | | 108 | | 95 |
| Ad-daliadau grant | | | 1,719 | | 780 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | | 58,208 | | 63,720 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Ymrwymiadau grantiau a wnaed yn ystod y flwyddyn | 5 | 53,868 | | 60,058 | |
| Llai ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig | 5 | (70) | 53,798 | (89) | 59,969 |
| Costau staff | 2 | 2,091 | | 2,371 | |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 2,297 | 4,388 | 1,362 | 3,733 |
| Cyfanswm y Gwariant | | | 58,186 | | 63,702 |
| **Gwarged cyn treth** | | | 22 | | 18 |
| Treth dybiannol | 4 | | 22 | | 18 |
| **Gwarged/diffyg ar gyfer y cyfnod** | | | - | | - |
| **Gwarged/diffyg argadwedig** | | | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | | | - | | - |
| Diffyg ar gyfer y cyfnod | | | - | | - |
| Diffyg argadwedig ar 31 Mawrth 2008 | | | - | | - |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## Cyfrifon memorandwm – Arian i Bawb Lloegr

### Mantolen ar 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Balans sy'n ddyledus gan bartneriaid | | | | | |
| Arts Council England | | 932 | | 306 | |
| Y Gronfa Loteri Fawr | | - | | 1,476 | |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | | 591 | | 210 | |
| Sport England | | 1,010 | 2,533 | 344 | 2,336 |
| Arian parod | | | 659 | | 823 |
| | | | 3,192 | | 3,159 |
| **Credydwyr yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | | | |
| Balans sy'n ddyledus i bartneriaid | | | | | |
| Y Gronfa Loteri Fawr | | | 34 | | - |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 5 | | 3,136 | | 3,141 |
| Credydwyr eraill | | | 22 | | 18 |
| | | | 3,192 | | 3,159 |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfrifoldebau** | | | - | | - |
| **Gwarged argadwedig** | | | - | | - |

## Cyfrifon memorandwm – Arian i Bawb Lloegr

### Nodiadau i'r cyfrifon memorandwm ar 31 Mawrth 2008

### 1. Cyllideb ar gyfer dyfarniadau grantiau

Ariannir y rhaglen Arian i Bawb Lloegr drwy gynllun ar y cyd rhwng Arts Council England, y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England. Dyma'r gyllideb ariannu ar gyfer y rhaglen:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Arts Council England | 6,300 | 6,714 |
| Y Gronfa Loteri Fawr | 40,000 | 42,630 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri | 4,000 | 4,260 |
| Sport England | 6,000 | 6,396 |
| | 56,300 | 60,000 |

### 2. Costau staff

| | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a thaliadau | 1,504 | 1,635 |
| Costau newydd cymdeithasol | 104 | 117 |
| Costau pensiwn eraill | 244 | 283 |
| Staff asiantaeth | 239 | 336 |
| | 2,091 | 2,371 |

Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd ar sail gyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan y Cynllun Arian i Bawb Lloegr oedd 71 (2005/06 74).

### 3 Costau gweithredu eraill

| | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Teithio a threuliau | 35 | 26 |
| Llety | 444 | 102 |
| Cyfathrebu | 530 | 248 |
| Costau gweinyddol | 1,288 | 986 |
| | 2,297 | 1,362 |

### 4 Treth dybiannol

Mae treth gorfforaethol yn ddyledus ar log banc a dderbynnir gan bob dosbarthwr. Mae'r cyfrif tybiannol a godir ar y cyfrifon hyn yn cymryd bod y rhaglen Arian i Bawb Lloegr yn endid unigol. Cyfrifir treth ar gyfradd effeithiol o 20 y cant (2006/07 19 y cant).

### 5 Ymrwymiadau caled

| | £'000 |
|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2007 | 3,141 |
| Ymrwymiadau caled a wnaed yn ystod y flwyddyn | 53,868 |
| Di-rym neu ddiddymedig | (70) |
| Ymrwymiadau caled a gyflawnwyd | (53,803) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2008 | 3,136 |

Mae'r holl daliadau yn ddyledus o fewn blwyddyn.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau meddal, mae derbynyddion grantiau yn cadarnhau derbyn telerau ac amodau grantiau fel rhan o'u cais.

# Adran saith

Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau polisi

Hyd at 30 Tachwedd, Y Gronfa Loteri Fawr oedd enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, enw cyfreithiol y Gronfa Gymunedol, a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. O 1 Rhagfyr 2006 trosglwyddwyd asedau a chyfrifoldebau'r Gronfa Gymunedol, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chomisiwn y Mileniwm i gorff newydd sef y Gronfa Loteri Fawr. Sefydlwyd y Gronfa Loteri Fawr fel Corff Cyhoeddus Anadrannol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006. Mae'r Ddeddf yn nodi pa gyfran o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri y bydd y Gronfa yn ei derbyn ac mae'n rheoleiddio maint y Bwrdd a phenodi pwyllgorau cyffredinol a phenodol ar gyfer dosbarthu grantiau ym mhedair gwlad y DU.

Rhoddir y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan y Ddeddf i roi Cyfarwyddiadau i'r materion i'w hystyried wrth ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth ddosbarthu arian. Ar ôl ymgynghoriadau rhwng y Llywodraeth a'r Gronfa Loteri Fawr, cytunwyd ar set o themâu, canlyniadau a blaenoriaethau, a oedd yn caniatáu datblygu polisïau a rhaglenni ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr drwy'r trefniadau uno gweinyddol a ddaeth a'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ynghyd fel y Gronfa Loteri Fawr. Yn ystod 2005/06, cyhoeddwyd Cyfarwyddiadau Polisi newydd i alluogi i'r Gronfa Gymunedol gefnogi'r ystod newydd o raglenni ariannu o fewn ei phwerau cyfreithiol newydd, yn benodol y gallu i ddosbarthu grantiau trawsnewidiol. Cyhoeddwyd y Cyfarwyddiadau hyn ym mis Tachwedd 2006 ar ôl sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr. Amlinellir y rhain isod.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2007/08 ym mhob agwedd berthnasol.

## Lloegr a'r DU

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB 1993.**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr, gwariant datganoledig Ynys Manaw a gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen i annog arloesiad wedi'i gydbwyso gyda'r angen i reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**D.** Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**E.** Yr angen i osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**F.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen i sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**G.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**H.** Yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**I.** Yr angen i geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**J.** Yr angen i gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**K.** Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Grantiau Trawsnewidiol

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant grant trawsnewidiol, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i brosiectau ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig.

**B.** Yr angen i arian gael ei ddosbarthu at ddibenion gwariant cyfalaf ar brosiectau a dim ond ei ddosbarthu fel arall os yw'r arian:

(i) yn cael ei ddosbarthu at ddibenion gwaddolion neu ar ffurf grantiau refeniw lle fo:

(a) gwaddolion neu grantiau o'r fath yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf, y mae arian wedi'i ddosbarthu neu bwriadir dosbarthu arian mewn perthynas â hwy; a

(b) gwaddolion neu grantiau o'r fath yn cefnogi cyflwyno canlyniadau'r prosiect, cynyddu hygyrchedd, lleihau rhwystrau at fynediad a sicrhau bod prosiectau o'r fath yn gynaliadwy; neu

(ii) yn cael ei ddosbarthu ar gyfer arian datblygu i brosiectau yr aseswyd eu bod yn addas ar gyfer eu hariannu.

**C.** Yr angen i drawsnewid ac adfywio cymunedau a'r amgylchedd corfforol.

**D.** Yr angen ar gyfer cyfranogiad cyhoeddus eang wrth benderfynu dyfarnu grantiau sy'n:

(i) cynnwys ymgynghori, systemau pleidleisio neu fecanweithiau addas eraill;

(ii) rhydd rhag rhagfarn, llygredd a thriniaeth; a

(iii) chynnwys partneriaethau gyda chyfryngau darlledu, electronig, print ac eraill.

# Adran saith

## Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

**4.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yn Lloegr ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen i sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen i ystyried buddion Lloegr cyfan, buddion gwahanol rannau o Loegr a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Loegr a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn gwahanol rannau o Loegr.

**5.** . Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw bydd y Gronfa yn ystyried yr angen i ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** Gwell cyfle mewn bywyd i bobl, gyda gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad i wella eu sgiliau bywyd.

**B.** Cymunedau cryfach, gyda dinasyddion mwy gweithredol, yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'u problemau.

**C.** Amgylchiadau gwledig a threfol wedi'u gwella, y mae cymunedau yn gallu cael gwell mynediad atynt a'u mwynhau.

**D.** Pobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol.

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen i sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau teuluol.

**B.** Gwella llythrennedd, rhifedd, TGCh a sgiliau creadigol.

**C.** Datblygu sgiliau defnyddwyr, gan gynnwys rheoli cyllid a dyledion.

**D.** Datblygu sgiliau busnes sylfaenol, yn benodol ar gyfer menter gymdeithasol a chreadigol.

**E.** Cael gwared ar rwystrau at gyflogadwyedd a datblygu cyflogadwyedd, gan gynnwys drwy wella sgiliau cyfathrebu a datrys problemau.

**F.** Datblygu sgiliau bywyd, gan gynnwys sgiliau sy'n helpu i wella annibyniaeth bersonol a rhyngweithio ag eraill.

**G.** Cefnogi anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr.

**H.** Dathlu hunaniaeth gymunedol, diwylliant, amrywiaeth a llwyddiannau.

**I.** Cryfhau isadeiledd y sector gwirfoddoli a gwirfoddol.

**J.** Meithrin gallu ar gyfer ymglymiad cymunedol.

**K.** Ehangu ar brofiadau plant a phobl ifanc a chodi disgwyliadau.

**L.** Lleihau unigedd, er enghraifft ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr, a galluogi iddynt gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a theuluol.

**M.** Cefnogi dinasyddiaeth, arweinyddiaeth a chynllunio a chyflwyno lleol.

**N.** Sicrhau mannau diogelach, yn rhydd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd.

**O.** Mannau cyhoeddus a chelf gyhoeddus wedi'u cynllunio'n dda, sy'n lân ac yn cael eu cadw'n dda.

**P.** Cynyddu defnydd y cyhoedd o barciau lleol, cyfleusterau chwarae, mannau cyhoeddus, adeiladau cymunedol a chefn gwlad.

**Q.** Galluogi i gymunedau fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol a gwella eu hamgylchedd lleol.

**R.** Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy brosiectau addysgol.

**S.** Cynyddu cyfranogiad cymunedol mewn chwaraeon, dawns, chwarae a gweithgaredd corfforol a chreadigol.

**T.** Datblygu gwell ymdriniaethau tuag at fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys drwy addysg, ymwybyddiaeth gyhoeddus a'r celfyddydau.

**U.** Gwella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iachach a hyrwyddo perthynas rhwng dulliau cynhyrchu a'r amgylchedd.

**V.** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy brosiectau addysgol a gwybodaeth.

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## Yr Alban

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993**

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd y Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig yr Alban bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen i annog arloesiad wedi'i gydbwyso gyda'r angen i reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**D.** Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**E.** Yr angen i osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau yn daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

# Adran saith

**F.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen i sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr yn cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio I gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**G.** Dymunoldeb gweithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**H.** Yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**I.** Yr angen i geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**J.** Yr angen i gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**K.** Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig yr Alban

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig yr Alban, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yn yr Alban ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen i sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen i ystyried buddion yr Alban gyfan, buddion gwahanol rannau o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau'r Alban a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn y rhannau hynny.

**D.** Y flaenoriaeth dros fynd i'r afael ag anfantais a'r angen i fodloni anghydraddoldebau.

**E.** Yr angen i weithredu o fewn cyd-destun polisi gwahanol yr Alban, ychwanegu gwerth lle fo'n briodol i strategaethau ac i weithgareddau Gweinidogion yr Alban a rhai'r partneriaid a'r budd-ddeiliaid, gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol, y cyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat.

Mewn perthynas â gwariant datganoledig yr Alban bydd y Gronfa yn ystyried yr angen i ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd.

**B.** Cymunedau yn fwy diogel, yn gryfach ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

**C.** Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

**D.** Pobl a chymunedau yn iachach.

Mewn perthynas â gwariant datganoledig yr Alban bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen i sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Datblygu gofal plant a darpariaeth chwarae o ansawdd da a hygyrch i blant o bob oedran;

**B.** Gwella hyder a sgiliau bywyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon;

**C.** Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy;

**D.** Mynd i'r afael ag allgau ariannol a dyled;

**E.** Darparu cyfleoedd dysgu gydol oes;

**F.** Cefnogi rhwydweithiau cymunedol;

**G.** Cryfhau gweithredu gwirfoddol a chymunedol;

**H.** Meithrin gallu ar gyfer ymglymiad a datblygiad cymunedol, gan gynnwys hyrwyddo cyfranogiad gweithredol pobl ifanc yn eu cymunedau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'u cymunedau;

**I.** Cefnogi cymunedau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a delio gydag effaith gwahaniaethu ac aflonyddu;

**J.** Creu cyfleoedd i ddatblygu gwerthoedd a rennir a chymunedau cynhwysol ar lefel leol.

K. Sicrhau cymunedau mwy diogel a chryfach, yn rhydd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd.

**L.** Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynaliadwy;

**M.** Cefnogi adfywiad wedi'i arwain gan y gymuned;

**N.** Cyfoethogi amgylcheddau cymunedol, gan gynnwys amgylcheddau hanesyddol, a mannau gwyrdd;

**O.** Gwella mynediad at wasanaethau o fewn cymunedau gwledig a threfol;

**P.** Gwella mynediad at amgylcheddau lleol drwy feicio, cerdded a thrafnidiaeth modur cynaliadwy;

**Q.** Hyrwyddo perchnogaeth a defnydd tir cymunedol;

**R.** Hyrwyddo ymwybyddiaeth ac arfer da amgylcheddol;

**S.** Cefnogi a datblygu ymdriniaethau cymunedol tuag at fioamrywiaeth, ynni adnewyddadwy, adeiladau cynaliadwy a defnyddio adnoddau cynaliadwy gan gynnwys cynlluniau ailgylchu;

**T.** Cefnogi ymdriniaethau cymunedol ar gyfer cynhyrchu, defnyddio a dathlu bwyd iach cynaliadwy;

**U.** Gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd – yn benodol drwy wella cyfleoedd ar gyfer bwyta'n iach, gweithgaredd corfforol a mynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl ifanc;

**V.** Datblygu ymdriniaeth newydd tuag at wella iechyd a lles meddyliol;

**W.** Adnabod a chefnogi arfer da wrth hyrwyddo a gwella iechyd cymunedol;

**X.** Cefnogi gwaith sy'n hyrwyddo perthynas rhwng iechyd a lles ac adfywiad cymunedol ehangach.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion yr Alban
Patricia Ferguson,
Gweinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon
Aelod o Weithrediaeth yr Alban
Rhagfyr 2006

# Adran saith

## Cymru

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993**

Trwy hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd y Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y dylai'r Gronfa ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r telerau a'r amodau y mae'r Gronfa yn eu defnyddio wrth ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen i annog arloesiad wedi'i gydbwyso gyda'r angen i reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**D.** Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys rhoi grym i egwyddor cydraddoldeb rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Dylid cyflawni hyn drwy gynnwys amodau penodol ar iaith mewn grantiau a monitro a goruchwylio perfformiad derbynyddion grantiau yn ymwneud â'r amodau hynny.

**E.** Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**F.** Yr angen i osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**G.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

a). am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen i sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b). sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**H.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**I.** Yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**J.** Yr angen i geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**K.** Yr angen i gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**L.** Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**M.** Yr angen i sicrhau ymdriniaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn gweithio'n agos gyda phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddi gorau er budd cymunedau ar draws Cymru. Lle fo'n briodol dylid defnyddio profiadau sefydliadau eraill er mwyn cyfoethogi datblygu a chyflwyno dulliau ariannu.

## Gwariant Datganoledig Cymru

**3.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau neu'n rhoi benthyciadau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau, a'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r telerau a'r amodau y mae'r Gronfa yn eu defnyddio wrth ddosbarthu grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen i sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny a oedd yn gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yng Nghymru ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen i sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen i ystyried buddion Cymru gyfan, buddion gwahanol rannau o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Gymru a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn gwahanol rannau o Gymru, a'r angen i annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus, drwy gydweithio, i gyflwyno canlyniadau gwasanaeth gwell i ddinasyddion.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru bydd y Gronfa yn ystyried yr angen i ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** pobl o bob oed yn cael eu cyfarparu â'r sgiliau a'r ddysg i fodloni heriau cymdeithas fodern;

# Adran saith

**B.** pobl yn cydweithio ar gyfer cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; a

**C.** phobl a chymunedau iachach a mwy gweithredol yn gorfforol.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen i sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** mynd i'r afael â rhwystrau tuag at ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol;

**B.** pobl yn cydweithio ar gyfer cymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddau gwledig a threfol gwell; a

**C.** rhoi'r grym i gymunedau ddatblygu a chyflwyno rhaglenni adfywio lleol;

**D.** datblygu ymatebion cymunedol adeiladol tuag at anfodlonrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd;

**E.** galluogi i bobl hŷn fyw bywydau annibynnol a chyfrannu at eu cymunedau;

**F.** galluogi i gymunedau reoli a chyfoethogi eu hamgylchedd a chyfleusterau lleol;

**G.** datblygu gallu pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol ag egwyddorion gwaelodol Her Iechyd Cymru, sy'n annog unigolion a sefydliadau i wella iechyd yng Nghymru;

**H.** hyrwyddo bwyta'n iachach a chynyddu gweithgaredd corfforol ar draws pob oed, rhyw a grŵp cymdeithasol;

**I.** datblygu ymdriniaethau newydd tuag at hyrwyddo iechyd a lles meddyliol.

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL AYYB. 1993**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er lles personol.

**B.** Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau real a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen i annog arloesiad wedi'i gydbwyso gyda'r angen i reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**D.** Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**E.** Yr angen i osod cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau yn daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**F.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect ar gyfer cyfnod y grant;

(ii) os ceisir am arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen i sicrhau adnoddau er mwyn

bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau bod proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr yn cydfynd â'r rheini yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywdra lle bynnag fo hynny'n bosibl.

**G.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**H.** Yr angen i sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle fo hynny'n ofynnol.

**I.** Yr angen i geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn nwyddau gan ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau cefnogaeth o'r fath.

**J.** Yr angen i gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brandio cyffredin y Loteri.

**K.** Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, gosod blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon

**4.** Wrth ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa yn ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, i ba ddiben a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen i sicrhau fod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau gyda chanolfan yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n gweithio dramor.

**B.** Yr angen i sicrhau bod y Gronfa dros amser yn dosbarthu arian yn weddol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen i ystyried buddion Gogledd Iwerddon cyfan, buddion gwahanol rannau o Ogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol wahanol rannau o Ogledd Iwerddon a'r sgôp i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol o fewn y rhannau hynny.

# Adran saith

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon bydd y Gronfa yn ystyried yr angen i ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau y bwriedir iddynt gyflawni un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** Cyfle i bobl gyflawni eu llawn botensial

**B.** Pobl yn gallu cyfranogi'n weithredol yn eu cymunedau er mwyn cyflwyno newidiadau positif

**C.** Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol sy'n well ac yn fwy diogel

**D.** Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen i sicrhau bod un neu'n fwy o'r canlyniadau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau hanfodol i fodloni anghenion cymdeithasol ac economaidd

**B.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y Gymuned

**C.** Meithrin gallu cymunedol

**D.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chysylltu o fewn cymunedau a rhwng cymunedau

**E.** Meithrin partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol

**F.** Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol

**G.** Cynyddu ymglymiad y gymuned wrth ddiogelu, adfer a chynnal amgylchedd trefol a gwledig

**H.** Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach

**I.** Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigol a chymunedol

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon

## CYFARWYDDIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol a amlinellir isod yn berthnasol ar draws ein holl weithgareddau ym mhedair gwlad y DU. Rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn trwy weithredu gweithdrefnau ar draws y sefydliad i sicrhau bod Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i wirio ar sail samplu bod yr holl swyddogion ac adrannau yn cadw at y gweithdrefnau cytûn, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u lledaenu'n briodol. Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol llawn ar gael o Gyfarwyddwr Polisi a Phartneriaethau'r Gronfa Loteri Fawr.

Y Cyfarwyddiadau Ariannol a ddosbarthwyd i'r Gronfa Loteri Fawr o dan Adran 26(3), (3A) & (4) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998) ac a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2006 oedd:

- Y Gronfa Loteri Fawr yw enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n cydweithio yn unol ag uniad gweinyddol ym mis Mehefin 2006.
- Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ofynion Ariannol ynghlwm sydd â statws cyfarwyddiadau o dan adran 26 Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993, fel y'i diwygiwyd ("y Ddeddf"). Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol yn ategu at, a dylid ei ddarllen ar y cyd â, Datganiad Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n ymdrin â materion llywodraethu a rheoli corfforaethol.

Mae cyfeirio at y Gronfa Loteri Fawr yn y ddogfen hon yn cyfeirio at Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Llofnodwyd gan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited
ar ran Rheolydd Llyfrfa ei Marhydi
ID5868453 08/08
Argraffwyd ar Bapur yn cynnwys 75% o leiaf o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:
**Ar y we**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Frys y Senedd: *Lo-call* 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau Llyfrau Y Llyfrfa**
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX

**TSO@Blackwell ac Asiantaethau Achrededig eraill**